



# CPS Gwent

## Adroddiad yr arolygiaeth ar CPS Gwent

Chwefror 2010

Hybu Gwelliant mewn Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi
HM Crown Prosecution Service Inspectorate



# CPS Gwent

## Adroddiad yr arolygiaeth ar CPS Gwent

Chwefror 2010

Hybu Gwelliant mewn Cyfiawnder Troseddol

HMcpsi
HM Crown Prosecution Service Inspectorate

# CYNNWYS

**Rhagair**

**1 Disgrifiad o CPS Gwent a'i lwyth achosion ... 1**
Yr adroddiad, methodoleg a natur yr arolygiad ... 2

**2 Crynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad ... 5**
Ffactorau cyd-destunol a chefndir ... 5
Crynodeb o'r canfyddiadau ... 5
Casgliadau ... 8
Crynodeb o'r graddau ... 8
Argymhellion ... 9

**3 Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo ... 11**
Gwireddu buddiannau ... 11
Gweithredu'r system gyhuddo ... 12
Ansawdd cyngor a phenderfyniadau ... 13
Cyhuddo mewn perthynas â gwaith achos difrifol ... 14
Rheoli perfformiad a gweithio mewn partneriaeth ... 15

**4 Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn y llysoedd ynadon ... 17**
Canlyniadau yn y llysoedd ynadon ... 17
Ansawdd penderfyniadau ac adolygu parhaus ... 17
Paratoi a datblygu achosion ... 17
Achosion anffafriol ... 19
Treialon effeithiol, treialon aneffeithiol a threialon chwâl ... 20
Defnyddio'r system rheoli achosion – Compass CMS ... 20

**5 Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion Llys y Goron ... 21**
Ansawdd penderfyniadau mewn achosion ac adolygu parhaus ... 21
Canlyniadau yn Llys y Goron ... 22
Achosion anffafriol: rhyddfarnau dan orchymyn barnwr a rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr ... 22
Paratoi a datblygu achosion ... 23
Treialon effeithiol, treialon aneffeithiol a threialon chwâl ... 24
Adennill asedau (enillion o droseddau) ... 24
Defnyddio'r system rheoli achosion – Compass CMS ... 25

**6 Erlyn achosion yn y llysoedd ... 27**
Safon yr eiriolaeth ... 27
Datblygu achosion yn y llys ... 28
Arnodiadau gan y llysoedd ... 28
Cyfleusterau yn y llysoedd ... 29

**7 Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb ... 31**
Arbenigwyr ... 31
Ansawdd cyngor a phenderfyniadau ... 31
Trais yn erbyn merched ... 32
Lladd a thrais difrifol ... 33
Achosion traffig y ffyrdd lle cafodd pobl eu lladd ... 33
Troseddau casineb ... 33
Diogelu plant a cham-drin plant ... 34
Nodi a rheoli achosion sensitif ... 34

| | | |
|---|---|---|
| **8** | **Datgelu deunydd nas defnyddiwyd** | **35** |
| | Gwneud penderfyniadau a chydymffurfio â dyletswyddau datgelu | 35 |
| | Datgelu cychwynnol a pharhaus | 35 |
| | Deunydd sensitif a deunydd trydydd parti | 36 |
| | Cadw ffeiliau | 36 |
| | Gwella perfformiad a chamau gwella | 37 |
| **9** | **Terfynau amser cadwraeth** | **39** |
| | Systemau terfynau amser cadwraeth yr ardal | 39 |
| | Cadw at derfynau amser cadwraeth | 39 |
| **10** | **Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion** | **41** |
| | Diwallu anghenion dioddefwyr a thystion | 41 |
| | Unedau gofal tystion | 41 |
| | Cyfathrebu'n uniongyrchol â dioddefwyr | 43 |
| | Mesurau arbennig | 43 |
| | Gofalu am ddioddefwyr a thystion yn y llys a'r driniaeth a gânt | 44 |
| | Casgliad | 44 |
| **11** | **Rheoli perfformiad er mwyn gwella** | **47** |
| | Atebolrwydd a dadansoddi data | 47 |
| | Gwaith monitro a sicrhau ansawdd | 48 |
| | Rheoli perfformiad ar y cyd | 49 |
| **12** | **Rheoli adnoddau** | **51** |
| | Gwerth am arian a rheolaeth gyllidebol | 51 |
| | Defnyddio staff | 52 |
| | Gweithio hyblyg | 53 |
| **13** | **Arweinyddiaeth, rheolaeth a gweithio mewn partneriaeth** | **55** |
| | Diben a chynllunio | 55 |
| | Gweithio mewn partneriaeth | 56 |
| | Rheoli newid | 57 |
| | Sgiliau a hyfforddiant staff | 57 |
| | Cyfathrebu, moeseg, ymddygiad a gwerthoedd | 57 |
| **14** | **Hyder y Gymuned** | **59** |
| | Ymgysylltu â'r gymuned | 59 |

**Atodiadau**

| | | |
|---|---|---|
| A | Data o waith archwilio ffeiliau CPS Gwent a chymariaethau â pherfformiad cenedlaethol | 61 |
| B | Fframwaith arolygu'r ardal | 67 |
| C | Siart o'r sefydliad | 70 |
| D | Data perfformiad gwaith achos | 71 |
| E | Adnoddau a llwyth achosion | 72 |
| F | Cyfanswm nifer y ffeiliau a archwiliwyd ar gyfer CPS Gwent | 73 |
| G | Cynrychiolwyr lleol o sefydliadau ac asiantaethau cyfiawnder troseddol a fu o gymorth gyda'n harolygiad | 74 |
| H | Diben a gwerthoedd HMCPSI | 75 |
| I | Rhestr termau | 76 |
| J | Ymateb yr ardal i adroddiad HMCPSI ar CPS Gwent | 82 |

# RHAGAIR

Sefydlwyd Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) gan Ddeddf Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron 2000 fel corff statudol annibynnol. Penodwyd y Prif Arolygydd gan y Twrnai Cyffredinol ac mae'n atebol iddo.

Diben HMCPSI yw gwella ansawdd cyfiawnder drwy broses arolygu ac asesu annibynnol sy'n gwella effeithiolrwydd gwasanaethau erlyn, ac yn rhoi sicrwydd i Weinidogion, y llywodraeth a'r cyhoedd. Mae ei gylch gwaith statudol yn cynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) a Swyddfa Erlyniadau Cyllid a Thollau (RCPO). Mae hefyd yn arolygu, o dan awdurdod dirprwyedig gan Brif Arolygydd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, y Gwasanaeth Erlyn Cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill gan gynnwys y CPS ei hun, ond heb gyfaddawdu ein hannibyniaeth, a chydag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill. Bob blwyddyn, yn ogystal â chynnal arolygiadau ac archwiliadau gwaith achos o unedau busnes y CPS - y 42 o ardaloedd, isadrannau Gwaith Achos Canolog a chyfarwyddiaethau'r Pencadlys - rydym hefyd yn cynnal adolygiadau thematig drwy'r CPS cyfan, neu'r system cyfiawnder troseddol (CJS) ar y cyd ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill.

Yn 2007-08, gwnaethom gynnal yr ail asesiad cyffredinol o berfformiad pob un o'r 42 o ardaloedd gan gyhoeddi adroddiad cyfunol ar berfformiad y CPS yn gyffredinol. Yn yr adroddiadau hynny, aseswyd pa un a oedd yr ardaloedd unigol yn rhai ardderchog, da, gweddol neu wael. Mae pob un o'n hadroddiadau ar gael ar ein gwefan www.hmcpsi.gov.uk.

Yn 2009-10, rydym yn cynnal arolygiad llawn o'r ardaloedd hynny y canfuwyd eu bod yn wael er mwyn asesu pa un a yw eu perfformiad wedi gwella a byddwn yn cynnal arolygiadau eraill yn seiliedig ar risg o ardaloedd fel y bo'r angen. Mae'n annhebygol y byddwn yn arolygu'r ardaloedd yr aseswyd eu bod yn dda neu'n ardderchog; serch hynny, mae'n bosibl y byddwn yn ymweld â hwy fel rhan o'n rhaglen o archwiliadau gwaith achos neu fel rhan o adolygiadau thematig.

Mae HMCPSI hefyd yn ceisio gweithio gydag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill i archwilio materion systemig trawsbynciol sy'n effeithio ar weinyddu'r system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol. Lle y bo'r angen, fel sy'n wir yn achos Gwent, mae ein hadroddiadau hefyd yn tynnu sylw at ffactorau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau gwaith a'r cydweithredu rhwng yr asiantaethau cyfiawnder troseddol, lle maent yn effeithio ar y lefel o wasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

Mae Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus rhwng Trysorlys EM a'r adrannau perthnasol yn nodi'r disgwyliadau sydd gan y llywodraeth o'r system cyfiawnder troseddol yn genedlaethol. Fodd bynnag, o'n profiad ni, yn aml gellir cyflawni'r targedau er gwaethaf aneffeithlonrwydd mawr yn y prosesau a heb i'r gwaith fod o safon addas o reidrwydd. Felly nid yw HMCPSI o reidrwydd yn derbyn bod y ffaith bod y targedau yn cael eu cyflawni yn arwydd o berfformiad boddhaol. At hynny, er bod ein hadroddiadau yn aml yn nodi cymariaethau â'r perfformiad cenedlaethol cyfartalog, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu ein bod o'r farn bod honno'n safon dderbyniol. Os bydd agwedd benodol ar berfformiad yn wendid ar draws ardaloedd yn gyffredinol, bydd yn bosibl cyfateb i'r cyfartaledd cenedlaethol neu ragori arno heb gyrraedd y safon briodol.

Mae'r Prif Arolygydd wedi nodi datganiad o'i ddisgwyliadau mewn perthynas ag awdurdodau erlyn:

> *"Dilysnod gwaith erlyn o ansawdd da yw'r ffaith yr ymdrinnir â phob achos yn unigol ar bob cam yn ôl ei rinweddau, gyda'r lefel o ofal sy'n adlewyrchu'r ffaith ei fod yn effeithio ar fywydau pobl, a chyda'r lefel o ragweithedd a brwdfrydedd y byddai'r cyhoedd yn ei disgwyl."*

Mae'r broses arolygu yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ansawdd y broses o ymdrin â gwaith achos a gwneud penderfyniadau cysylltiedig sy'n arwain at ganlyniadau llwyddiannus mewn achosion unigol, ac sy'n treiddio i berfformiad cyffredinol y CPS. Mae gwaith achos cyson dda bob amser yn seiliedig ar systemau cadarn, gwaith rheoli da a gwaith monitro perfformiad strwythuredig. Rydym wedi egluro'r hyn sy'n dderbyniol gennym yn ein fframwaith arolygu (y ceir crynodeb ohono yn atodiad B) ac yn ein safonau gwaith achos.

Mae timau arolygu yn cynnwys arolygwyr cyfreithiol ac arolygwyr rheoli busnes sy'n cydweithio'n agos. Mae HMCPSI hefyd yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd sy'n meddu ar wybodaeth addas i ymuno â'r broses fel arolygwyr lleyg. Gwirfoddolwyr di-dâl yw'r rhain sy'n archwilio'r ffordd y mae'r CPS yn ymwneud â'r cyhoedd wrth iddo ymdrin â thystion a dioddefwyr; ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys grwpiau lleiafrifol; ymdrin â chwynion; a chymhwyso'r prawf budd y cyhoedd a gynhwysir yng Nghod Erlynwyr y Goron.

Mae gan HMCPSI swyddfeydd yn Llundain, lle mae Grŵp De Lloegr wedi'i leoli, ac yng Nghaerefrog lle mae Grŵp Cymru a Gogledd Lloegr wedi'i leoli. Mae'r ddau grŵp yn cynnal arolygiadau o unedau busnes y CPS, adolygiadau thematig ac arolygiadau ar y cyd ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill. Ar unrhyw adeg, mae HMCPSI yn debygol o fod yn cynnal sawl arolygiad o'r CPS a sawl adolygiad thematig, yn ogystal ag arolygiadau ar y cyd.

Mae adroddiadau'r Arolygiaeth yn nodi cryfderau ac agweddau ar gyfer gwella, yn rhoi sylw i arferion da ac yn cynnig argymhellion mewn perthynas â'r agweddau hynny ar berfformiad y mae angen eu gwella fwyaf. Nodir y diffiniadau o'r termau hyn yn y rhestr termau yn atodiad I.

# 1 DISGRIFIAD O CPS GWENT A'I LWYTH ACHOSION

1.1 Dyma adroddiad Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMCPSI) ar Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yng Ngwent (yr ardal) sy'n gwasanaethu'r ardal a gwmpesir gan Heddlu Gwent. Mae ganddo un swyddfa sydd yng Nghwmbrân.

1.2 Newidiodd yr ardal strwythur ei thîm gan sefydlu uned gyfun sy'n ymdrin ag achosion llysoedd yr ynadon a Llys y Goron ac fe'i rhennir mewn enw rhwng y gogledd a'r de at ddibenion rheoli.

1.3 Adeg yr arolygiad ym mis Medi 2009, roedd Gwent yn cyflogi 74.95 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn, y nodir eu manylion isod.

| Gradd | Nifer |
|---|---|
| Prif Erlynydd y Goron (CCP) | 1 |
| Lefel E | 1 |
| Lefel D | 4 |
| Eiriolwyr y Goron | 10 |
| Cyfreithwyr Lefel C (gan gynnwys hyfforddai cyfreithiol) | 13.2 |
| Erlynwyr cyswllt | 4 |
| Gweithwyr achos Lefel B2 | 1 |
| Staff Lefel B1 | 11.6 |
| Staff Lefel A | 29.15 |
| **Cyfanswm** | **74.95** |

Ceir dadansoddiad manwl o'r staff a'r strwythur yn atodiad C.

1.4 Roedd y llwyth achosion yn 2008-09 fel a ganlyn:

| Categori | Niferoedd yr Ardal | % o gyfanswm llwyth achosion yr Ardal | % o gyfanswm y llwyth achosion cenedlaethol |
|---|---|---|---|
| Penderfyniadau cyn-cyhuddo | 6,163 | 37.1 | 34.0 |
| Cyngor | 0 | 0 | 0 |
| Diannod | 6,272 | 37.7 | 38.3 |
| Neillffordd a ditiol yn unig | 4,177 | 25.1 | 27.5 |
| Gweithrediadau eraill | 3 | 0.1 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **16,615** | **100%** | **100%** |

1.5 Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys yr achosion a nodir yn y tabl nesaf, gan fod pob achos Llys y Goron yn dechrau yn y llysoedd ynadon. Mewn 2,861 o 6,163 o benderfyniadau cyn-cyhuddo'r ardal, penderfynwyd na ddylid erlyn. Mae cyfanswm y penderfyniadau i beidio ag erlyn yn cyfrif am 17.2% o'r llwyth achosion. Lle y mae cyngor cyn-cyhuddo yn arwain at gychwyn gweithrediadau, caiff yr achos ei gyfrif hefyd o dan y categori perthnasol sef diannod neu neillffordd/ditiol yn unig yn niferoedd y llwyth achosion.

1.6 Roedd llwyth achosion Llys y Goron yn 2008-09 fel a ganlyn:

| **Achosion yn Llys y Goron** | **Niferoedd yr Ardal** | **% o gyfanswm llwyth achosion yr Ardal** | **% o gyfanswm y llwyth achosion cenedlaethol** |
|---|---|---|---|
| Ditiol yn unig | 481 | 37.9 | 29.0 |
| Troseddau neillffordd | 507 | 40.0 | 45.2 |
| Apeliadau yn erbyn collfarn neu ddedfryd | 131 | 10.3 | 10.0 |
| Traddodi i ddedfryd | 150 | 11.8 | 15.8 |
| **Cyfanswm** | **1,269** | **100%** | **100%** |

1.7 Ceir tabl manylach o lwyth achosion a chanlyniadau achosion o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn atodiad D a cheir tabl o lwyth achosion mewn perthynas ag adnoddau'r ardal yn atodiad E. Ers ein harolygiad diwethaf yn 2007, cynyddodd cyllideb Gwent ychydig o £3.520 miliwn i £3.548 miliwn. Mae niferoedd y staff dros yr un cyfnod wedi lleihau o 88.6 i 74.95 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

**Yr adroddiad, methodoleg a natur yr arolygiad**

1.8 Mae'r broses arolygu yn seiliedig ar y fframwaith a grynhoir yn atodiad B. Mae penawdau'r penodau yn ymwneud â'r safonau ac mae penawdau'r adrannau yn ymwneud â'r meini prawf ar gyfer mesur ardaloedd y CPS. Mae'r is-benawdau mewn llythrennau italig yn nodi materion penodol o fewn y meini prawf hynny.

1.9 Mae dau fath o arolygiad - mae arolygiad llawn yn ystyried pob agwedd ar berfformiad o fewn y fframwaith, ond dim ond yr agweddau hynny yr aseswyd bod angen craffu arnynt y mae arolygiad yn seiliedig ar risg yn eu hystyried yn fanwl. Mae hyn yn seiliedig ar ein hasesiad cyffredinol o berfformiad (OPA) a data allweddol arall.

1.10 Yn ôl asesiad cyffredinol o berfformiad (OPA) Gwent, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2007, aseswyd bod yr ardal yn weddol. Ers hynny nid yw'r perfformiad wedi gwella ac, os rhywbeth, bu dirywiad mewn sawl canlyniad allweddol. Er i'r ardal gadw statws 'ambr/gwyrdd' o fewn graddau perfformiad y CPS, roedd hyn yn destun pryder i HMCPSI a benderfynodd y dylid cynnal arolygiad llawn. Atgyfnerthwyd y pryderon hynny gan ddigwyddiadau yn ystod cam rhagarweiniol yr arolygiad.

1.11 Canfu HMCPSI yn ystod y gwaith o baratoi ar gyfer yr arolygiad fod amgylchiadau wedi codi nad oedd unrhyw gysylltiad rhyngddynt â'r arolygiad ac o ganlyniad i'r amgylchiadau hynny, neilltuwyd dyletswyddau eraill i Brif Erlynydd y Goron (CCP) ar y pryd. Ers hynny, mae wedi gadael y Gwasanaeth.

1.12 Mewn datblygiad arall nad oedd unrhyw gysylltiad rhyngddo â'r arolygiad ychwaith, arestiwyd aelod o'r tîm rheoli ac mae bellach yn wynebu achos troseddol. O ganlyniad i'r achos hwnnw, ehangwyd cwmpas ein gwaith casglu tystiolaeth i gynnwys sampl ehangach o ffeiliau i'w harchwilio.

1.13 Cyfunodd ein methodoleg gyfweliadau a holiaduron a gwblhawyd gan ymarferwyr ym maes y gyfraith troseddau a chynrychiolwyr lleol asiantaethau cyfiawnder troseddol, cyfweliadau â staff y CPS ar bob lefel ac archwiliad o 80 o achosion a gwblhawyd rhwng mis Rhagfyr 2008 a mis Ebrill 2009. Roedd ein sampl o ffeiliau yn cynnwys achosion lle gwnaed penderfyniadau cyn-cyhuddo, treialon mewn llysoedd ynadon a threialon yn Llys y Goron (boed yn rhyddfarnau neu'n gollfarnau), a rhai mathau penodol o achosion. Oherwydd pryderon am safon y penderfyniadau a nodwyd mewn achosion a gafodd eu dirwyn i ben o fewn ein sampl gwreiddiol, archwiliwyd 11 o achosion ychwanegol o'r fath gennym. Ceir dadansoddiad manwl o'n sampl o ffeiliau yn atodiad F.

1.14 Rydym yn gwneud nifer o asesiadau o ran ansawdd y broses o wneud penderfyniadau ac ymdrin ag achosion yn ystod y gwaith o archwilio ffeiliau. Ni chymharwyd canfyddiadau'r gwaith o archwilio ffeiliau â chanfyddiadau'r arolygiadau effeithiolrwydd ardal eraill gan mai dim ond y trydydd arolygiad o'r math hwn yw adolygiad Gwent. Mae perygl na fyddai llawer o werth i unrhyw gymhariaeth a wnaed yn erbyn sampl ffeiliau bach.

1.15 Ceir rhestr o unigolion y gwnaethom gyfarfod â hwy neu y cawsom sylwadau ganddynt yn atodiad G. Arsylwodd y tîm berfformiad eiriolwyr a'r gwasanaethau a ddarperir yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron ac hefyd mewn canolfannau cyhuddo.

1.16 Ymwelodd Arolygwyr â'r ardal rhwng 8 a 24 Medi 2009. Yr arolygydd lleyg ar gyfer yr arolygiad hwn oedd Tony Summers. Disgrifir rôl yr arolygydd lleyg yn y cyflwyniad. Archwiliodd ffeiliau a fu'n destun ystyriaethau penodol mewn perthynas â budd y cyhoedd neu gwynion gan aelodau o'r cyhoedd ac ystyriodd lythyrau a ysgrifennwyd gan staff y CPS at ddioddefwyr yn dilyn lleihau cyhuddiad neu ddirwyn cyhuddiad i ben. Ymwelodd hefyd â rhai llysoedd a chafodd gyfle i siarad â rhai o'r tystion ar ôl iddynt roi tystiolaeth. Gwnaeth hyn gyfraniad gwerthfawr i'r broses arolygu. Cynhwyswyd safbwyntiau a chanfyddiadau'r arolygydd lleyg yn yr adroddiad cyffredinol yn hytrach na chyflwyno adroddiad ar wahân arnynt. Rhoddodd Tony o'i amser yn gwbl wirfoddol ac mae'r Prif Arolygydd yn ddiolchgar am ei ymdrech a'i gymorth.

1.17 Nodir diben a nodau'r Arolygiaeth yn atodiad H a cheir rhestr o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn atodiad I.

# 2 CRYNODEB O GANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION YR AROLYGIAD

### Ffactorau cyd-destunol a chefndir

2.1 Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o CPS Gwent ym mis Mai 2007. Yn dilyn yr arolygiad hwnnw, dyfarnodd OPA HMCPSI o holl ardaloedd y CPS ei fod yn weddol. Adeg yr OPA, roedd yr ardal yn destun newid ac ailstrwythuro. Roedd rhai agweddau ar berfformiad yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol er bod angen gwella'r trefniadau ar gyfer gwaith cyn-cyhuddo a datblygu achosion yn achosion llysoedd ynadon. Roedd partneriaid a staff yn yr ardal yn gweld penodiad y CCP parhaol cyntaf ers 2004 fel dechrau newydd a sbardun i ysgogi gwelliant a newid.

2.2 Nid yw'r ardal wedi datblygu na gwella yn ystod y cyfnod ers hynny. Nid yw'r penderfyniad i symud i swyddfeydd newydd yng Nghwmbrân, a ystyriwyd gan rai fel yr ateb i lawer o'r problemau a fodolai, ac i ailstrwythuro'r sefydliad wedi cyflawni'r buddiannau yr oedd rhai yn sicr y byddent yn arwain atynt. Yn ogystal, ni fu'r penderfyniad i benodi CCP parhaol, a ymddiswyddodd yn ystod yr arolygiad hwn - am resymau digyswllt - yn gatalydd ar gyfer newid ac ni roddodd y weledigaeth a'r cyfeiriad i'r ardal yr oeddem wedi gobeithio eu gweld wrth argymell yn 2007 y dylai'r CPS weithredu ar fyrder i benodi arweinydd parhaol.

2.3 Ers yr arolygiad diwethaf, bu gostyngiad sylweddol yn y llwyth achosion, 20% yn y llysoedd ynadon ac ychydig dros 7% yn Llys y Goron. Nid yw hyn wedi arwain at welliant yn ansawdd y gwaith o baratoi gwaith achos na'r broses o wneud penderfyniadau. Yn ogystal, bu gostyngiad o 17% yn nifer y staff.

2.4 Adeg yr arolygiad a'r OPA diwethaf, mynegwyd pryderon gennym am y broses o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Nid oedd ethos 'tîm erlyn' wedi datblygu o'r trefniadau cyhuddo newydd fel y gwnaeth mewn ardaloedd eraill ac roedd diwylliant o fwrw bai yn bodoli rhwng asiantaethau yr oedd angen ymdrin ag ef ar lefel strategol ac ar lefel weithredol.

2.5 Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan fod perfformiad Gwent wedi gwaethygu ers yr OPA a rhydd y crynodeb hwn drosolwg o ganfyddiadau cyffredinol yr arolygiad.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

2.6 Mae CPS Gwent bellach mewn sefyllfa llawer gwannach na'r sefyllfa a gofnodwyd yn yr arolygiad a'r OPA diwethaf. Nid yw perfformiad yr ardal wedi llwyddo i gyflawni'r un lefelau â gweddill y Gwasanaeth ac, mewn sawl enghraifft, mae wedi gwaethygu. Mae'r ffaith na fu ardal lle cafwyd methiannau rheoli difrifol, fel y nodwyd yn ein harolygiad diwethaf, yn destun gwaith craffu manylach gan Bencadlys y CPS yn peri pryder mawr.

2.7 Erys llawer o'r problemau a nodwyd yn arolygiad 2007 ac mewn rhai achosion, maent wedi gwaethygu o ganlyniad i fethiannau rheoli difrifol pellach. O ran y staff sy'n gweithio yn yr ardal, mae digwyddiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi rhwbio halen yn y briw ac mae'r ffaith bod y tîm arolygu wedi nodi bod sawl aelod o staff yn yr ardal yn parhau'n ymroddedig, eu bod yn gweithio'n galed a'u bod yn dal yn awyddus i wneud eu gwaith yn dda, er gwaethaf y sefyllfa, yn glod mawr iddynt.

2.8 Dylai'r penderfyniad i benodi CCP parhaol a phrofiadol fod wedi ysgogi newid gwirioneddol gan na fu gan yr ardal weledigaeth glir nac arweinyddiaeth wirioneddol ers 2004. Ni chafodd penodiad y CCP yn 2007 yr effaith ddymunol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, parhaodd yr ardal i ddioddef o ganlyniad i ddiffyg arweinyddiaeth wirioneddol a gweladwy a gweledigaeth o ran yr hyn y dylai ei gyflawni. Cafodd hyn hefyd effaith ddifrifol iawn ar gydberthnasau gwaith ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, a oedd eisoes o dan straen. Roedd y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y CCP, sef caniatáu i'r uwch reolwyr presennol fod fwy neu lai yn gwbl gyfrifol am berfformiad, oherwydd eu statws a chred fod angen iddo droedio'n ofalus oherwydd hanes yr ardal, yn ddiffygiol.

2.9 Fodd bynnag, mae'n rhy hawdd o lawer bwrw'r bai am berfformiad gwael yn llwyr ar y CPS. Er ei fod yn greiddiol i'r broses, caiff llawer o'r hyn a wna ei ddylanwadu gan bartneriaid eraill o fewn y system cyfiawnder troseddol (CJS). Drwy archwilio ffeiliau, gallwn feithrin dealltwriaeth o brosesau cydgysylltiedig y system. Yn llawer rhy aml, mae ansawdd y ffeiliau y mae'r CPS yn eu derbyn gan yr heddlu yn wael ac yn aml ceir oedi annerbyniol. Mae hyn yn gwneud gwaith yr erlynydd yn anodd iawn, gall ychwanegu pwysau ac mae'n cynyddu llwyth gwaith yn ddiangen. Mae hefyd yn cael effaith ar achosion a ddaw gerbron y llysoedd ynadon. Yn llawer rhy aml, nid yw achosion wedi'u paratoi'n llawn yn unol ag amserlenni disgwyliedig. O ganlyniad, mae'r llys yn colli amynedd a phrin iawn yw'r hyblygrwydd a roddir. Yn sgîl hynny, mae achosion yn cael eu dirwyn i ben yn gynnar gan nad oes gan y CPS lawer o ddewis; ni all fwrw ymlaen ag achosion heb y papurau perthnasol.

2.10 Mae gan y llysoedd ynadon agwedd gyson a chadarn at geisiadau i ohirio achos gyda'r nod o gael effaith ar yr erlyniad neu'r amddiffyniad ond sy'n aml yn cosbi'r dioddefwr yn y pen draw. Mae ymarferwyr cyfiawnder troseddol yn ystyried yr agwedd hon fel anhyblygrwydd mewn ymateb i feirniadaeth gyffredinol mewn adroddiad cynharach gan HMCPSI o ddiwylliant o ohirio achosion yng Ngwent. Er ein bod yn canmol dull gweithredu sy'n herio ceisiadau am ohirio achosion er mwyn sicrhau bod cyfiawnhad drostynt, ni fyddem yn awyddus i awgrymu dull gweithredu a allai arwain at anghyfiawnder posibl i ddioddefwyr.

2.11 Mae proses datblygu achosion wael y CPS ac anawsterau wrth gyflwyno papurau amserol i'r llys a'r amddiffyniad wedi ehangu'r diwylliant o fwrw bai a oedd yn datblygu yn 2007. Bu llawer o'r prosesau a'r systemau sy'n gweithio mewn ardaloedd eraill yn y wlad o dan straen yng Ngwent. Roedd bai hefyd yn cael ei fwrw yn aml mewn llys agored, sy'n anfoddhaol iawn, a gallai hyn effeithio ymhellach ar hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol, sydd eisoes yn isel yng Ngwent.

2.12 Mae safon ansawdd ffeiliau yn rhywbeth a drafodwyd yn rheolaidd gyda'r heddlu. Fel y 'porth' i'r system, derbynnir bod ansawdd ffeiliau yn hanfodol i'w heffeithlonrwydd cyffredinol. Mae'r heddlu wedi cydnabod hyn ac maent yn cynyddu adnoddau yn sylweddol i wella prosesau llunio a rheoli ffeiliau cychwynnol. Y gobaith yw y bydd hyn yn ymdrin â rhai o'r problemau sefydledig. Fodd bynnag, gwnaethant y rhan fwyaf o'r gwaith cynllunio ar gyfer y newid hwn ar eu pen eu hunain. Mae angen i'r CPS weithio gyda'r heddlu fel partneriaid cyfwerth er mwyn sicrhau y caiff y newid hwn ei reoli'n effeithiol i gyflwyno'r buddiannau y cytunwyd arnynt.

2.13 Mae'r gwaith archwilio ffeiliau wedi amlygu rhai diffygion difrifol o ran safonau'r penderfyniadau a wneir. Cymhwyswyd Cod Erlynwyr y Goron (y Cod) yn anghywir mewn dros 10% o achosion yn ystod y cam cyhuddo ac roedd y penderfyniadau a wnaed yn waeth mewn achosion difrifol a fyddai'n cael eu gwrando yn Llys y Goron nag achosion llysoedd ynadon. Mae gwendidau o ran y penderfyniadau a wneir yn parhau i effeithio ar achosion wrth iddynt fynd ar eu hynt drwy'r

system ac maent yn destun pryder gwirioneddol. Mae diffyg disgwyliadau a safonau clir ar y lefel waith, sydd wedi cael effaith ddifrifol. Mae rhai o'r prosesau ategol yn wan fel yr amlygir gennym uchod. Fodd bynnag, hyd yn oed lle y derbyniwyd y ffeiliau a bod achos i'w gyflwyno, mae penderfyniadau anghywir yn cael eu gwneud. Mae unigolion yn cael eu cyhuddo ac wedyn caiff yr achosion eu dirwyn i ben er nad oes unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau neu cânt eu colli oherwydd oedi diangen. Nid oes unrhyw system rheoli perfformiad fewnol yn llwyddo i nodi rhannau helaeth o'r hyn sy'n digwydd. Prin iawn yw'r ymwybyddiaeth fewnol o'r sefyllfa bresennol ac o ganlyniad, nid oes cysylltiad rhwng yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd a'r rheswm a nodir gan yr ardal dros lawer o'r methiannau.

2.14 Mabwysiadodd y CCP y dull gweithredu a gynlluniwyd yn flaenorol gan yr ardal a datblygodd uned eiriolaeth yn Llys y Goron, gyda'r staff yn cynnwys eiriolwyr mewnol y goron, a fyddai'n cyflwyno'r rhan fwyaf o'r achosion yn Llys y Goron, yn hytrach na chyflogi cwnsleriaid allanol. Er bod y strategaeth CPS genedlaethol hon yn sylfaenol gadarn, mae'r ffordd y cafodd ei rhoi ar waith yng Ngwent wedi cael effaith drychinebus. Yn arbennig, mae wedi dihysbyddu adnoddau ac mae'r broses o baratoi achosion ar gyfer Llys y Goron wedi dioddef yn ddifrifol. Mae'r broses o baratoi a gwneud penderfyniadau yn yr achosion hyn, gan gynnwys trais difrifol, troseddau rhywiol a throseddau casineb, yn wael. Mewn rhai achosion, mae'r diffyg adnoddau hwn wedi golygu nad oes cyfreithwyr ar gael i wneud penderfyniadau a rhoi cyngor cyn-cyhuddo i'r heddlu mewn achosion cymhleth a sensitif, bod oedi yn digwydd ac mai dull 'diffodd tân' er mwyn dal i fyny yw'r norm erbyn hyn. Rhoddodd y strategaeth straen ariannol ddifrifol ar yr ardal ac ni all barhau i weithredu mewn ffordd sy'n arwain at orwariant mor uchel.

2.15 Mae llawer o'r methiannau a amlygwyd yn yr adroddiad wedi cael effaith ar y gwasanaeth a gynigir i ddioddefwyr a thystion ac ansawdd cyfiawnder yn gyffredinol. Mae penderfyniadau gwael yn golygu bod achosion yn cael eu dechrau ond wedyn eu dirwyn i ben. Yn aml iawn, mae cydberthnasau gwael â phartneriaid CJS yn golygu nad yw dioddefwyr a thystion wrth wraidd y system a'u bod o dan anfantais oherwydd effaith y diwylliant o fwrw bai. Mae llawer o'r achosion a welwyd fel rhan o'r gwaith archwilio ffeiliau yn amlygu'r ffaith nad yw anghenion dioddefwyr bob amser yn cael blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau ac, er gwaethaf y ffaith bod y broses wedi gwella rhywfaint, bod y gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr a thystion yng Ngwent wedi dioddef.

2.16 Rhaid i'r ardal ddychwelyd at yr hanfodion. Mae angen iddi bennu safonau a disgwyliadau cadarn iawn ar gyfer ymdrin ag achosion ac ymddygiad proffesiynol ei chyfreithwyr, a rhoi cyfundrefn rheoli perfformiad effeithiol ar waith y gellir asesu perfformiad gwirioneddol unigolion yn ei herbyn. Mae angen rheoli cyfreithwyr ac mae'n rhaid cael dealltwriaeth gyffredin o'r disgwyliadau. Er mwyn i'r ardal wella ansawdd cyffredinol y cyfiawnder a ddarperir gan y system, bydd yn rhaid iddi ganolbwyntio gweithgarwch ar sicrhau gwelliannau i'w busnes ei hun yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i wella eu busnes hwy.

2.17 Ers yr arolygiad, penderfynodd y CPS benodi CCP parhaol newydd, penderfyniad a groesawyd gan bartneriaid cyfiawnder troseddol. Mae'r CCP wedi dechrau ei ddadansoddiad ac mae'n meithrin dealltwriaeth glir o'r materion y mae angen ymdrin â hwy. Mae rhai camau gweithredu yr oedd angen eu cymryd ar fyrder i wella'r broses o baratoi achosion difrifol eisoes wedi dechrau. Ceir ymateb naratif i'r adroddiad arolygu hwn a luniwyd gan yr ardal yn atodiad J.

2.18 Dim ond os caiff Gwent gymorth gan Bencadlys y CPS a phartneriaid y cyflawnir y gwelliannau angenrheidiol. Bydd angen hefyd i'r CCP newydd gael cymorth priodol gan dîm cymwys ac ymroddedig. Argymhellir y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o strwythurau a threfniadau rheoli yn yr ardal. Bydd angen i Bencadlys y CPS sicrhau ei fod yn rhoi'r cymorth ariannol a'r cymorth arall sydd eu hangen i sicrhau y gellir cyflawni'r newidiadau angenrheidiol mewn strwythur, diwylliant a pherfformiad.

**Casgliadau**

2.19 Mae'r ffaith bod ardal wedi gallu methu i'r fath raddau heb ryw fath o ymyriad yn peri pryder gwirioneddol. Mae canfyddiadau'r arolygiad hwn yn amlygu methiannau o'r fath sy'n arwain at bryderon difrifol o ran y gwasanaeth a gynigir i'r rheini a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Ngwent. Mae'r pryder hwn yn mynd y tu hwnt i'r CPS ac mae'n fater partneriaeth holl bwysig. O ystyried y canfyddiadau cyffredinol, rhoddir gradd **GWAEL** i CPS Gwent.

**Crynodeb o'r graddau**

| Agweddau critigol | OPA 2007 | Arolygiad 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo | Gweddol | Gwael | Wedi gwaethygu |
| Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn y llysoedd ynadon | Gweddol | Gwael | Wedi gwaethygu |
| Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn Llys y Goron | Da | Gwael | Wedi gwaethygu |
| Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion | Gweddol | Gweddol | Wedi gwaethygu |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth a gweithio mewn partneriaeth[1] | Gweddol | Gwael | Wedi gwaethygu |
| **Lefel gyffredinol yr asesiad critigol** | **Gweddol** | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |
| Erlyn achosion yn y llysoedd | Gweddol | Gweddol | Sefydlog |
| Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb | Da | Gwael | Wedi gwaethygu |
| Datgelu | Gweddol | Gweddol | Wedi gwella |
| Terfynau amser cadwraeth | Gwael | Gwael | Wedi gwella |
| Rheoli perfformiad er mwyn gwella | Gweddol | Gwael | Wedi gwaethygu |
| Rheoli adnoddau | Gweddol | Gwael | Wedi gwaethygu |
| Hyder y gymuned | Da | Gweddol | Wedi gwaethygu[2] |
| **Asesiad cyffredinol** | **GWEDDOL** | **GWAEL** | **WEDI GWAETHYGU** |

1 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn cynnwys elfennau a gynhwyswyd yn flaenorol o fewn "Cyflwyno newid" sydd bellach wedi'i dynnu o'r fframwaith fel agwedd annibynnol.

2 Nid yw'n bosibl llunio cymhariaeth uniongyrchol gan fod y fframwaith a ddefnyddir i arolygu'r ardal wedi newid. Fodd bynnag, rhoddwyd sgôr am ymgysylltu â chymunedau a gweithio mewn partneriaeth er bod y testun wedi'i gynnwys yn y bennod ar arweinyddiaeth gan fod gorgyffwrdd sylweddol rhwng y meysydd.

**Argymhellion**

2.20 Rydym yn cynnig argymhellion am y camau sydd eu hangen i ymdrin â gwendidau sylweddol sy'n berthnasol i agweddau pwysig ar berfformiad, sy'n haeddu cael y flaenoriaeth uchaf, yn ein barn ni, ac rydym wedi gwneud 17 o argymhellion i helpu i wella perfformiad Gwent.

---

1 Dylai'r ardal weithio gyda phartneriaid yn yr heddlu i sicrhau y caiff cyngor cyn-cyhuddo ei roi ac y caiff penderfyniadau cyn-cyhuddo eu gwneud yn gywir ac yn effeithlon, ar yr achosion priodol, yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr. Mae angen rhoi trefniadau ar waith ar gyfer gwaith monitro effeithiol ar y cyd (paragraff 3.24).

---

2 Dylid ailhyfforddi erlynwyr mewn perthynas â'u cyfrifoldebau cyhuddo a'u rheoli'n weithredol er mwyn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn gwella a'u bod yn rhagweithiol o ran eu gwaith dadansoddi achosion ac o ran y cyngor a roddir ganddynt i'r heddlu (paragraff 3.24).

---

3 Dylai'r ardal ymdrin â'r trefniadau ar gyfer y llif gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r CPS fel mater o frys, drwy drafodaeth agored ac adeiladol (paragraff 4.22).

---

4 Dylid archwilio'r broses o weithredu'r model busnes gorau er mwyn sicrhau bod y tasgau a'r gwaith paratoi angenrheidiol ar gyfer treialon yn cael eu cynnal mewn da bryd (paragraff 4.22).

---

5 Dylid adfer y drefn o gynnal cyfarfodydd datblygu achosion gyda'r llys (paragraff 4.22).

---

6 Dylai'r ardal sicrhau ei bod yn rhoi mwy o flaenoriaeth i waith achos Llys y Goron ac yn pennu disgwyliadau a safonau clir i gyfreithwyr wella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau ac ymdrin ag achosion. Dylai safonau gael eu hategu gan gyfundrefn sicrhau ansawdd gadarn (paragraff 5.28).

---

7 Dylai'r ardal ailystyried ei dull o weithredu'r strategaeth eiriolaeth er mwyn sicrhau eiriolaeth o ansawdd, a ddarperir gan eiriolwyr sy'n meddu ar y sgiliau priodol, ac a ategir gan waith achos cadarn (paragraff 6.18).

---

8 Dylai'r ardal gymryd camau i wella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn pob achos difrifol a sensitif, gan sicrhau y cydymffurfir â pholisïau (paragraff 7.26).

---

9 Dylai'r ardal ystyried sefydlu cyngorfeydd ar gyfer trais a throseddau rhywiol (paragraff 7.26).

---

10 Dylid darparu hyfforddiant pellach i gyfreithwyr ar ymdrin â materion datgelu deunydd trydydd parti ac imiwnedd budd y cyhoedd, a dylid cymryd camau i gytuno ar brotocol ar gyfer datgelu deunydd trydydd parti gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol (paragraff 8.9).

---

11 Dylai'r ardal weithio gyda phartneriaid i wella prosesau sy'n helpu dioddefwyr a thystion (paragraff 10.28).

---

12 Dylai'r ardal sicrhau bod ansawdd llythyrau cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr yn gwella a bod prosesau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith (paragraff 10.28).

13 Dylai'r ardal gyfleu'n glir y safonau proffesiynol sy'n ofynnol a datblygu cyfundrefn rheoli perfformiad gadarn i sicrhau y caiff gwaith ei gynnal yn broffesiynol a'i fod yn cyrraedd safon uchel (paragraff 11.5).

14 Dylai'r ardal weithio gyda phartneriaid a defnyddio cyfarfodydd perfformiad ar y cyd fel ffordd o wella safonau a gwella'r gwasanaeth a gynigir ganddi i'r cyhoedd (paragraff 11.14).

15 Dylai'r ardal adolygu ei strwythurau rheoli a'i strwythurau trefniannol presennol er mwyn sicrhau ei bod yn y sefyllfa orau i gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig (paragraff 12.13).

16 Dylai'r ardal bennu gweledigaeth glir i CPS Gwent a gaiff ei chyfleu'n effeithiol i'r staff a phartneriaid (paragraff 13.20).

17 Dylai'r ardal ddatblygu cyfres glir o safonau ymddygiad y dylid eu rhoi ar waith yn gyson (paragraff 13.20).

2.21 Yn ogystal, nodwyd un agwedd arall ar gyfer gwella.

1 Mae angen i'r ardal sicrhau y caiff pwyntiau dysgu o adroddiadau achos anffafriol ac unrhyw system sicrhau ansawdd gwaith achosion eu bwydo yn ôl yn rheolaidd i gyfreithwyr unigol (paragraff 11.7).

| 3 CYNGOR A PHENDERFYNIADAU CYN-CYHUDDO | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

**Gwireddu buddiannau**

3.1 Trosglwyddodd y cyfrifoldeb dros bennu cyhuddiadau yn yr achosion mwy difrifol o'r heddlu i'r CPS yn 2004. Y rheswm dros y newid oedd sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn seiliedig ar y cyhuddiadau priodol a galluogi erlynwyr i roi gwybod i'r heddlu pa dystiolaeth neu wybodaeth bellach sydd ei hangen er mwyn sicrhau gobaith realistig o gollfarn. Disgwyliwyd y byddai mwy o achosion yn cael eu cwblhau yn llwyddiannus ac y byddai llai o achosion yn cael eu dirwyn i ben yn ystod y broses.

3.2 Er mwyn galluogi i hyn ddigwydd yn llwyddiannus, mae angen i'r trefniadau gwaith rhwng yr heddlu a'r CPS fod yn effeithlon a chael eu rheoli'n dda. Hynny yw, mae angen i'r heddlu sicrhau eu bod yn cyflwyno pob achos perthnasol i'r erlyniad, wedi'i ategu gan dystiolaeth briodol, fel y gellir gwneud y penderfyniad priodol. Yn ei dro, mae angen i'r erlyniad sicrhau bod erlynwyr â phrofiad addas ar gael pan fo'u hangen er mwyn gwneud penderfyniadau o ansawdd da a rhoi cyngor o ansawdd uchel i'r heddlu. Llywodraethir gweithrediad y cynllun yn genedlaethol gan ddogfen a elwir yn Ganllawiau'r Cyfarwyddwr[3]. Yng Ngwent, ceir diffygion o ran effeithlonrwydd gweithrediad y cynllun ac effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau.

3.3 Nododd yr arolygiad yn 2007 nad oedd Gwent yn llwyddo i wireddu buddiannau disgwyliedig y broses o wneud penderfyniadau cyn-cyhuddo gan fod perfformiad yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Argymhellwyd y dylai rheolwyr weithio gyda phartneriaid yr heddlu i sicrhau y caiff canlyniadau cyhuddo eu dadansoddi'n effeithiol ar lefel strategol ac ar lefel leol. Amlygwyd hefyd mai araf fu'r cynnydd o ran gweithio gyda phartneriaid yr heddlu i wella perfformiad.

3.4 Ers yr arolygiad hwnnw, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu. Yn ystod y misoedd diwethaf, dengys y canlyniadau buddiannau cyhuddo mai Gwent yw'r ardal â'r perfformiad gwaethaf yng Nghymru a Lloegr. Mae cyfraddau dirwyn achosion i ben yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron yn peri pryder sylweddol. Mae angen i'r ardal ymdrin â'r perfformiad hwn ar fyrder.

| | **Targed cenedlaethol 2008-09** | **Perfformiad cenedlaethol 2008-09** | **Perfformiad yr Ardal 2008-09** | **Perfformiad yr Ardalhyd at fis Mehefin 2009** |
|---|---|---|---|---|
| *Achosion yn y llysoedd ynadon* | | | | |
| Cyfradd dirwyn i ben | 13% | 13.1% | 17.6% | 17.3% |
| Cyfradd pledio'n euog | 70% | 74.4% | 70.1% | 70.5% |
| Cyfradd athreulio | 23% | 19.2% | 24.6% | 24.1% |
| *Achosion yn Llys y Goron* | | | | |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11% | 11.7% | 16.3% | 16.8% |
| Cyfradd pledio'n euog | 70% | 72.9% | 68.5% | 68.9% |
| Cyfradd athreulio | 23% | 19.4% | 24.4% | 24.4% |

3 Canllawiau ar gyhuddo i'w cymhwyso gan swyddogion yr heddlu ac erlynwyr y goron.

**Gweithredu'r system gyhuddo**

3.5 Mae'r ardal yn darparu cyngor a phenderfyniadau wyneb yn wyneb yng Ngorsafoedd Heddlu Ystrad Mynach a Chasnewydd rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fel arfer dyrennir dau gyfreithiwr i Gasnewydd. Mae system apwyntiadau ar waith yn ystod y dydd a gaiff ei rheoli gan drefn cymorth gweinyddol yr heddlu a phennir amser ar gyfer achosion annisgwyl yn y ddalfa, y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Mae pob apwyntiad yn para 45 munud er bod hyn yn hyblyg gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achos. Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd cyfreithwyr yn cael eu dyrannu i ddyletswyddau cyhuddo am dri mis, bellach cânt eu hanfon i'r ganolfan gyhuddo am ddiwrnod ar y tro. Er gwaethaf y trefniadau hyn, canfu'r arolygwyr fod nifer sylweddol o benderfyniadau yn cael eu gwneud mewn gwirionedd mewn canolfannau cyhuddo ar ffeiliau papur a gyflwynwyd ymlaen llaw heb fod swyddog yr achos yn bresennol i'w drafod. Mae hyn yn golygu na all yr erlynydd helpu'r swyddog i ddeall materion tystiolaethol yr achos a'r camau gweithredu y gallai fod angen iddo eu cymryd ac mae hefyd yn bwrw amheuon, fel y saif pethau ar hyn o bryd, o ran pa un a oes angen gwirioneddol i erlynydd fod yn bresennol yn un o orsafoedd yr heddlu drwy'r dydd.

3.6 Mae sawl diffyg yn y ffordd y caiff achosion eu cyflwyno i'r CPS. Yn gyntaf, mae nifer o achosion lle y caiff diffynyddion eu cyhuddo gan yr heddlu neu lle y codir gwŷs arnynt am droseddau lle y dylai'r CPS fod wedi awdurdodi cyhuddiadau. Nid yw'r rhain yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr. Dylid nodi achosion o'r fath cyn y gwrandawiad cyntaf a'u hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn pasio prawf llawn y Cod. Dylid dirwyn i ben unrhyw achos nad yw'n cyrraedd y safon dystiolaethol. Dylid cofnodi'r adolygiad hwn a/neu benderfyniadau i ddirwyn achosion i ben yn briodol, cadw cofnod o achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth a chyfeirio achosion yn ôl at uwch swyddogion er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion o gyhuddiadau anghyfreithlon. Nid oedd hyn fel petai'n digwydd.

3.7 Caiff llawer o achosion eu cyfeirio'n rhy gynnar at erlynwyr ac ar hyn o bryd, tua 50% ohonynt sy'n arwain at gyhuddiad. At hynny, mae nifer yr achosion sy'n arwain at ymgynghoriadau lluosog yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sy'n arwain at ddyblygu ac oedi diangen ac yn golygu bod y broses yn aneffeithlon.

3.8 Mae'r ffaith bod yr achosion hyn yn cael eu cyfeirio'n rhy gynnar at gyfreithwyr cyhuddo yn peri syndod gan fod swyddogion adolygu tystiolaeth (ERO) yr heddlu yn cael eu defnyddio i brofi ansawdd ffeiliau'r heddlu a sicrhau bod achosion yn pasio'r prawf trothwy cyn iddynt gael eu cyflwyno i wneud penderfyniad cyhuddo arnynt. Mae'r heddlu yn ymwybodol y bu diffygion yn y system hon a oedd weithiau'n cael ei hesgeuluso gan swyddogion. O ganlyniad, roeddent yn dyrannu adnoddau ychwanegol sylweddol i gynyddu nifer yr ERO yn sylweddol o 1 Hydref 2009. Mae'r lefel uchel o achosion sydd naill ai'n cael eu nodi fel achosion dim gweithredu pellach (NFA) ar y cam cyhuddo, neu'n cael eu dirwyn i ben yn ddiweddarach, yn annerbyniol. Mae angen mynd i'r afael â hyn, nid yn unig drwy ddefnyddio dulliau rheoli perfformiad ar y cyd ond hefyd drwy adborth i wneuthurwyr penderfyniadau ERO.

3.9 Ni chaiff ffeiliau sy'n ymwneud â'r un diffynnydd eu cysylltu'n systemataidd gan yr heddlu gan atal penderfyniadau rhag cael eu gwneud yn seiliedig ar y troseddau yn eu cyfanrwydd. Roedd llawer o'r enghreifftiau a welwyd yn ymwneud â throseddau Llys y Goron difrifol. Mae'r diffyg hwn yn achosi dyblygu, oedi a niwed i'r achosion unigol a all hefyd gael effaith andwyol ar ddioddefwr. Mae problemau yn cynnwys dyblygu rhifau cyfeirnod unigryw (URN; a allai fod yn rhannol o ganlyniad i nifer y troseddwyr ar fechnïaeth sy'n aros i gael eu cyhuddo) yn dod yn gyffredin. Mae hyn hefyd yn arwain at ddryswch wrth nodi a datblygu achosion.

3.10 Yn olaf, ac yn arwyddocaol, nododd ein gwaith archwilio ffeiliau lefel annerbyniol o oedi gan yr heddlu wrth gyflwyno achosion i'r erlyniad. Mewn nifer o'r ffeiliau a archwiliwyd, roedd yr oedi wedi'i achosi gan broses ymchwilio ormodol. Mewn ffeiliau eraill, roedd tystiolaeth o ymgynghoriadau lluosog wedi'u hachosi gan fethiant yr heddlu i gydymffurfio â chynlluniau gweithredu'r erlynydd. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth hefyd i ddangos bod ansawdd y cynlluniau gweithredu a ddarparwyd gan erlynwyr yn wael ac nad oeddent yn rhoi cyfeiriad clir i'r heddlu. O fewn y sampl ffeiliau, yr amser rhwng arestio a chyhuddo ar gyfartaledd mewn achosion llysoedd ynadon oedd 51 diwrnod a 105 diwrnod mewn achosion Llys y Goron. Gwelsom nifer o achosion lle roedd hyd at 12 mis wedi mynd heibio cyn y cafodd penderfyniad cyhuddo ei awdurdodi. Roedd un achos yn 18 mis oed ac nid oedd unrhyw esboniad wedi'i gofnodi am hynny. Mae 'hen' achosion yn anochel yn fwy anodd i'w profi gan fod cof tystion yn dirywio neu am nad ydynt yn awyddus i fod yn rhan o'r broses farnwrol mwyach.

**Ansawdd cyngor a phenderfyniadau**

3.11 Canfu'r arolygiad yn 2007 fod ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn cael ei ystyried yn gyffredinol dda gyda'r Cod yn cael ei gymhwyso'n briodol mewn 97.9% o achosion; nid felly y mae erbyn hyn. Canfuwyd gennym mai dim ond mewn 86.6% (71 allan o 82) o'r achosion perthnasol y cymhwyswyd prawf y Cod yn briodol. O'r rheini lle na chafodd ei gymhwyso'n briodol, ni phasiodd tri achos brawf budd y cyhoedd, sy'n anarferol. Ystyriwyd bod cyhuddiadau amhriodol wedi'u gwneud mewn dau achos arall yn seiliedig ar y prawf trothwy lle roedd tystiolaeth ddigonol ar y ffeil i gymhwyso prawf llawn y Cod. Yn gyffredinol, nid oedd y broses o wneud penderfyniadau cystal yn holl achosion Llys y Goron o gymharu ag achosion llysoedd ynadon. Nodir manylion ym mhenodau 4 a 5.

3.12 Gallai'r penderfyniadau gwael a wneir fod yn rhannol o ganlyniad i bwysau canfyddedig i gyhuddo pan fo gan achos botensial yn hytrach na thystiolaeth gadarn. O ystyried bod rhai achosion yn cael eu cyflwyno i gyfreithwyr fisoedd lawer ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni, mae'n bosibl bod amharodrwydd i achosi oedi pellach drwy awgrymu llinellau ymholi ychwanegol, ond angenrheidiol. Roedd un achos yn y gwaith archwilio ffeiliau yn ymwneud â throsedd yrru ddifrifol a ailgyflwynwyd i'r erlynydd 15 mis ar ôl yr ymgynghoriad cyhuddo cyntaf, lle roedd y cyfreithiwr wedi rhoi cynllun gweithredu i'r heddlu gael tystiolaeth ychwanegol a gwneud ymholiadau pellach. Gwnaed cyhuddiad mewn perthynas â'r achos gyda rhai diffygion yn bresennol o hyd ac o ganlyniad, cafodd yr achos ei ddirwyn i ben ychydig cyn y treial.

3.13 Yn 13.4% o'r achosion, roedd natur y cyhuddiad yn amhriodol. Gwelsom enghreifftiau o dangyhuddo a gorgyhuddo. Roedd achosion lle cafodd diffynyddion eu cyhuddo o droseddau nad oeddent yn llawn adlewyrchu difrifoldeb y troseddu. Mae'n bosibl bod yr ymagwedd ochelgar hon wedi'i llywio gan awydd i sicrhau collfarn ond mae perygl na ellir cosbi graddau llawn yr ymddygiad troseddol yn briodol. Mewn achosion eraill, cafodd y diffynnydd ei orgyhuddo o droseddau diangen, y cafodd rhai ohonynt eu lleihau'n briodol mewn gwrandawiad cynnar. Mae hyn yn annog amgylchedd o daro bargen ynghylch pleon yn hytrach na sicrhau bod y cyhuddiad yn briodol i ddechrau.

3.14 Dylai erlynwyr fod yn rhagweithiol yn ystod y cam o wneud penderfyniadau cyn-cyhuddo gan ychwanegu gwerth drwy nodi mewn cynlluniau gweithredu pa dystiolaeth bellach sydd ei hangen i greu'r achos. Dylent hefyd ymdrin â materion atodol megis anghenion tystion, datgelu deunydd nas defnyddiwyd a chamau gweithredu posibl i adennill asedau. Mae diffyg rhagweithedd o'r fath gan gyfreithwyr yn wendid arwyddocaol yn yr ardal.

3.15 Ar y cyfan, roedd ansawdd y broses o gofnodi tystiolaeth ar y ddogfennaeth gyhuddo (MG3) yn amrywiol ac nid oedd nifer sylweddol o achosion yn cynnwys digon o fanylion am y materion dan sylw.

3.16 Y prif wendidau a nodwyd wrth archwilio ffeiliau oedd ansawdd y cynlluniau gweithredu a'r sylw a roddwyd i faterion atodol. Mae cynlluniau gweithredu yn wan gyda 14 (29.5%) ohonynt yn methu â chyflawni safon briodol. Nid ymdriniwyd â materion atodol mewn ffordd gyson a methodd 23 (32.9%) ohonynt ag ymdrin â materion cyffredin. Ni lwyddir i fanteisio ar gyfleoedd i gyflwyno ceisiadau a fyddai'n atgyfnerthu achos yr erlyniad bob amser. Byddai hyfforddiant ychwanegol ar ddefnyddio cymeriad gwael ac achlust, yn arbennig, o fudd. Ni welwyd llawer o faterion atal ac atafael yn y sampl ond gwelsom dystiolaeth nad oedd rhai cyfreithwyr yn hyderus wrth ymdrin â'r materion atodol hyn. Methodd erlynwyr â rhoi cyfarwyddiadau priodol ar yr MG3 i eiriolwr y llys mewn 42.6% o achosion.

3.17 Amlygwyd y gwendidau uchod yn 2007 ac ni fu unrhyw welliant. Byddai gwell dadansoddiadau a chynlluniau gweithredu yn darparu sail ar gyfer gwaith paratoi mwy effeithlon i'r llys gan eiriolwyr, yn lleihau achosion o ddyblygu gwaith yn ddiangen ac yn darparu trywydd archwilio a gwell dealltwriaeth wrth wneud penderfyniadau.

3.18 Mae ansawdd cyffredinol y broses o wneud penderfyniadau a rhagweithedd yn ystod y cam cyhuddo yn anfoddhaol. Ceir gormod o achosion nad ydynt yn cael y gofal a'r ystyriaeth a ddylai fod yn arferol.

**Cyhuddo mewn perthynas â gwaith achos difrifol**

3.19 Fel arfer ymdrinnir â chyngor cyhuddo mewn perthynas â gwaith achos difrifol y tu allan i'r ganolfan gyhuddo drwy gyflwyno ffeil ysgrifenedig. Roedd rhywfaint o ddiffyg eglurder o ran pa fathau o achosion y dylid eu cyflwyno.

3.20 Mae'r oedi amhriodol gan yr heddlu wrth gyflwyno ffeiliau hefyd yn berthnasol i achosion difrifol. Gwaethygir y sefyllfa gan yr oedi annerbyniol gan y CPS wrth wneud penderfyniadau cyhuddo. Roedd yn amlwg ei bod yn gyffredin i rai mathau o droseddau difrifol (trais a cham-drin plant) fod yn destun oedi hirfaith. Mae achosion fel arfer yn cymryd sawl mis cyn y gwneir penderfyniad cyhuddo yn eu cylch. Yn ogystal, mae'r CPS yn derbyn gormod o achosion gan yr heddlu lle mae'r dystiolaeth mor wan fel y dylai'r heddlu eu nodi'n achosion na ddylid gweithredu ymhellach yn eu cylch; mae hyn yn gwastraffu adnoddau gwerthfawr y CPS. Yn ddiweddar, mae rheolwr wedi ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon drwy ddychwelyd ffeiliau i oruchwylwyr unigol o fewn yr heddlu. Dylid gwneud hyn yn amlach a dylai'r ardal anelu at wella'r broses drwy gynnal trafodaethau perfformiad ar y cyd. Unwaith y ceir gwared ar waith amhriodol, rhaid i'r ardal sicrhau y caiff yr amserlenni ar gyfer rhoi cyngor eu lleihau'n sylweddol.

3.21 Roedd y ffeiliau a archwiliwyd gennym yn cynnwys pedwar achos lle cafwyd marwolaethau ar y ffordd. Mewn dau o'r achosion, ni chynhaliwyd dadansoddiad effeithiol o'r achos yn ystod y cam cyhuddo ac ni ystyriwyd y tactegau y byddai eu hangen mewn unrhyw dreial posibl. Ni chynigiwyd cyfarfod â theulu'r ymadawedig i esbonio'r rhesymeg dros y penderfyniad cyhuddo mewn unrhyw un o'r pedwar achos; ni chydymffurfiwyd â pholisi cenedlaethol y CPS ar gyfer ymdrin ag achosion o'r fath ychwaith. Mewn un o'r achosion, ni nodwyd y cyngor ar y system rheoli achosion (CMS).

3.22 Amlinellir canfyddiadau mwy penodol ar ansawdd gwaith achos sensitif ac arbenigol ym mhennod 7.

**Rheoli perfformiad a gweithio mewn partneriaeth**

3.23 Ymdrinnir â'r diffyg rheolaeth dros berfformiad mewnol yn fanwl ym mhennod 11. Mae angen i'r ardal sicrhau ei bod yn gwneud newidiadau ar unwaith er mwyn gwella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau y caiff y broses o ddadansoddi achosion ei chwblhau hyd at safon uwch. Rhaid rhoi adborth i unigolion er mwyn sicrhau bod y negeseuon a gaiff eu cyfleu wedi'u deall yn llawn. Er mwyn cyflawni'r newid hwn bydd angen creu diwylliant rheoli perfformiad sy'n nodi gwendidau ac yn mynd i'r afael â hwy cyn gynted â phosibl. Yn yr un modd, fel rhan o'r newid hwn, rhaid creu partneriaeth effeithiol gyda'r heddlu.

3.24 Mae angen newid y defnydd a wneir o gyfarfodydd rheoli perfformiad y tîm erlyn er mwyn ymdrin â pherfformiad gwael yn y ddwy asiantaeth. Er bod cyfarfodydd wedi'u hategu gan adroddiadau perfformiad manwl, nid oes unrhyw ddadansoddiad i amlygu'r materion allweddol yn ystod y mis perthnasol. Mae'r ddogfennaeth yn gynhwysfawr ond yn rhy fanwl i fod yn effeithiol. Yn ddiweddar, canolbwyntiodd y drafodaeth ar nodi'r problemau sy'n codi dro ar ôl tro a'r broses o fwrw bai yn hytrach na gweithio mewn partneriaeth i ddod o hyd i atebion i achosion unigol a allai arwain at welliant o ran perfformiad ymchwilio, ansawdd ffeiliau ac amseroldeb. Byddai dogfen gryno fyrrach yn ddefnyddiol er mwyn hysbysu cynulleidfa ehangach o unigolion allweddol sy'n ymwneud â'r broses gyhuddo. Mae'n bosibl y byddai cyswllt unigol agosach rhwng rheolwyr yn y CPS a'r heddlu ar lefel lai strategol i ymdrin â methiannau gwaith achos penodol yn fwy effeithiol wrth gyflwyno gwelliannau hirdymor. Mae angen creu ethos tîm erlyn er mwyn darparu gwell gwasanaeth i bobl Gwent.

**ARGYMHELLIAD**

Dylai'r ardal weithio gyda phartneriaid yn yr heddlu i sicrhau y caiff cyngor cyn-cyhuddo ei roi ac y caiff penderfyniadau cyn-cyhuddo eu gwneud yn gywir ac yn effeithlon, ar yr achosion priodol, yn unol â Chanllawiau'r Cyfarwyddwr. Mae angen rhoi trefniadau ar waith ar gyfer gwaith monitro effeithiol ar y cyd.

Dylid ailhyfforddi erlynwyr mewn perthynas â'u cyfrifoldebau cyhuddo a'u rheoli'n weithredol er mwyn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn gwella a'u bod yn rhagweithiol o ran eu gwaith dadansoddi achosion ac o ran y cyngor a roddir ganddynt i'r heddlu.

| 4 GWNEUD PENDERFYNIADAU, PARATOI A DATBLYGU MEWN ACHOSION YN Y LLYSOEDD YNADON | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

4.1 Mae'r materion a drafodwyd yn y bennod flaenorol o ran ffeiliau o ansawdd gwael, amseroldeb a phenderfyniadau anghyson yn parhau i effeithio ar achosion wrth iddynt fynd ar eu hynt hyd at wrandawiad yn y llys ynadon. Mae diffyg gwaith partneriaeth a bodolaeth diwylliant o fwrw bai hefyd yn ffactor allweddol sy'n atal canlyniadau llwyddiannus.

**Canlyniadau yn y llysoedd ynadon**

4.2 Yn ystod y flwyddyn 2008-09, y gyfradd gollfarnu gyffredinol oedd 86.7% yn erbyn cyfartaledd cenedlaethol o 87.3%. Gwelwyd gwelliant bach yn ystod chwarter cyntaf 2009-10 gyda nifer yr achosion lle na chafwyd cyhuddiad yn gyson â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd nifer yr achosion lle y cafwyd cyhuddiad yn parhau'n bryder gyda chyfradd gollfarnu o 73.1% o gymharu â'r ffigur cenedlaethol, sef 79.9%.

4.3 Yn ogystal, ceir cyfran uchel o achosion a gaiff eu dirwyn i ben yn y llysoedd ynadon gyda chyfradd o 10.1% yn ystod y flwyddyn 2008-09 o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 8.7%. Mae perfformiad yn arbennig o wan o ran achosion lle y cafwyd cyhuddiad lle gwelwyd cyfradd dirwyn i ben o 17.5%, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 13.8% (am dabl llawn o'r canlyniadau yn y llysoedd ynadon gweler atodiad A).

**Ansawdd penderfyniadau mewn achosion ac adolygu parhaus**

4.4 Erys ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn amrywiol. Mewn achosion yn y llysoedd ynadon, yn ystod y cam cyn-cyhuddo, cymhwyswyd y prawf trothwy yn briodol mewn tri allan o bedwar achos a chymhwyswyd prawf llawn y Cod yn briodol mewn 45 allan o 49 o achosion (91.8%). Er bod ansawdd penderfyniadau cyhuddo yn well mewn achosion llysoedd ynadon o gymharu â gwaith achos Llys y Goron, mae angen gwella'r ansawdd hwnnw.

4.5 Roedd y penderfyniadau a wnaed mewn adolygiadau o dreialon diannod yn cydymffurfio â'r Cod ymhob un o'r 33 o achosion perthnasol er na chofnodwyd y penderfyniad mewn un ffeil arall. Aeth 97% o achosion i dreial neu cafwyd ple euog ar y lefel gywir o gyhuddiad. Dim ond mewn 34 allan o 43 o achosion perthnasol (79.1%) y cymeradwywyd adolygiadau ffeil llawn ac nid oedd y rheini y cynhaliwyd adolygiad ohonynt bob amser yn cael eu cwblhau ar y system rheoli achosion.

**Paratoi a datblygu achosion**

4.6 Mae'r ardal yn ddarostyngedig i Ganllawiau'r Cyfarwyddwr ar y Broses Symlach[4] sydd wedi'u cynllunio i sicrhau dull gweithredu cymesur, fesul cam o baratoi achosion y mae'n rhaid eu cyfeirio at erlynydd i gael penderfyniad cyhuddo. Nid yw'r cynllun yn gweithredu'n foddhaol eto ac ar adeg yr arolygiad, nid oedd y broses o'i weithredu wedi cael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan dîm cenedlaethol CPS/yr heddlu. Bydd angen i'r ardal ymgysylltu ag asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod digon o amser rhwng y dyddiad cyhuddo a'r gwrandawiad cyntaf i ffeil fach gael ei llunio sy'n dal yn ddigonol i alluogi i adolygiad effeithiol gael ei gynnal. Rhaid i'r ardal sicrhau na fydd ffeiliau yn cyrraedd y gwrandawiad cyntaf gyda phapurau ar goll, sydd wedi

4 Canllawiau sy'n berthnasol i achosion y gall yr heddlu ddwyn cyhuddiadau yn eu cylch, heb eu cyfeirio at erlynydd y goron ac ar gyfer dull gweithredu cymesur, fesul cam o baratoi achosion y mae'n rhaid eu cyfeirio at erlynydd i gael penderfyniad cyhuddo.

arwain at achosion yn cael eu gwrthod oherwydd diffyg erlyniad. Ers yr arolygiad, mae'r broses symlach wedi cael ei chymeradwyo fel proses effeithiol. Caiff y trefniadau eu hadolygu gan arolygwyr yn ystod arolygiad dilynol.

4.7 O ganlyniad i weithredu'r model busnes gorau (OBM), caiff y gwaith o baratoi achosion bellach ei gynnal gan ddefnyddio system 'pod' y dyrennir cyfreithwyr iddi yn ddyddiol. Cynlluniwyd y model i sicrhau y caiff ffeiliau eu paratoi'n briodol ar gyfer y llys gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd, y caiff adolygiadau eu cwblhau, y cydymffurfir â chyfarwyddiadau ac y caiff gohebiaeth ei hateb yn effeithlon ac yn brydlon. Mae'r ardal wedi sefydlu gweithdrefn sy'n sylfaenol gadarn ar yr amod bod digon o staff gan yr uned a bod ffeiliau o ansawdd priodol yn cael eu darparu gan yr heddlu o fewn terfynau amser priodol. Fodd bynnag, nid yw'r system mor effeithiol ag y dylai fod am nifer o resymau.

4.8 Caiff ffeiliau treial cyntaf eu derbyn yn hwyr; mae ffigurau ar gyfer yr ardal yn awgrymu bod hyn yn digwydd, ar gyfartaledd, mewn 68% o achosion. Mae llawer o ffeiliau hefyd yn anghyflawn a bernir mai dim ond 27% ohonynt sy'n barod ar gyfer treial, er bod yr heddlu yn anghytuno â'r ffigurau hyn. Dewiswyd sampl ar hap o ddeg ffeil gennym a gwelsom fod 50% wedi'u derbyn yn hwyr ac mai dim ond 30% oedd yn barod ar gyfer treial. Ymdrinnir â cheisiadau dilynol am dystiolaeth ychwanegol mewn ffordd dameidiog gan yr erlyniad. Er bod yr heddlu a swyddogion datblygu achos y CPS wedi'u lleoli yn yr un adeilad, prin yw'r cyswllt wyneb yn wyneb rhyngddynt ac felly ni fanteisir ar werth y cyd-leoliad.

4.9 Lle na cheir ffeil gyflawn, amserol, mae cyfrifoldebau cyfreithwyr wedi'u canolbwyntio ar gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys ac, os bydd adnoddau yn caniatáu hynny, cynnal adolygiadau o ffeiliau. Gan fod gwybodaeth yn dod i law mewn ffordd dameidiog, yn aml caiff adolygiadau llawn eu cynnal ar y funud olaf neu heb ddogfennau allweddol. Oherwydd y diffygion hyn, mae'n gyffredin i achosion gael eu dirwyn i ben yn hwyr, a hynny ar ôl dyblygu gwaith a gwneud gwaith diangen.

4.10 Er gwaethaf y ffaith bod cyfreithwyr penodol ar gael i baratoi achosion, dim ond yn hanner y 32 o achosion perthnasol y cwblhawyd cyfarwyddiadau rhwng y gwrandawiad cyntaf a'r treial yn brydlon a dim ond yn naw o'r 19 o achosion perthnasol y gwnaed ac y cyflwynwyd ceisiadau yn unol â'r terfynau amser statudol. Roedd gwendidau tebyg yn amlwg a chyflwynwyd adroddiad arnynt adeg yr arolygiad diwethaf. Dangosodd gwaith archwilio ffeiliau mai dim ond mewn 30.6% o achosion y gwelwyd gwaith rheoli achos da a rhagweithiol, mewn 59.2% barnwyd ei fod yn weddol ac mewn 10.2% roedd arolygwyr o'r farn ei fod o safon wael. Dim ond mewn 65% o achosion (34 allan o 52) y cwblhawyd gwaith paratoi yn brydlon.

4.11 Mae llawer o ffeiliau yn cyrraedd drwy wŷs; mae nifer ohonynt wedi osgoi'r broses cyn-cyhuddo ac felly heb fod yn destun archwiliad cynnar gan erlynydd. Lle cyflwynir ple dieuog, ni chaiff y ffeiliau hyn eu hadolygu hyd nes y bydd ffeil treial wedi'i pharatoi gan yr heddlu ac wedi'i chyflwyno i'r CPS. Os bydd y diffynnydd wedi dewis treial am drosedd neillffordd ar ffeil wŷs, ni chynhelir adolygiad hyd nes y bydd y ffeil draddodi lawn wedi'i darparu. Nid ymdrinnir â'r achosion hyn yn y pod ond fe'u dyrennir i gyfreithwyr eraill, os bydd cyfreithwyr eraill ar gael. Trafodir diffyg cyfreithwyr a'i effaith ar baratoi achosion Llys y Goron gennym ym mhennod 5. Os caiff yr achos ei ddirwyn i ben wedi hynny, ni fydd yn amserol, bydd gwaith diangen wedi cael ei wneud gan yr heddlu a bydd disgwyliadau dioddefwyr a thystion wedi'u codi.

4.12 Mewn sawl achos, nid yw manylion tystion ar gael ar y ffeil neu nis cofnodwyd yn briodol yn ystod y gwrandawiad cyntaf, ac o ganlyniad caiff treialon eu trefnu ar gyfer dyddiad penodedig heb wybod bod pob tyst ar gael. Gall hyn achosi oedi o ran datblygu'r achos ac anawsterau dilynol i ddioddefwyr a thystion.

4.13 Ymdriniwyd â gohebiaeth yn foddhaol yn y rhan fwyaf o achosion ond roedd amseroldeb yn wael mewn pedwar achos (9.5%) ac mewn saith achos (15.2%) nid arnodwyd cyfathrebiadau ar y ffeil. Ni chafwyd datganiadau o'r effaith ar y dioddefwr mewn naw allan o ddeg o'r achosion perthnasol; cwblheir y dasg hon gan yr heddlu ond dylai'r CPS sicrhau bod y ddogfen hon ar gael i'r llys.

4.14 Ni chaiff llawer o ffeiliau eu harnodi'n ddigonol a chaiff penderfyniadau eu gwneud a chamau eu cymryd sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r cyfreithiwr nesaf sy'n ymdrin â'r achos ddilyn yr hyn sydd wedi digwydd a deall hynt yr achos. Mae diffyg trywydd archwilio llawn yn codi pryderon sylweddol o ran y risg i uniondeb proses yr OBM. Er bod y broblem hon yn un genedlaethol, mae'n peri pryder arbennig yng Ngwent. Codwyd y ffaith bod cofnodion gwael yn cael eu cadw fel pryder yn adroddiad 2007 ac nid ydym wedi gweld unrhyw arwydd o welliant.

4.15 Noda paragraff 3.10 yr oedi yn y cyfnod rhwng arestio hyd at gyhuddo. Wedi hynny, ymdrinnir â'r achos yn gyflymach - yn y sampl ffeiliau, cyfartaledd y cyfnod rhwng arestio hyd at y gwrandawiad cyntaf oedd 65 diwrnod a chyfartaledd y cyfnod rhwng arestio hyd at dreial oedd 122 diwrnod. Fodd bynnag, yn aml mae'r angen i ruthro achosion er mwyn dod i gasgliad cyflym ar draul gwaith priodol i baratoi achosion a gofal priodol i ddioddefwyr a thystion.

4.16 Mae nifer y gwrandawiadau fesul achos yn drawiadol o isel ar yr amod nad yw hyn yn effeithio ar degwch i'r partïon. Ar gyfartaledd, dim ond dau wrandawiad a geir fesul ple euog ac ar gyfer achosion a ymleddir, mae'r nifer yn codi i 3.3 gwrandawiad, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 4.2. Fodd bynnag, ceir pryder nad yw'r CPS, o bryd i'w gilydd, yn gwneud cais i ohirio achos lle y byddai cais o'r fath wedi bod yn briodol gan ei fod yn credu y câi'r cais ei wrthod. Gwelsom achosion lle nad oedd y llysoedd yn gefnogol i geisiadau i ohirio achosion hyd yn oed lle roedd yr erlyniad yn ceisio osgoi presenoldeb diangen tystion sifil. Yn ogystal â chyfrannu at y nifer uchel o achosion a gaiff eu dirwyn i ben, mae hyn hefyd yn bwrw amheuon o ran pa un a yw dioddefwyr yn cael cyfiawnder ymhob achos. Yn ein barn ni, ni ddylid cymryd yn ganiataol bod y ffigurau cyfartalog ar gyfer gwrandawiadau o reidrwydd yn cynrychioli perfformiad da. Ni chaiff cyfarfodydd datblygu achos, sy'n cynnwys y llysoedd, eu cynnal mwyach gan nad ystyriwyd eu bod yn ychwanegu gwerth.

**Achosion anffafriol**

4.17 Archwiliwyd 17 o achosion gennym a oedd wedi cael eu dirwyn i ben ac roeddem yn anghytuno â'r penderfyniad i ddirwyn dau achos i ben yn unol â phrawf y Cod. Fodd bynnag, mewn pedwar achos nid oedd unrhyw newid perthnasol o ran cryfder y dystiolaeth na budd y cyhoedd wedi digwydd ers y penderfyniad cyn-cyhuddo, sy'n adlewyrchu diffygion o ran ansawdd penderfyniadau cyhuddo, y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.11. Lle y caiff achos ei ddirwyn i ben, anaml y gwneir y penderfyniad gan y cyfreithiwr a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol i gyhuddo, ac ni chyfeirir y mater yn ôl at y cyfreithiwr hwnnw ychwaith a dim ond mewn dau o'r 14 o achosion perthnasol yn y sampl ffeiliau y cyfeiriwyd yr achos yn ôl. Mewn tri achos, nid oedd y penderfyniad i ddirwyn yr achos i ben yn amserol ac mewn nifer debyg, gellid bod wedi osgoi'r canlyniad drwy baratoi'r achos yn well.

4.18 Ymgynghorwyd â'r heddlu ar y penderfyniad i ddirwyn yr achos i ben mewn 10 allan o 15 o achosion perthnasol ond lle y gwnaed hyn, fel arfer nid oedd digon o amser iddynt ddarparu ymateb effeithiol. Dim ond mewn dau o'r 17 o achosion a archwiliwyd y cafwyd adroddiad canlyniad anffafriol mewn perthynas â'r safon ofynnol. Yn gyffredinol, ni roddir digon o sylw i ddysgu gwersi o waith achos sydd wedi methu. Dylai rhoi adborth i'r cyfreithiwr a benderfynodd ar y cyhuddiad gwreiddiol ac ERO yr heddlu fod yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y gellir gwella ansawdd gwaith achos.

**Treialon effeithiol, treialon aneffeithiol a threialon chwâl**

4.19 Rhennir y targed i leihau treialon aneffeithiol ag asiantaethau partner. Roedd y gyfradd treialon aneffeithiol ar gyfer 2008-09, sef 23.5%, yn sylweddol waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18.6%, ond roedd perfformiad y sampl o ffeiliau yn sylweddol well gyda dim ond pump achos o'r 41 o achosion perthnasol (12.2%) yn destun treial aneffeithiol.

4.20 Mae gan Went gyfradd treialon chwâl uchel iawn, sef 40.9%, wedi'i hachosi gan bleon euog yn cael eu cyflwyno'n hwyr ac nid yw'r asiantaethau wedi cydweithio i nodi'r achosion am hynny ac ymdrin â diffygion. Mae pleon euog a gaiff eu cyflwyno'n hwyr yn cael effaith anffafriol ar faint o waith sydd ei angen i gwblhau achosion lle mae cyfaddefiadau yn debygol. Mae'n bosibl bod diwylliant o weithio ar achosion hyd at ddiwrnod y treial wedi datblygu yn sgîl gwaith paratoi ffeiliau gwael gyda thebygolrwydd y câi achos ei ddirwyn i ben o ganlyniad i hynny. Nododd ein hasesiad o'r sampl ffeiliau fod gwybodaeth a geir ymlaen llaw yn aml yn annigonol a gwelsom hefyd nad oes digon o amser weithiau i gyfreithwyr yr amddiffyniad gymryd cyfarwyddiadau angenrheidiol. Mae'n bosibl hefyd bod problemau o ran aros i weld a gaiff tystion rybudd priodol ac a fyddant yn mynychu mewn gwirionedd.

4.21 Wrth arsylwi, nodwyd gennym nad oedd diffynyddion bob amser yn cael eu hysbysu gan y llysoedd o'r credyd sydd ar gael am gyflwyno ple euog yn gynnar. Yn y gwaith archwilio ffeiliau, plediodd chwe diffynnydd yn euog ar ddiwrnod y treial i'r cyhuddiadau gwreiddiol ac ymhob un o'r achosion hyn, ni chynigiwyd pleon yn gynharach.

**Defnyddio'r system rheoli achosion - Compass CMS**

4.22 Datgelodd y gwaith archwilio ffeiliau fethiant sylweddol i gofnodi canlyniadau'n gywir. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i waith arnodi ffeiliau annigonol ac aneglur gan eiriolwr y llys. Daethpwyd â bron i 16% o achosion i ben yn anghywir; mae angen ymdrin â hyn. I'r gwrthwyneb, aseswyd bod y defnydd o CMS yn dda mewn 23 o achosion (44.2%) ac yn weddol yn y 29 o achosion a oedd yn weddill (55.8%).

---

**ARGYMHELLIAD**

Dylai'r ardal ymdrin â'r trefniadau ar gyfer y llif gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r CPS fel mater o frys, drwy drafodaeth agored ac adeiladol.

Dylid archwilio'r broses o weithredu'r model busnes gorau er mwyn sicrhau bod y tasgau a'r gwaith paratoi angenrheidiol ar gyfer treialon yn cael eu cynnal mewn da bryd.

Dylid adfer y drefn o gynnal cyfarfodydd datblygu achosion gyda'r llys.

---

| 5 GWNEUD PENDERFYNIADAU, PARATOI A DATBLYGU MEWN ACHOSION LLYS Y GORON | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

5.1 Ers OPA 2007, mae Gwent wedi ailstrwythuro i ddwy uned gyfun sy'n ymdrin â gwaith y llysoedd ynadon a Llys y Goron. Mae hyn, yn ogystal â'r ffaith bod strategaeth eiriolaeth y CPS wedi'i rhoi ar waith yn lleol (lle y caiff cyfran llawer uwch o achosion Llys y Goron eu herlyn gan eiriolwyr mewnol y goron yn hytrach na chwnsleriaid), wedi dileu'r ffocws ar waith achos Llys y Goron, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn ansawdd y gwaith o baratoi'r achosion hyn a chynnydd yn y gyfran o achosion sy'n aflwyddiannus. Hefyd, bu newid sylfaenol yn y cydberthnasau â phartneriaid.

**Ansawdd penderfyniadau mewn achosion ac adolygu parhaus**

5.2 Ar y cyfan, nid yw perfformiad mewn perthynas â chymhwyso'r Cod drwy oes achos Llys y Goron yn gadarn ar unrhyw gam ac mae angen proses gadarnach ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf ac yn ystod y broses adolygu barhaus. Mewn rhai achosion, mae angen rhoi ystyriaeth llawer gwell i'r tactegau sydd eu hangen i'w cyflwyno'n effeithiol yn y llys ac arfarniad realistig o'r camau gweithredu sydd eu hangen i ymdrin â gwendidau yn y dystiolaeth. Datgelodd y gwaith archwilio ffeiliau ddiffyg parhad cyfreithiwr yn yr achosion mwyaf difrifol gan gynnwys dau achos lle y bu marwolaeth.

5.3 Daeth i'r amlwg mewn nifer o ffeiliau bod oedi sylweddol rhwng arestio a'r penderfyniad i gyhuddo. Yn y sampl ffeiliau o achosion Llys y Goron, cyfartaledd y cyfnod rhwng arestio a'r penderfyniad i gyhuddo oedd 105 diwrnod, ac nid bai'r CPS oedd hyn bob tro gan nad oedd yn aml yn ymwybodol o'r achos. Mae angen i gyfreithwyr gofnodi'n ddigonol y rhesymau dros yr oedi; roedd yr amddifyniad wedi cyfeirio'n aml at y mater o gamddefnyddio prosesau o ganlyniad i oedi ac o bryd i'w gilydd, roedd bygwth codi dadl o'r fath yn ddigon i wneud i achos gael ei ddirwyn i ben. Ceir cryn gyfnod o amser hefyd cyn y caiff achos ei gwblhau. O fewn y sampl, cyfartaledd y cyfnod rhwng arestio hyd at y gwrandawiad cyntaf oedd 133 diwrnod a 340 diwrnod rhwng arestio hyd at dreial. Mae oedi yn anochel yn arafu gwaith yr erlyniad ac yn aml yn arwain at ganlyniad aflwyddiannus. Mae oedi hefyd yn cael effaith andwyol ar ddioddefwyr a thystion, y bydd rhai ohonynt yn ymwahanu o'r broses cyfiawnder troseddol.

5.4 Mae perfformiad cyffredinol o ran ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn achosion Llys y Goron yn waeth na llawer o'r meysydd eraill a arolygwyd. Mae ansawdd y broses o wneud penderfyniadau cyn-cyhuddo yn wan mewn achosion Llys y Goron, gyda phrawf llawn y Cod ond yn cael ei gymhwyso'n briodol mewn 30 allan o 34 o achosion (88.2%). Wrth i achosion fynd rhagddynt, roedd y penderfyniad naill ai yn ystod y cam traddodi neu adeg cyflwyno achos yr erlyniad yn cydymffurfio â'r Cod mewn 33 allan o 37 o achosion (89.2%). Cymeradwywyd adolygiadau llawn o ffeiliau mewn 35 allan o 38 o achosion perthnasol (92.1%) a oedd yn well na'r ganran ar gyfer ffeiliau llysoedd ynadon (79.1%).

5.5 Hyd yn oed lle bo'r penderfyniad i erlyn yn briodol, ni chaiff y cyhuddiadau mwyaf priodol bob amser eu dewis. Yn nifer o'r achosion Llys y Goron a archwiliwyd, nid ystyriwyd y byddai cyhuddiadau eraill yn fwy buddiol o ran tactegau ymdrin â'r achos hwnnw. Roedd y cyhuddiadau a ddewiswyd adeg traddodi yn briodol mewn 29 allan o 34 o achosion perthnasol (85.3%) a dim ond mewn 31 allan o 37 o achosion perthnasol (83.8%) yr aeth yr achosion ymlaen i dreial yn Llys y Goron ar sail y cyhuddiadau mwyaf priodol. Roedd dau achos lle y derbyniwyd pleon ac roedd y sail dros eu derbyn yn briodol ac yn realistig yn y ddau.

5.6 Dim ond yn ddiweddar y mae'r ardal wedi sefydlu protocol ar gyfer cyfeirio achosion i uned gwaith achos cymhleth (CCU) Grŵp Cymru. Anfonwyd drafft gan bennaeth y CCU at Brif Erlynwyr y Goron (CCP) y grŵp i ymgynghori arno gyda'r heddlu yn ystod 2008; ni lofnodwyd y drafft hwn yng Ngwent hyd adeg yr arolygiad ym mis Medi 2009. Caiff achosion o fewn y cylch gwaith y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer unedau gwaith achos cymhleth eu nodi a'u cyfeirio'n uniongyrchol gan unedau arbenigol yr heddlu; fodd bynnag, caiff y broses o gyfeirio achosion ei chyflawni yn ôl disgresiwn a lle y mae'r CCP yn gweithredu fel y 'porth' i'r uned, nid yw achosion bob amser wedi cael eu cyfeirio i'r CCU nac i'r is-adrannau gwaith achos arbenigol ym Mhencadlys y CPS.

5.7 Gwelsom enghreifftiau lle roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn rhan o'r erlyniad a lle yr arhosodd yr achos yn yr ardal ac nis trafodwyd gyda'r CCU o gwbl. Cafwyd enghreifftiau hefyd lle y cyfeiriwyd yr achos yn rhy hwyr i'r CCU ei dderbyn er y gellid bod wedi ei hysbysu o'r achos yn gynharach. Mae cyfreithiwr gwaith achos arbennig o Went wedi'i leoli yn yr uned a ddylai hwyluso'r gydberthynas. Mae angen defnyddio'r protocol a lofnodwyd yn ddiweddar fel llwyfan i sicrhau y caiff pob achos priodol ei gyfeirio i'r CCU mewn ffordd amserol a bod y porth bellach yn effeithiol.

**Canlyniadau yn Llys y Goron**

5.8 Yn 2008-09, y gyfradd gollfarnu gyffredinol yn Llys y Goron oedd 76.2% a oedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn cynrychioli gostyngiad ers yr OPA. Roedd cyfradd yr achosion a gafodd eu dirwyn i ben, sef 15.8%, yn arbennig o wael. Mae perfformiad wedi parhau'n gymharol sefydlog yn 2009-10 gyda chyfradd gollfarnu o 76.9% yn ystod y chwarter cyntaf.

5.9 Mae perfformiad CPS Gwent yn sylweddol is na'r tair ardal arall yng Ngrŵp Cymru. Mae'r ardal yn ychwanegu at y perfformiad gwael hwn drwy gwblhau achosion yn anghywir - canfuwyd enghraifft gennym o achos a oedd wedi'i gwblhau'n anghywir fel traddodiant rhyddhau ac a barhaodd felly er gwaethaf y ffaith bod rheolwr wedi bwrw golwg arno.

**Achosion anffafriol: rhyddfarnau dan orchymyn barnwr a rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr**

5.10 Roedd yn amlwg o'r ffeiliau a archwiliwyd bod rhai achosion wedi cael eu dirwyn i ben yn briodol ond o dan amgylchiadau lle na ddylid bod wedi dwyn cyhuddiad yn y lle cyntaf. Yn yr un modd, roedd achosion wedi cael eu dirwyn i ben yn amhriodol lle na fu unrhyw newid perthnasol. Roeddem yn anghytuno â'r penderfyniad i ddirwyn achos i ben yn unol â phrawf llawn y Cod mewn tri allan o ddeg achos.

5.11 Archwiliwyd deg achos lle y cafwyd rhyddfarn dan orchymyn barnwr. Allan o'r wyth achos perthnasol, dim ond mewn tri ohonynt y bu newid perthnasol yng nghryfder y dystiolaeth neu fudd y cyhoedd ers y penderfyniad cyn-cyhuddo. Mewn pump (62.5%) achos, nid oedd y penderfyniad i ddirwyn yr achos i ben yn amserol ac mewn dau (25%) achos, gellid bod wedi osgoi'r canlyniad drwy baratoi'r achos yn well. Mewn trydydd achos, ni fu'n bosibl dweud gan nad oedd arnodiadau digonol ar y ffeil.

5.12 Archwiliwyd tri achos gennym lle y cafwyd rhyddfarn dan gyfarwyddyd barnwr ac mewn dau o'r achosion, gellid bod wedi rhagweld y canlyniad yn rhesymol ar ddechrau'r treial. Mewn dau ohonynt, gellid bod wedi osgoi'r sefyllfa drwy baratoi'r achos yn well ac yn yr un a oedd yn weddill, drwy ei ddirwyn i ben yn gynharach.

5.13 Ni lunnir adroddiadau ar ganlyniadau anffafriol fel mater o drefn a lle y cânt eu llunio, mae'r ansawdd yn wael iawn. O'r 13 o achosion perthnasol, mewn wyth ohonynt, nid oedd unrhyw adroddiad gyda phapurau'r achos nac ar CMS ac nid oedd y pump adroddiad a luniwyd yn bodloni'r safon ofynnol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y cafodd pwyntiau dysgu eu nodi a'u rhannu a phrin iawn yw'r dystiolaeth bod materion a nodwyd gan yr eiriolwr erlyn ar ôl y cyhuddiad, neu ar unrhyw adeg yn ystod oes yr achos, yn cael eu rhannu na'u defnyddio i ysgogi gwelliant. Ni nodir llawer o'r materion lle y gellir dysgu gwersi. At hynny, ni chynhelir adolygiadau ar ôl y llys mewn perthynas ag achosion difrifol hyd yn oed lle y mae gwersi i'w dysgu wedi'u nodi gan farnwr y treial.

**Paratoi a datblygu achosion**

5.14 Mae gwaith achos Llys y Goron wedi dioddef o ganlyniad i'r ailstrwythuro i unedau cyfun ac mae'n amlwg na roddwyd blaenoriaeth iddo. Er bod rhai systemau a phrosesau gweinyddol cadarn ar waith i ddatblygu'r achosion hyn, caiff effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu llesteirio'n sylweddol o ganlyniad i'r ffaith bod ffeiliau'r heddlu yn hwyr ac o ansawdd gwael. Roedd ansawdd y ffeiliau o ran pa un a oeddent yn barod ar gyfer treial yn amrywio rhwng 20% a 33% rhwng mis Ebrill a mis Awst 2009 ac roedd amseroldeb yn amrywio o 12% i 31%. Fodd bynnag, caiff y gwaith dilynol o baratoi achosion ei lesteirio gan y ffaith nad oes cyfreithwyr ar gael i adolygu ffeiliau a pharatoi'r pecynnau traddodi unwaith y derbynnir ffeil. Ar adegau, mae tîm Llys y Goron yn colli cyfreithwyr sydd wrthi'n paratoi achosion i'r llysoedd ynadon sy'n cymryd blaenoriaeth, neu sy'n cyflwyno achosion yn Llys y Goron. Roedd y risg hon yn hysbys lle cafodd gwaith paratoi achosion ei aberthu wrth gyflwyno'r strategaeth eiriolaeth yn lleol.

5.15 Mae anallu'r ardal i adolygu a pharatoi achosion yn gyflym wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o ryddhau adeg traddodi. Roedd y gyfradd o 2.0% yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol o 1.8% yn ystod 2008-09 ac mae wedi gwaethygu fwy byth yn ystod chwarter cyntaf 2009-10 i 3.4%, o gymharu â'r gyfradd genedlaethol o 1.9%. Gwaethygir y lefel perfformiad hon gan y ffaith bod ffeiliau yn cael eu cwblhau'n anghywir ac arfer gwael. Rhyddhawyd un achos a'i adfer ddwywaith, er nad oedd ffeil lawn wedi'i derbyn adeg y broses adfer gyntaf. Yn ystod ymarfer i bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad er mwyn cymhwyso'r OBM wrth baratoi achosion ar gyfer Llys y Goron, nodwyd bod ffeiliau hwyr gan yr heddlu, proses adolygu hwyr a'r ffaith bod papurau yn cael eu cyflwyno'n hwyr yn faterion yr oedd angen ymdrin â hwy. Dyma'r sefyllfa o hyd.

5.16 Ceir diffyg rhagweithedd ar achosion a chaniateir iddynt 'ddrifftio' er gwaethaf y ffaith bod y llys yn rhoi cyfarwyddiadau a bod swyddogaethau datblygu achos wedi cael eu cyflawni. Yn y sampl ffeiliau, dim ond 43.6% o achosion (17 allan o 39) a gafodd eu paratoi'n amserol. Canfuwyd bod lefel rheolaeth ragweithiol dda mewn 25.6% o achosion, lefel weddol mewn 58.4% a lefel wael mewn 20.5%.

5.17 Nid yw'r farnwriaeth yn hyderus y cyflawnir unrhyw gam gweithredu heb gyfarwyddyd yn gorchymyn y dylid ei gwblhau. O'r cyfarwyddiadau a gaiff eu gorchymyn, ni chwblheir eu hanner yn brydlon ac ni chwblheir nifer sylweddol ohonynt o gwbl. Caiff diffygion sy'n deillio o benderfyniadau a wnaed yn gynharach eu gwaethygu gan waith paratoi achosion gwael, sy'n anochel yn golygu nad ymdrinnir â'r diffygion hynny ac na chânt eu cywiro. Cymerwyd pob cam i ddatblygu'r achos yn ystod y gwrandawiad ple a rheoli achos (PCMH) mewn 79.5% o achosion (31 allan o 39) er mai dim ond mewn 56.8% ohonynt y cydymffurfiwyd mewn ffordd amserol. Gwnaed pob cais angenrheidiol yn unol â therfynau amser statudol mewn 55.2% o achosion (16 o'r 29 o achosion perthnasol). Mae perfformiad yn gwaethygu ar ôl y PCMH cyn y treial lle mai dim ond mewn 45.7% o achosion (16 allan o 35 o achosion perthnasol) y cydymffurfiwyd mewn ffordd amserol.

5.18 Roedd parhad o ran yr erlynydd mewn 71% o achosion (26 allan o 36 o achosion perthnasol). Mae achosion o ddyblygu gwaith o ganlyniad i ddiffyg parhad wrth baratoi achosion a chynnal adolygiadau parhaus yn amlwg hyd yn oed yn yr achosion mwyaf difrifol.

5.19 Fel arfer, mae'r cyfarwyddiadau a roddir i'r eiriolwr yn cynnwys dadansoddiad o'r achos a sylwadau ar dderbynioldeb pleon sy'n well na sawl ardal. Fodd bynnag, gellid gwella'r rhain yn helaeth drwy feithrin gwell dealltwriaeth o'r achos o'r cychwyn cyntaf wrth gynnal y dadansoddiad gan drosglwyddo'r ddealltwriaeth honno i'r cyfreithiwr.

5.20 Roedd ansawdd cyffredinol ditiadau yn y sampl ffeiliau yn foddhaol gydag 89.2% yn gywir (33 allan o 36 o achosion). Fodd bynnag, wrth arsylwi yn y llys, nodwyd camgymeriadau sillafu a gwallau teipograffyddol gan yr eiriolwr yn y PCMH a dim ond ar adeg areinio'r diffynnydd y daeth rhai ohonynt i'r amlwg. Yn y gorffennol, roedd ansawdd ditiadau yn bryder ac o ganlyniad, rhoddwyd proses fonitro ar waith gan yr ardal; mae'r arfer hon bellach wedi dod i ben.

5.21 Eiriolwyr y goron CPS sy'n cynnal fwy neu lai pob achos yn PCMH. O ganlyniad i weithredu'r strategaeth eiriolaeth ar lefel leol, mae lefel y gwaith a wneir gan eiriolwyr y Goron yn aml yn afrealistig. Ar adegau, dyrennir hyd at naw achos iddynt sydd wedi'u rhestru ar gyfer PCMH heb roi digon o amser iddynt baratoi ar eu cyfer. Mae gan y strategaeth hon risgiau amlwg o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir a safbwyntiau partneriaid a defnyddwyr y system cyfiawnder troseddol. Ar ôl PCMH, caiff achosion eu trosglwyddo i eiriolwr yn yr ardal i gynnal y treial er bod y rhan fwyaf o'r gwaith gradd pedwar,[5] ond nid pob rhan ohono, yn cael ei drosglwyddo i'r cwnsler.

5.22 Ers yr arolygiad, mae'r CCP newydd wedi lleihau'r defnydd o eiriolwyr y goron yn sylweddol er mwyn ymdrin â'r ôl-groniad a'r diffygion sylweddol sy'n amlwg yn y gwaith o baratoi achosion Llys y Goron.

5.23 Cynhelir paneli rheoli achosion mewn achosion difrifol a chymhleth, ond nid ydynt yn effeithiol ac ni cheir llawer o gyfle i'r gweithiwr achos a ddyrannwyd gyfrannu. Yn ystod 2008, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd panel ar un diwrnod er cyfleustra i'r uwch reolwyr a'r mater pwysicaf oedd y gallu i ddyrannu adnoddau eiriol mewnol i achosion.

### Treialon effeithiol, treialon aneffeithiol a threialon chwâl

5.24 Mae targed a rennir gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i leihau lefel y treialon aneffeithiol a all gael effaith andwyol ar ddioddefwyr a thystion os gwnaethant fynychu'r llys, oedi diwedd achosion unigol a gwastraffu amser gwerthfawr y llysoedd.

5.25 Mae'r gyfradd treialon aneffeithiol o 9.6%, yn cymharu'n ffafriol â'r gyfradd genedlaethol o 11.3% ac ategir hyn gan y sampl ffeiliau, lle mai dim ond dau dreial aneffeithiol a welwyd allan o 33 o achosion, ac mewn un ohonynt nid yr erlyniad oedd ar fai. Fodd bynnag, mae'r lefel treialon chwâl yn peri pryder. O'r ffigurau a oedd ar gael yn ystod 2008-09, ym mis Awst 2008, aeth 11 allan o 16 o dreialon yn chwâl ac ym mis Rhagfyr, digwyddodd hyn mewn wyth allan o 18 o dreialon. Yn y sampl ffeiliau, cafwyd canlyniad anffafriol mewn dau o'r pum treial chwâl gyda'r achos yn cael ei ddirwyn i ben yn ystod y treial a lle na fu unrhyw newid mewn amgylchiadau. Mae'n bosibl mai'r ffaith bod y strategaeth eiriolaeth wedi cael ei rhoi ar waith yn lleol a ysgogodd hyn.

5 Fel arfer, cedwir y radd hon ar gyfer eiriolwyr â phrofiad hirdymor a gallu eithriadol, ac fel arfer gwasanaeth o ddeng mlynedd o leiaf.

**Adennill asedau (enillion o droseddau)**

5.26 Dylai erlynwyr ar ddyletswydd ystyried y mater o adennill asedau gyda'r heddlu yn ystod y cam cyhuddo. Swyddogaeth yr heddlu yw ymchwilio i sefyllfa ariannol y diffynnydd, ac wedi hynny, y CPS fydd yn paratoi ac yn ymdrin â cheisiadau i atafaelu enillion o droseddau. Yn gyffredinol, nid oes gan y CPS lawer o allu i ddylanwadu ar brosesau gorfodi na'r camau terfynol i adennill asedau. Yng Ngwent, ymddengys fod y CPS yn fodlon i'r heddlu gymryd yr awenau ymhob agwedd ar ymdrin ag enillion o droseddau (POCA) ac ni fu'n bartner rhagweithiol wrth gyflawni'r targedau a bennwyd. Ar y cam cyn-cyhuddo, nid oedd 15 o 35 o achosion yn y sampl ffeiliau yn ymdrin â materion atodol, gan gynnwys ystyriaethau POCA. Er bod taflen atgoffa wedi'i darparu a bod staff yn cael eu hatgoffa mewn cyfarfodydd tîm, mae cyfreithwyr sy'n cyhuddo yn colli cyfleoedd. Gwaethygir y sefyllfa gan ddiffyg ffurflenni MG17[6] yn y ffeiliau sy'n arwydd o ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith heddlu rheng flaen hefyd. Yn ddiweddar, penodwyd cyfreithiwr newydd â chyfrifoldeb arweiniol dros POCA a ddylai adfywio'r maes hwn o waith achos.

5.27 Roedd y canlyniadau yn erbyn y targedau ar gyfer 2008-09 yn dda a llwyddwyd i gyflawni'r targed cyffredinol. Gwnaed 55 o orchmynion atafaelu yn erbyn targed o 50, a oedd werth £1.61 miliwn yn erbyn targed o £1.05 miliwn a thri gorchymyn atal yn erbyn targed o naw. Rhagorwyd ar y targed casglu gorfodol hefyd o £271,530. Mae perfformiad ar gyfer chwarter cyntaf 2009-10 ar y trywydd cywir neu'n rhagori ar y trywydd ar gyfer cyflawni pob un o'r pedwar mesur.

**Defnyddio'r system rheoli achosion - Compass CMS**

5.28 Nid oedd y cofnodion ar CMS bob amser yn adlewyrchu'r arnodiadau ar y ffeil bapur ac mewn tri o'r 39 o ffeiliau perthnasol a oedd yn ymwneud â Llys y Goron, roedd y manylion cwblhau wedi'u cofnodi'n anghywir. Yn y sampl ffeiliau, aseswyd bod y defnydd o CMS yn achosion Llys y Goron yn dda neu'n ardderchog mewn 30.8% o achosion, yn weddol mewn 61.5% ac yn wael mewn 7.7%.

**ARGYMHELLIAD**

Dylai'r ardal sicrhau ei bod yn rhoi mwy o flaenoriaeth i waith achos Llys y Goron ac yn pennu disgwyliadau a safonau clir i gyfreithwyr wella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau ac ymdrin ag achosion. Dylai safonau gael eu hategu gan gyfundrefn sicrhau ansawdd gadarn.

6 Ffurflen y dylai'r heddlu ei chwblhau a'i throsglwyddo i'r erlynwyr yn nodi pa un a oes gan yr unigolyn a amheuir asedau y gellid eu hatafaelu.

| 6 ERLYN ACHOSION YN Y LLYSOEDD | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Sefydlog** |

**Safon yr eiriolaeth**

6.1 Mae'r CPS wedi pennu safonau ar gyfer ei eiriolwyr mewnol ac allanol. Fe'u diweddarwyd yn hydref 2008 ac maent yn cynnwys safonau, canllawiau ac awgrymiadau. Mae'n holl bwysig bod eiriolwyr yr erlyniad yn gweithredu ac yn cael eu gweld yn gweithredu er budd y cyhoedd, yn annibynnol ar bob budd arall, yn deg, yn ddi-ofn, ac mewn modd sy'n ategu system dryloyw sy'n dwyn troseddwyr o flaen eu gwell, yn parchu hawliau'r diffynnydd ac yn diogelu pobl ddiniwed. Rydym yn asesu eiriolwyr yn erbyn y safonau hyn gan gofio y bydd sesiynau llys yn amrywio o dreialon i lysoedd remánd a cheisiadau am fechnïaeth i bleon o euogrwydd.

6.2 Gwnaethom asesu 13 o eiriolwyr yn y llysoedd ynadon a Llys y Goron gan ddod i'r casgliad bod yr ansawdd yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf o'r eiriolaeth a welwyd yn gymwys o leiaf ymhob agwedd (ceir tabl yn nodi perfformiad yr ardal yn atodiad A).

6.3 Yn y llysoedd ynadon, mae gan yr ardal rai erlynwyr cyswllt da sy'n synhwyrol ac yn broffesiynol yn y llys ac y mae gan yr ynadon a staff asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill feddwl uchel ohonynt. Mae erlynwyr y goron yn y llysoedd ynadon yn ddigonol ond mae eiriolaeth rhai ohonynt braidd yn anysbrydoledig. Roedd perfformiad asiantau yn amrywio ond heb fod yn eithafol y naill ffordd na'r llall. Nid oedd unrhyw enghreifftiau yn y llysoedd ynadon lle nad oedd profiad yr erlynydd yn addas ar gyfer cymhlethdod yr achos.

6.4 Ymgymerir â thros 80% o wrandawiadau Llys y Goron gan eiriolwyr mewnol y goron. O dan y drefn leol ar gyfer rhoi'r strategaeth eiriolaeth ar waith, mae'n rhaid i'r cyfreithiwr mewn achos gyfiawnhau anfon yr achos hwnnw at gwnsler. Cafodd yr arolygwyr adborth cadarnhaol iawn am ansawdd eiriolwyr y goron. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r adborth, sylwadau'r arolygwyr a'r gwaith archwilio achosion, bod eu gallu i gyflwyno achos yn dda yn cael ei danseilio'n ddifrifol gan ansawdd gwael gwaith paratoi achosion Llys y Goron a nifer yr achosion sy'n cael eu dyrannu i eiriolwyr unigol y goron.

6.5 Canfu'r arolygwyr hefyd enghreifftiau lle roedd eiriolwyr y goron wedi cael achosion difrifol nad oeddent yn addas ar gyfer eu gradd a'u profiad. Cododd hyn o ganlyniad i'r cynnydd sydyn yn nifrifoldeb yr achosion roedd gofyn iddynt ymgymryd â hwy dros gyfnod byr. Mae'r ffaith nad yw rhai achosion arbenigol a sensitif a gaiff eu hanfon at gwnsleriaid bob amser yn cael eu herlyn gan gwnsler sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol hefyd yn peri pryder. Mae'r trefniadau a oedd ar waith adeg yr arolygiad ar gyfer dosbarthu a dyrannu gwaith, i eiriolwyr mewnol y goron ac i gwnsleriaid, wedi cael effaith andwyol ar enw da'r CPS ac mae ganddynt oblygiadau difrifol o ran gweinyddu cyfiawnder, ac yn y pen draw, hyder y cyhoedd.

6.6 Mae'r CCP newydd wedi cymryd camau ar unwaith i ymdrin â'r diffygion a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â chymhwyso strategaeth eiriolaeth y CPS yn amhriodol.

6.7 Prin yw'r dystiolaeth fod ansawdd eiriolaeth wedi cael ei fonitro er gwaethaf yr ymrwymiad yng nghynllun busnes yr ardal i gynnal yr ymarfer hwn ddwywaith y flwyddyn. Roedd y gwaith monitro prin a wnaed wedi'i gyfyngu i waith nas ymladdwyd yn y llysoedd ynadon. Fodd bynnag, yn ddiweddar gwahoddodd yr ardal asesydd allanol o Bencadlys y CPS i edrych ar ddetholiad o'r staff yn y llysoedd ynadon. Rhoddwyd adborth unigol i'r eiriolwyr a arsylwyd a rhoddwyd adborth mwy cyffredinol i'r rheolwyr ardal. Mae'r canfyddiadau yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolygwyr.

**Datblygu achosion yn y llys**

6.8 Mae erlynwyr yn y llysoedd ynadon yn paratoi llawer o'u hachosion yn y llys unwaith y bydd cludwr yn cyrraedd gyda'r ffeiliau. Yn gyffredinol, bydd amser cyn i'r llys ddechrau neu pan fydd y fainc wedi ymneilltuo ond rydym yn cyfeirio at y cyfleusterau sydd ar gael isod. Fel arfer, bydd erlynwyr cyswllt sy'n ymgymryd â gwaith llysoedd Cyfiawnder Troseddol: Achosion Syml, Cyflym, Diannod (CJSSS) yn cael diwrnod yn y swyddfa i baratoi.

6.9 Mae rhestrau llysoedd ynadon yn unol â gofynion CJSSS - mae'r cyfnod amser rhwng y gwrandawiad cyntaf a'r treial yn fyr iawn. Mae pennod 4 yn disgrifio sut y mae gwaith paratoi achosion yn gyffredinol yn wan ac yn cael ei lesteirio gan y ffaith bod yr heddlu yn cyflwyno gwybodaeth dameidiog yn hwyr sy'n arwain at gydymffurfiaeth wael â gorchmynion a gwaith adolygu hwyr gan y CPS, sy'n cael effaith andwyol ar ddatblygiad effeithlon achosion yn y llys.

6.10 Mae protocol rhestru ar waith sy'n ffafriol iawn o blaid y CPS gan alluogi'r ardal i sicrhau ei bod yn defnyddio erlynwyr cyswllt yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae'r protocol wedi'i ategu gan rai egwyddorion allweddol sy'n ategu eiriolaeth yr erlyniad, sef bod yr eiriolwr yn cael amser i baratoi ar gyfer treial, ei fod yn cael y wybodaeth lawn a bod treialon yn cael eu paratoi gan yr eiriolwr a fydd yn eu cyflwyno. Mae hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion yr eiriolwr sydd wedi paratoi'r achos pan fydd achosion yn gorfod cael eu trosglwyddo rhwng ystafelloedd llys. Gwelsom fod y protocol yn cael ei ddilyn yn ymarferol.

6.11 Yn achosion Llys y Goron, mae'r amser a ganiateir ar gyfer gwaith paratoi, sydd yn aml wedi bod yn annigonol, yn effeithio ar y gallu i ddatblygu achosion yn foddhaol pan fyddant yn cyrraedd y llys. Cymerir risgiau annerbyniol ac mae ansawdd y gwaith cyflwyno wedi dioddef. Ni fu dulliau llywodraethu na goruchwylio ar waith ac o ganlyniad, ymhlith pethau eraill, ceir diffyg eglurder o ran priod gyfrifoldebau eiriolwr y goron a'r cyfreithiwr adolygu i wneud penderfyniadau yn y llys. Mae angen datrys y broblem hon a meithrin dealltwriaeth glir ynghylch y penderfyniadau y gall eiriolwyr y goron eu gwneud yn y llys a'r rheini y mae angen eu cyfeirio yn ôl at y cyfreithiwr adolygu neu reolwyr. Yn ei adolygiad thematig ar ansawdd eiriolaeth a gwaith cyflwyno erlynwyr, nododd HMCPSI fod trefniadau clir yn hwyluso gwell proses ar gyfer ymdrin ag achosion yn y llys a'u bod yn helpu i sicrhau bod y penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud ar yr adeg briodol.

6.12 Yn gyffredinol, ceir cymorth da gan weithwyr achos yn y llys gyda gweithiwr ar gael ar gyfer pob un o'r tair ystafell llys yng Nghasnewydd ac un gweithiwr achos yn cael ei ddyrannu i'r llysoedd yng Nghaerdydd.

**Arnodiadau gan y llysoedd**

6.13 Roedd ansawdd yr arnodiadau yn amrywio. Roedd nifer sylweddol o'r arnodiadau gan Lys y Goron yn wael, naill ai gan nad oedd unrhyw arnodiad ar y ffeil o gwbl neu eu bod yn gyfyngedig iawn. Gwneir rhywfaint o waith achos Llys y Goron gan weithwyr achos o Dde Cymru a allai olygu bod llai o sylw yn cael ei roi i achosion o ardal wahanol o fewn y CPS, ond mae canfyddiad yr arolygiad yn peri syndod o ystyried bod 80% o waith achos Llys y Goron yn cael ei erlyn gan

eiriolwyr mewnol y goron. Yn ogystal â chymryd camau i wella ansawdd arnodiadau, mae angen i'r ardal sicrhau bod gwell dealltwriaeth o'r disgwyliadau lle yr ymdrinnir ag achosion y tu allan i'r ardal. Roedd ansawdd yr arnodiadau mewn achosion yn y llysoedd ynadon yn well.

6.14 Mae arnodiadau gwael ar ffeil yn anochel yn arwain at gofnodi gwael ar CMS ac at gwblhau achosion yn anghywir. Gwelsom sawl enghraifft lle nad oedd y cofnodion ar CMS yn cyd-fynd â'r ffeil bapur neu lle nad oedd sail y wybodaeth ar CMS yn eglur. Os cofnodir y wybodaeth anghywir, ceir canlyniadau annerbyniol. Gwelsom un enghraifft lle y cysylltwyd â dioddefwr i'w hysbysu bod y diffynnydd wedi pledio'n euog ond o fewn cyfnod byr o amser, anfonwyd llythyr at y dioddefwr hwnnw i'w hysbysu bod yr achos wedi cael ei ddirwyn i ben am nad oedd digon o dystiolaeth.

6.15 Ar hyn o bryd, caiff adroddiadau achos anffafriol eu paratoi gan y gweithiwr achos sy'n digwydd bod yn y llys pan ddaw achos i ben, hyd yn oed os na fu'r gweithiwr hwnnw yn rhan o'r achos hyd hynny. Mae'r arfer hwn wedi golygu na chwblhawyd rhai adroddiadau ac y cwblhawyd adroddiadau eraill nad oeddent yn cynnwys digon o wybodaeth neu ddadansoddiadau o ran y rhesymau dros fethu.

**Cyfleusterau yn y llysoedd**

6.16 Mae cyfleusterau yn Llys y Goron yng Nghasnewydd ac yng Nghaerdydd yn anfoddhaol i'r erlyniad. Nid oes gan erlynwyr fynediad i CMS er bod uned gyfrifiadurol annibynnol yng Nghasnewydd sy'n eu galluogi i wneud rhywfaint o waith yn y llys. Mae'r ffaith nad oes cyswllt rhwydwaith ar gael yn atal gweithwyr achos rhag defnyddio eu hamser rhydd yn y llys yn briodol a rhag cymryd camau i baratoi a datblygu achosion. Dim ond ar ôl iddynt ddychwelyd o'r llys y gallant wneud hyn. Mae angen i'r ardal ystyried sut y gellir ymdrin â hyn mewn cydweithrediad â CPS De Cymru neu Grŵp Cymru. Byddai cysylltiad rhwydwaith yn y llys hefyd o fudd i eiriolwyr y goron.

6.17 Mae diffyg cyfleusterau yn y llysoedd ynadon hefyd. Unwaith eto, nid oes cysylltiadau rhwydwaith i CMS. Gwneir llawer o'r gwaith paratoi ar gyfer y llys yn y llys ar ôl i'r ffeiliau gyrraedd. Byddai cysylltiad rhwydwaith yn y llys yn hwyluso'r broses o adolygu achosion ac agweddau eraill, yn arbennig lle na fydd gwaith papur ar gael. Byddai'n fodd o osgoi achlysuron, a ganfuwyd wrth archwilio ffeiliau, lle roedd diffynnydd yn awyddus i bledio'n euog ond dim ond y daflen gyhuddo oedd gan yr erlynydd i'w defnyddio i gynnal yr achos. Am nad oedd modd rhoi digon o wybodaeth i'r llys am yr achos, gwrthodwyd gohiriad a gollyngwyd y cyhuddiadau. Byddai mynediad i CMS wedi galluogi'r erlynydd i weld y penderfyniad cyhuddo a deall pa dystiolaeth a ystyriwyd adeg y cam cyhuddo.

6.18 Nid oes ystafell bwrpasol ar gael i erlynwyr yn unrhyw un o'r llysoedd ynadon i gynnal gwaith paratoi achosion nac ymgynghoriadau preifat. Caiff ffeiliau eu cludo i ystafell y llys lle y bydd yr erlynwyr yn eu paratoi ac mae gan y trefniant hwn hefyd oblygiadau o ran diogelwch ffeiliau y mae angen eu hadolygu. Er mwyn gallu defnyddio offer arall fel ffôn, ffacs neu lungopïwr, mae erlynwyr yn dibynnu ar ewyllys da staff y llys.

**ARGYMHELLIAD**

Dylai'r ardal ailystyried ei dull o weithredu'r strategaeth eiriolaeth er mwyn sicrhau eiriolaeth o ansawdd, a ddarperir gan eiriolwyr sy'n meddu ar y sgiliau priodol, ac a ategir gan waith achos cadarn.

| 7 TROSEDDAU TREISGAR A RHYWIOL DIFRIFOL A THROSEDDAU CASINEB | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithiol |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

7.1 Mae troseddau treisgar a rhywiol difrifol yn cynnwys achosi niwed ac anaf corfforol difrifol, troseddau sy'n defnyddio arfau, troseddau traffig y ffyrdd lle y caiff pobl eu lladd, lladd, trais, cam-drin plant a thrais yn y cartref. Mae troseddau casineb yn cynnwys troseddau a waethygir oherwydd hil a throseddau homoffobig, cam-drin yr henoed a throseddau a waethygir oherwydd anabledd. Mae'r CPS yn ymrwymedig i helpu i wneud cymunedau yn fwy diogel o dan Gytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA) 23 ac i weinyddu cyfiawnder mewn perthynas â throseddau o dan PSA 24.

7.2 Yn unol â pherfformiad Llys y Goron, bu dirywiad yn y ffordd y caiff achosion difrifol a sensitif eu trin ers yr OPA yn 2007.

**Arbenigwyr**

7.3 Mae gan yr ardal gydgysylltydd trais yn erbyn merched sy'n arwain ar drais, trais yn y cartref a cham-drin plant. Mae rôl a chyfrifoldebau cydgysylltydd trais yr ardal wedi'u diffinio'n glir. Ceir cydgysylltydd troseddau casineb hefyd sy'n arwain ar droseddau sy'n ymwneud â hil, crefydd, anabledd a throseddau eraill sy'n ymwneud â chasineb; nid yw'r rôl hon wedi'i diffinio cystal.

7.4 Yn gyffredinol, dyrennir achosion sy'n ymwneud â cham-drin plant a thrais i arbenigwyr sy'n meddu ar yr arbenigedd priodol. Yn y sampl ffeiliau, adolygwyd chwech allan o'r saith achos o gam-drin plant a chwech allan o'r wyth achos o drais gan arbenigwr, ond dim ond mewn tri allan o'r wyth achos y defnyddiwyd yr un cyfreithiwr drwy'r achos. Yn y rhan fwyaf o achosion o gam-drin plant a thrais, dangosodd y cyfreithwyr lefelau priodol o wybodaeth. I'r gwrthwyneb, mewn achosion o droseddau casineb a throseddau yn ymwneud â damweiniau ar y ffyrdd lle y cafodd pobl eu lladd, dyrannwyd arbenigwyr i'r achosion ond nid oeddent bob amser yn meddu ar arbenigedd priodol.

7.5 Mae pob un o gyfreithwyr yr ardal wedi'u hyfforddi i ymdrin ag achosion lle ceir honiadau o drais yn y cartref a throseddau casineb ac maent oll yn derbyn achosion o'r fath. Ymdrinnir â phob achos o'r fath yn y llysoedd ynadon gan yr uned OBM. Mae hyn yn golygu nad oes 'perchenogaeth' dros achosion hyd yn oed yn yr achosion mwyaf sensitif neu gymhleth.

**Ansawdd cyngor a phenderfyniadau**

7.6 Mae ansawdd amrywiol y broses o wneud penderfyniadau o ran gwaith achos Llys y Goron yn berthnasol i bob maes arbenigedd. Nid ymdrinnir yn briodol ag achosion bob amser yn ystod y cam cyn-cyhuddo. Roeddem yn anghytuno â'r ffordd y cymhwyswyd cam tystiolaethol prawf llawn y Cod yn ystod y cam cyn-cyhuddo mewn tri allan o'r 29 o achosion difrifol neu sensitif yn y sampl ffeiliau (10.3%) ac adeg cyflwyno achos yr erlyniad mewn un achos. Cymhwyswyd y prawf trothwy yn briodol mewn tri allan o'r pedwar achos perthnasol. Mae ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn y categorïau hyn o achosion, lle y bydd pryder y cyhoedd ac effaith y drosedd ar yr unigolyn fwyaf, yn anfoddhaol.

7.7 Ni fydd y canolfannau cyhuddo yn ymdrin â'r achosion mwyaf cymhleth a sensitif a chânt eu cyflwyno fel ffeiliau ysgrifenedig gan nad yw'n ymarferol adolygu'r achos a rhoi cyngor arno o fewn cyfnod apwyntiad o 45 munud. Yn wahanol i lawer o ardaloedd, nid oes cyngorfeydd arbenigol ar gyfer achosion sy'n ymwneud â thrais neu gam-drin plant.

7.8 Er bod achosion yn cael eu dyrannu'n amserol, mae'r nifer gyfyngedig o gyfreithwyr sydd ar gael i ymgymryd â'r gwaith yn achosi oedi sylweddol cyn y caiff cyngor ei roi a all gael effaith ddifrifol o ran budd cyfiawnder a hyder y cyhoedd. Mewn un achos, cymerodd yr ardal bum mis i roi cyngor ysgrifenedig ar honiad o drais. Yn y cyfamser, honnwyd bod y diffynnydd, y rhoddwyd mechnïaeth iddo gan yr heddlu, wedi cyflawni ymosodiad rhywiol arall ar ferch wahanol o dan amgylchiadau tebyg.

**Trais yn erbyn merched**

7.9 Roedd gennym bryderon am ansawdd rhai o'r penderfyniadau a wnaed mewn achosion o drais, lle roedd yn ymddangos bod y penderfyniad yn seiliedig ar gred yn hytrach na thystiolaeth y gellid ei chyflwyno mewn llys. Er i'r achos gael ei ddirwyn i ben wedi hynny yn dilyn adolygiad gan arbenigwr mwy profiadol, mae achosion o'r fath yn codi disgwyliadau'r dioddefwr yn ddiangen ac yn creu gwaith diangen i'r heddlu o ran paratoi ffeil lawn.

7.10 Roedd diffyg dealltwriaeth hefyd mewn rhai achosion a oedd yn cynnwys honiad o drais yn y cartref. Yn arbennig, gwelsom enghreifftiau lle roedd y polisi trais yn y cartref yn cael blaenoriaeth dros gymhwyso prawf y Cod yn ystod y cam cyhuddo, neu lle cafodd unigolion eu cyhuddo yn seiliedig ar y prawf trothwy lle na fyddai unrhyw dystiolaeth bellach yn cael ei chyflwyno. Unwaith eto, gellid codi disgwyliadau ond i'w dymchwel a chaiff amser gwerthfawr ei wastraffu yn paratoi ffeil.

7.11 Hefyd, datgelodd gwaith archwilio ffeiliau mân achosion o fynd yn groes i bolisi'r CPS mewn achosion o drais, cam-drin plant a thrais yn y cartref.

7.12 Mae ansawdd y broses gwneud penderfyniadau yn cyfrannu at lefel y canlyniadau aflwyddiannus yn y mathau hyn o achosion. Yn ystod 2008-09, roedd perfformiad yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol a gwaethygodd yn ystod chwarter cyntaf 2009-10 a hyd at fis Awst 2009.

| *Canlyniadau aflwyddiannus* | **Targed cenedlaethol** | **Perfformiad cenedlaethol 2008-09** | **Perfformiad yr Ardal 2008-09** | **Perfformiad yr Ardal Chwarter 1af 2009-10** |
|---|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn merched | 29% | 28.1% | 31.2% | 36.4% |
| Trais | 41% | 42.3% | 41.3% | 47.4% |
| Trais yn y cartref | 28% | 27.8% | 31.0% | 35.9% |
| Troseddau rhywiol | 28% | 24.9% | 28.0% | 24.7% |

7.13 Mae cydgysylltydd yr ardal yn cynnal dadansoddiad trylwyr o achosion o drais gan roi adborth i arbenigwyr lle y bo angen. Mae'r dadansoddiad hwn yn amlygu gwendidau ac fe'i defnyddir i geisio cyfeirio gweithgareddau gwella.

7.14 Mae gweithgor ar waith, sy'n cynnwys yr heddlu, i wella'r broses o erlyn achosion o drais. Mae rhestrau gwirio ar gael i'r rheini sy'n rhoi cyngor cyhuddo er mwyn hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau mewn achosion o drais yn y cartref a thrais a chynhaliwyd rhywfaint o waith cadarnhaol ar y cyd mewn perthynas ag achosion sy'n cynnwys honiadau o drais yn y cartref. Fodd bynnag, mae lefel y canlyniadau llwyddiannus yn adlewyrchu'r ffaith mai tameidiog fu'r gwaith a wnaed ac na fu gwaith i wella perfformiad unigolion yn effeithiol.

**Lladd a thrais difrifol**

7.15 Archwiliwyd dau achos gennym a oedd yn cynnwys lladdiad ac roedd gennym bryderon difrifol am y ffordd yr ymdriniwyd â'r ddau achos. Mewn un achos, ni chymhwyswyd y prawf trothwy yn gywir ac ni chofnodwyd y rhesymau dros ei gymhwyso yn briodol ac yn y ddau achos, ni wnaed gwaith paratoi amserol, prin y cydymffurfiwyd â'r cyfarwyddiadau ac nid oedd parhad o ran perchenogaeth yr achos i'w gweld yn y naill achos na'r llall. Roedd ansawdd rhagweithedd o ran rheoli'r achos ac arnodi ffeiliau yn wael yn y ddau achos hefyd.

7.16 Roedd y ffordd yr ymdriniwyd ag achosion o drais difrifol yn well; roeddem yn cytuno â'r penderfyniadau a wnaed ymhob un o'r wyth achos a dim ond mewn un achos roeddem yn anghytuno â'r cyhuddiad a ddewiswyd ar gyfer y treial. Fodd bynnag, unwaith eto, ni wnaed gwaith paratoi achos amserol mewn pump achos ac roedd rhagweithedd o ran rheoli'r achos yn wael mewn dau achos.

7.17 Mae'r ardal yn cynnal paneli rheoli achos mewn achosion o laddiad ond, fel y nodir ym mharagraff 5.23, nid ydynt yn effeithiol.

**Achosion traffig y ffyrdd lle cafodd pobl eu lladd**

7.18 Er mai arbenigwyr sy'n ymdrin ag achosion traffig y ffyrdd lle cafodd pobl eu lladd, nid yw ansawdd disgwyliedig yr arbenigedd bob amser yn amlwg. Mewn un achos yn y sampl ffeiliau, roedd ansawdd y penderfyniadau yn wael. Er bod y penderfyniad i erlyn yn briodol, roedd y cyhuddiadau a ddewiswyd ar y cychwyn yn tanseilio achos yr erlyniad ac ni chywirwyd y sefyllfa er gwaethaf cyfle amlwg i wneud hynny, ac o ganlyniad cafodd yr achos ei ddirwyn i ben. Yn y ddau achos a archwiliwyd, aed yn groes i'r polisi. Mewn un, ni chyfeiriwyd yr achos at y CCP ac ni anfonwyd llythyr at y teulu yn egluro'r penderfyniad nac yn cynnig cyfarfod. Nid oedd unrhyw gysondeb o ran erlynydd ychwaith ac yn ystod y treial, cafodd y cwnsler anawsterau wrth gael cyfarwyddiadau gan y cyfreithiwr adolygu ar bwyntiau allweddol. Yn yr ail achos, ni hysbyswyd y teulu o'r cyhuddiad y penderfynwyd ei ddewis ac ni chynigiwyd cyfarfod iddynt i egluro'r penderfyniad.

**Troseddau casineb**

7.19 Archwiliwyd pump achos gennym lle roedd yr elfen trosedd casineb yn hiliol neu'n grefyddol ac unwaith eto, gwelsom enghreifftiau o fynd yn groes i'r polisi a'r canllawiau perthnasol. Mewn un achos, roeddem yn anghytuno â'r penderfyniad i ddirwyn yr achos i ben lle cafodd y diffynnydd ei rwymo yn ystod y treial am drosedd wedi'i hysgogi gan grefydd. Ni fu unrhyw newid mewn amgylchiadau ac ni wnaed cais am awdurdod i ddirwyn yr achos i ben a oedd yn amhriodol. Mewn achos arall, derbyniwyd ple i'r dewis amgen o drosedd nas gwaethygwyd gan hil yn y PCMH. Ni arnodwyd y rheswm dros wneud hyn ac roedd y ffaith nad oedd unrhyw gofnod o'r penderfyniad yn awgrymu na wnaed cais am awdurdod i gymeradwyo'r cam gweithredu hwn.

7.20 Mae'r cydgysylltydd troseddau casineb wedi cwblhau nifer o gynlluniau gweithredu ac wedi gweithio gyda phartneriaid i gynhyrchu protocolau ar y cyd, ond prin iawn yw'r dystiolaeth o waith monitro neu gynghori effeithiol i ysgogi gwelliannau yn y ffordd yr ymdrinnir â gwaith achos.

7.21 Mae panel craffu wedi'i sefydlu ar gyfer troseddau casineb sy'n gadarn ac yn amlygu materion i wella gwaith achos ond, hyd yma, prin iawn yw'r dystiolaeth bod ei ganfyddiadau yn cael eu defnyddio i wella gwaith achos.

7.22 Roedd perfformiad ar gyfer 2008-09 ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

| *Canlyniadau aflwyddiannus* | **Targed cenedlaethol** | **Perfformiad cenedlaethol 2008-09** | **Perfformiad yr Ardal 2008-09** | **Perfformiad yr Ardal Chwarter 1af 2009-10** |
|---|---|---|---|---|
| Troseddau casineb: troseddau hiliol, crefyddol, homoffobig ac anabledd wedi'u cyfuno | 18% | 18.0% | 18.9% | 19.0% |

## Diogelu plant a cham-drin plant

7.23 Y cydgysylltydd trais yn erbyn merched sy'n gyfrifol am gam-drin plant a materion sy'n ymwneud â diogelu plant. Ceir cofnodion gan y pum bwrdd diogelu plant ac mae'r arweinydd ar gael i ddarparu gwybodaeth os gwneir cais am hynny ond hyd yma, ni fu angen gwneud hynny. Unwaith y bydd yr ardal wedi ymdrin â'r pryderon a amlygir mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, bydd cyfleoedd i gydweithredu'n fwy effeithiol.

7.24 O'r sampl ffeiliau, roeddem yn gallu dirnad bod ansawdd y penderfyniadau mewn achosion o gam-drin plant yn gyffredinol gadarn. Ceir protocol trydydd parti da hefyd ar gyfer achosion troseddol ac achosion gofal cysylltiedig yn y llysoedd sifil. Fodd bynnag, mae angen gwella ansawdd arnodiadau ar ffeiliau lle caiff tystiolaeth gan blant ei recordio ar fideo. Nid oedd bob amser yn glir pa un a wyliwyd y fideo adeg rhoi cyngor cyhuddo neu adeg cynnal adolygiadau ffeil llawn a, lle roedd wedi'i wylio, nid oedd yr asesiad a wnaed gan yr erlynydd bob amser wedi'i gofnodi.

7.25 Nid oes tîm ieuenctid arbenigol ac mae pob cyfreithiwr yn ymdrin â'r achosion hyn. Mae'r ardal yn ceisio sicrhau na ddefnyddir asiantau i erlyn yn y llysoedd ieuenctid.

## Nodi a rheoli achosion sensitif

7.26 Mae'r ardal yn nodi ac yn tynnu sylw at achosion sensitif ac achosion sy'n ymwneud â throseddau casineb ar CMS ond yn anarferol, mae'n dueddol o dynnu sylw'n ddiangen at achosion ychwanegol. Anfonwyd negeseuon atgoffa dros yr e-bost at staff i sicrhau y caiff achosion eu nodi'n briodol ac mae'r cydgysylltwyr arweiniol yn cynnal profion yn eu maes arbenigedd.

### ARGYMHELLIAD

Dylai'r ardal gymryd camau i wella ansawdd y broses o wneud penderfyniadau mewn pob achos difrifol a sensitif, gan sicrhau y cydymffurfir â pholisïau.

Dylai'r ardal ystyried sefydlu cyngorfeydd ar gyfer trais a throseddau rhywiol.

| 8 DATGELU DEUNYDD NAS DEFNYDDIWYD | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwella** |

**Gwneud penderfyniadau a chydymffurfio â dyletswyddau datgelu**

8.1 Ers yr arolygiad diwethaf yn 2007, gwnaed ymdrechion i barhau â'r gwelliannau a nodwyd bryd hynny yn y ffordd y mae Gwent yn ymdrin â dyletswyddau datgelu, pan aseswyd ei bod wedi gwella a'i bod yn cyflawni gradd weddol. Datgelodd ein gwaith archwilio ffeiliau fod yr ardal wedi parhau i wella ers hynny (ceir tabl yn nodi perfformiad yn y gwaith archwilio ffeiliau yn atodiad A).

**Datgelu cychwynnol a pharhaus**

8.2 Mae datgelu cychwynnol yn golygu rhoi unrhyw ddeunydd i'r amddiffyniad nas datgelwyd yn flaenorol iddo ac sy'n bodloni'r prawf datgelu. Cymhwysir y prawf gan y cyfreithiwr ac mae'n ymwneud â deunydd a allai danseilio achos yr erlyniad neu a allai gynorthwyo achos yr amddiffyniad. Mae dyletswydd barhaus i ddatgelu deunydd o'r fath drwy gydol oes achos yn y llys. Gall peidio â datgelu rhywbeth y dylid bod wedi'i ddatgelu arwain at anghyfiawnder a gall methu â chydymffurfio arwain at ganlyniadau difrifol i'r erlyniad.

8.3 Datgelodd ein gwaith archwilio ffeiliau yr ymdriniwyd â'r broses datgelu cychwynnol yn briodol yn y mwyafrif o achosion yn y llysoedd ynadon ac yn Llys y Goron (87.1% a 91.9% yn y drefn honno). Mae'r perfformiad hwn yn sylweddol well na'r ffigurau cenedlaethol a gynrychiolwyd yng nghanfyddiadau adroddiad thematig HMCPSI ar ddatgelu a gyhoeddwyd yn 2008. Roedd y sefyllfa yn debyg o ran datgelu parhaus. Ymdriniwyd yn briodol â'r broses mewn 77.8% o ffeiliau llysoedd ynadon ac 88.2% o ffeiliau Llys y Goron. Cafwyd dirywiad bach mewn perfformiad mewn achosion yn y llysoedd ynadon ond nid oedd y dirywiad hwn yn arwyddocaol.

8.4 Caiff y gwelliant o ran ymdrin â'r broses ddatgelu ei lesteirio gan ddiffyg amseroldeb wrth wneud hynny. Yn y llysoedd ynadon, gwelwyd enghreifftiau penodol o ddeunydd datgelu cychwynnol yn cael ei gyflwyno'n hwyr iawn, naill ai ychydig cyn dyddiad y treial neu ar ddyddiad y treial. Mae dau reswm am hyn: mae'n digwydd yn rhannol am fod ffeiliau anghyflawn heb restrau priodol o ddeunydd nas defnyddiwyd yn cael eu darparu gan yr heddlu; ac o ganlyniad i oedi gan y CPS wrth gynnal adolygiad llawn o'r ffeiliau i ymdrin â'r broses ddatgelu. Yn yr achosion a archwiliwyd, dim ond mewn dwy ran o dair (61.2%) o achosion y cydymffurfiwyd â gofynion datgelu cychwynnol mewn ffordd amserol. Gall datgelu'n hwyr arwain at ohirio achosion ar ddiwrnod y treial sy'n peri anghyfleustra i'r tystion sy'n mynychu ac yn gwastraffu amser gwerthfawr y llys ac adnoddau'r CPS. Mae amseroldeb y broses datgelu parhaus hefyd yn anfoddhaol gyda dim ond 45.5% o achosion yn cael eu trin mewn ffordd amserol.

8.5 Mae arfer o ddibynnu ar gwnsleriaid ac eiriolwyr y goron i ymdrin â'r broses ddatgelu, gan roi cyfarwyddyd penodol iddynt wneud hynny mewn rhai achosion, wedi datblygu. Er ei bod yn dderbyniol trafod materion datgelu gyda chwnsleriaid, ni ellir trosglwyddo dyletswydd cyfreithiwr y CPS iddynt. Er nad yw'n bolisi gan yr ardal, mae'r rheolwyr yn ymwybodol o'r arfer hon, yr ymddengys iddi godi o ganlyniad i'r ffaith nad oedd cyfreithwyr ar gael i adolygu achosion Llys y Goron. Fodd bynnag, mae cyfarwyddiadau i'r eiriolwr yn cynnwys mewnosodiad yn rhoi cyfarwyddyd penodol iddo o ran ceisiadau adran 8[7] sy'n arfer da.

7 Mae adran 8 yn ymdrin â cheisiadau i ddatgelu dogfennau'r erlyniad.

8.6 Nifer y treialon nad aethant yn eu blaenau o ganlyniad i faterion datgelu rhwng mis Awst 2008 a mis Gorffennaf 2009 yn y llysoedd ynadon oedd naw allan o 372 o achosion (2.4%). Gellid lleihau'r ffigur hwn.

**Deunydd sensitif a deunydd trydydd parti**

8.7 Mae'r heddlu yn cyflwyno rhestr o ddeunydd sensitif ymhob achos. Rhaid i'r cyfreithiwr ystyried y rhestr a'r dogfennau er mwyn penderfynu a yw'r deunydd yn sensitif ai peidio. Weithiau caiff deunydd sensitif a allai beidio â bod yn sensitif pe'i golygid neu sy'n syml yn amherthnasol, ei gynnwys ar y rhestr. Dylai'r erlynydd drefnu i'r eitemau priodol gael eu golygu a'u trosglwyddo i'r rhestr deunydd nad yw'n sensitif, neu i ddeunydd nad yw'n berthnasol gael ei arnodi fel deunydd o'r fath ar y rhestrau. Ymdriniwyd yn briodol â'r broses o ddatgelu deunydd sensitif mewn ychydig dros hanner yr achosion yn y llysoedd ynadon (58.3%) ond ymdriniwyd â'r broses yn well yn achosion Llys y Goron (86.3%).

8.8 Mewn sawl achos, roedd fel petai dryswch o ran sut y dylid ymdrin â materion datgelu yn ymwneud â thrydydd partïon ac imiwnedd budd y cyhoedd (PII). Yn y sampl, roedd materion datgelu deunydd trydydd parti yn berthnasol i chwe ffeil ond dim ond tair ohonynt yr ymdriniwyd â hwy'n briodol, nid ymdriniwyd â dwy ohonynt yn briodol ac yn y ffeil arall, nid oedd unrhyw gofnod. Roedd y ddau achos lle nad ymdriniwyd â hwy'n briodol yn ymwneud â chofnodion gwasanaethau cymdeithasol.

8.9 Nid oedd unrhyw achosion lle roedd angen cais PII er y gallai fod wedi bod angen cais o'r fath mewn un achos nas cofnodwyd. Mae systemau a chyfleusterau priodol ar gyfer storio deunydd o'r fath a chedwir cofnod gan y rheolwyr sy'n cofnodi unrhyw geisiadau PII er mwyn gallu hysbysu'r Pencadlys yn briodol. Fodd bynnag, ymddengys fod diffyg gwybodaeth a hyder ymhlith erlynwyr wrth nodi ac ymdrin â'r math hwn o ddeunydd. Mae angen i'r ardal godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol ynghylch ymdrin â materion trydydd parti a materion PII.

**ARGYMHELLIAD**

Dylid darparu hyfforddiant pellach i gyfreithwyr ar ymdrin â materion datgelu deunydd trydydd parti ac imiwnedd budd y cyhoedd, a dylid cymryd camau i gytuno ar brotocol ar gyfer datgelu deunydd trydydd parti gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol.

**Cadw ffeiliau**

8.10 Cedwir rhestrau datgelu a dogfennau gyda'i gilydd mewn ffolderi taflenni cofnodi datgelu (DRS) newydd gyda siartiau llif wedi'u hargraffu arnynt yn dangos y broses ddatgelu. Mae'r rhain yn ddefnyddiol wrth atgoffa'r staff ac maent yn cadw'r holl ddeunydd perthnasol gyda'i gilydd mewn ffolder taclus sy'n hawdd cael gafael arno. Yn y sampl ffeiliau, roedd y llythyrau datgelu yn gyffredinol wedi'u cadw yn y ffolder gohebiaeth ac roedd y ffeiliau yn ymddangos yn gymharol drefnus.

8.11 Mae cyfreithwyr yn dal i gyflawni gwallau sylfaenol. Dim ond mewn dwy ran o dair o'r ffeiliau a archwiliwyd roedd y camau gweithredu a'r penderfyniadau wedi'u harnodi ar y DRS. Mae hyn yn golygu nad oes trywydd archwilio cyflawn.

**Gwella perfformiad a chamau gwella**

8.12 Ers yr arolygiad yn 2007, rhoddwyd hyfforddiant i gyfreithwyr gan yr hyrwyddwr datgelu. Yn ogystal, ymgymerodd cyfreithwyr â gwaith dysgu o bell, cawsant gyfarwyddiadau desg a rhoddwyd disg hyfforddiant datgelu iddynt. Darparwyd hyfforddiant i staff gweinyddol y CPS hefyd.

8.13 Mae gan Went swyddogion heddlu profiannol a swyddogion adolygu tystiolaeth sydd wedi'u hyfforddi i ymdrin â deunydd nas defnyddiwyd. Mae hyrwyddwr yr ardal hefyd wedi darparu canllaw byr i helpu swyddogion eraill yr heddlu. Mae'r ymdrechion hyn i wella ansawdd y ffeiliau llawn a ddarperir gan yr heddlu i'w canmol ond ar hyn o bryd, ymddengys mai prin yw'r effaith y maent wedi'i chael; dangosodd ein gwaith archwilio ffeiliau bod deunydd amhriodol wedi'i restru ar y rhestr sensitif mewn bron i draean o'r achosion. Wedyn mae'n rhaid i'r cyfreithwyr drosglwyddo'r deunydd hwn i'r rhestrau deunydd nad yw'n sensitif ac nid oedd hyn bob amser yn cael ei wneud.

8.14 Er mwyn mesur effeithiolrwydd a'r gwelliant mewn perfformiad, cynhelir gwaith samplu misol ar hap a rhoddir adborth personol ar unrhyw faterion sy'n deillio o'r gwaith hwnnw. Mae cyfarfodydd tîm yn darparu fforwm i atgoffa staff yn rheolaidd o faterion datgelu ond er gwaethaf y broses hon, mae gwallau sylfaenol yn digwydd o hyd. Felly mae angen i'r rheolwyr ystyried effeithiolrwydd y mesurau hyn er mwyn sicrhau bod perfformiad yn adlewyrchu'r safon ofynnol.

| 9 TERFYNAU AMSER CADWRAETH | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gwael | **Gwael** | **Wedi gwella** |

**Systemau terfynau amser cadwraeth yr ardal**

9.1 Mae'r ardal wedi mabwysiadu polisi a safonau cenedlaethol ar gyfer terfynau amser cadwraeth (CTL) ac ym mis Tachwedd 2008, dosbarthodd gyfarwyddiadau desg i bob aelod o staff yn nodi cyfrifoldebau unigol. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i gofnodi dyddiadau dirwyn i ben ac adolygu CTL ar CMS ac mewn dyddiaduron papur gan gynnal profion rheolaidd mewn perthynas â'r ddau. Canfuwyd gennym fod dyddiadau dirwyn i ben ac adolygu yn cael eu cofnodi'n briodol yn y system dyddiadur a'u bod yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Lle y bydd angen gwneud cais am estyniad, hysbysir pennaeth yr uned. Mae'r cyfreithwyr yn gyfrifol am baratoi cronolegau yn dangos cynnydd yr achos i ategu unrhyw geisiadau a lle y bydd y statws remánd yn newid, bydd gweinyddwyr yn diwygio'r dyddiaduron ac yn nodi'r newid ar y ffeil.

9.2 Bu hyfforddiant i bob aelod o staff yn orfodol. Ceir tystiolaeth bod staff gweinyddol ac erlynwyr cyswllt yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau a'u bod yn cyflawni'r rhwymedigaethau hynny.

9.3 Mae'r ardal wedi cynnal sawl adolygiad cynhwysfawr o'r system CTL a nododd pob adolygiad achosion o ddiffyg cydymffurfio. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â pheidio â chyfrifo'r CTL yn y llys, yn arbennig yn y llysoedd ynadon, peidio â chytuno ar y dyddiad dirwyn i ben mewn llys agored ac arnodiadau annigonol neu amwys. Ar ôl yr adolygiadau, lluniwyd cynlluniau gweithredu a chyhoeddwyd nodiadau atgoffa. Yn anffodus, hyd yn oed gyda'r cynlluniau gweithredu hyn, nododd adolygiadau dilynol fod problemau tebyg yn digwydd o hyd.

**Cadw at derfynau amser cadwraeth**

9.4 Roedd naw ffeil yn y prif sampl lle roedd y diffynnydd yn y ddalfa ac archwiliwyd chwe achos arall ar y safle. Yn gyffredinol, dangosodd y ffeiliau fod yr erlynydd wedi nodi yn ystod y cyfnod remánd cyntaf fod yr achos yn ddarostyngedig i CTL a bod angen cymryd camau priodol i gofnodi'r achos ar y system. Ar y cyfan, roedd yr arnodiad cyfarwyddiadol ar y ffeil yn glir ac yn ddiamwys ac yn unol â hyn, cafodd y ffeiliau hyn eu cofnodi'n briodol ar y dyddiadur papur ac ar CMS. Roedd dyddiadau dirwyn i ben ac adolygu wedi'u cofnodi'n briodol ar gloriau ffeiliau. Lle roedd statws remánd diffynnydd wedi newid, nodwyd hyn yn glir ar y ffeil, yn y dyddiadur ac ar CMS.

9.5 Amlygodd y gwaith archwilio ffeiliau fod arnodiadau o wrandawiadau dilynol gan gyfreithwyr ac asiantau yn parhau'n broblem. Mae gweinyddwyr yn darganfod methiannau sy'n deillio o waith arnodi gwael ar ffeiliau Llys y Goron a'r llysoedd ynadon yn rheolaidd ac yn diwygio'r methiannau hynny, a hysbysir penaethiaid unedau o achosion o'r fath. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod adborth penodol ac unigol yn cael ei roi er mwyn pwysleisio difrifoldeb y methiannau hyn.

9.6 Datgelodd gwaith archwilio ffeiliau gan arolygwyr nifer o ddiffygion ac ystyriwyd bod dau ohonynt yn peri pryder penodol. Yn y ddau achos, roedd y diffynnydd yn y ddalfa mewn perthynas â throseddau eraill ond maent yn dangos methiannau wrth ymdrin ag achosion yn y ddalfa, y potensial o beri risg i'r cyhoedd a'r risg y caiff diffynyddion eu cadw'n anghyfreithlon. Roedd yr achosion yn cynnwys:

- cais i estyn cyfnod yn y ddalfa a gafodd ei wrthod yn Llys y Goron am fod y CPS heb weithredu'n ddigon cyflym. Ni hysbyswyd Pencadlys y CPS o'r methiant hwn yn unol â pholisi'r CPS;

- ffeil llys ynadon a gafodd ei dirwyn i ben ar sail budd y cyhoedd ddeuddydd cyn i'r CTL ddirwyn i ben. Nid hysbyswyd llywodraethwr y carchar tan dridiau ar ôl i'r achos gael ei ddirwyn i ben. Roedd yr ardal wedi methu â chydymffurfio â chanllawiau'r CPS i hysbysu'r llywodraethwr ar unwaith dros y ffôn ac wedi hynny yn ysgrifenedig yn ddi-oed.

9.7 Roedd diffygion eraill a nodwyd yn y sampl ffeiliau yn cynnwys methu â chofnodi CTL ar y ffeil er ei bod yn amlwg bod y diffynnydd wedi cael ei gadw yn y ddalfa yn ystod y gwrandawiad cyntaf ac arnodiadau aneglur ac amwys am statws cadwraeth y diffynnydd.

9.8 Mewn un achos arbennig o anfoddhaol, nododd yr arnodiadau fod y diffynnydd wedi'i remandio ar fechnïaeth dechnegol gan ei fod yn y ddalfa mewn perthynas â throseddau eraill,[8] ond nododd arnodiadau mewn gwrandawiadau dilynol fod y llys, yr amddiffyniad a'r erlyniad yn anghytuno ar statws cadwraeth y diffynnydd. Ni ddaethpwyd o hyd i ateb boddhaol yn yr achos hwn. Ni nodwyd CTL ar y ffeil ac ni chafodd ei gofnodi ar y systemau er gwaethaf y ffaith i'r llys fynnu y dylid ei gadw yn y ddalfa yn y gwrandawiad cyntaf. Er na fu unrhyw fethiant CTL yn yr achos hwn, ni weithredwyd mewn ffordd ragweithiol ac ni fynegwyd unrhyw bryder gan sawl eiriolwr a fu'n rhan o'r achos yn ystod y gwrandawiadau hyd nes y cofnodwyd ple euog.

9.9 Dim ond mewn un achos y cafwyd tystiolaeth bod y dyddiad wedi'i gyfrifo a'i gyhoeddi mewn llys agored.

9.10 Ni fu ymdrechion i annog y llysoedd i ymgymryd â gwaith monitro ar y cyd yn llwyddiannus o hyd. Ni lofnodwyd y protocol drafft y cyfeiriwyd ato yn adroddiad OPA 2007 er bod Llys y Goron yn monitro CTL yn annibynnol.

8 Weithiau, dyfernir mechnïaeth dechnegol er bod sail dros gadw diffynnydd yn y ddalfa am ei fod naill ai'n bwrw dedfryd o garchar neu ei fod wedi'i gadw yn y ddalfa, naill ai gerbron yr un llys neu gerbron llys arall, mewn perthynas â materion eraill. O fis Awst 2009, mewn unrhyw achos lle y bydd yr erlynydd yn fodlon bod achos dros dynnu'r fechnïaeth yn ôl, ni ddylai gytuno i fechnïaeth dechnegol a dylai ei wrthwynebu lle y bo angen. Dylid gwneud hyn er mwyn lleihau'r risg i'r cyhoedd pe rhyddhawyd y diffynnydd o'i ddedfryd neu ei gyfnod remánd yn y carchar cyn diwedd yr achos y dyfernir mechnïaeth dechnegol ar ei gyfer.

| 10 Y GWASANAETH I DDIODDEFWYR A THYSTION | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu** |

**Diwallu anghenion dioddefwyr a thystion**

10.1 Yn OPA 2007, aseswyd bod perfformiad yn weddol. Ers hynny, canfu adolygiad o'r gofal a roddir i ddioddefwyr a thystion ar ôl cyhuddo a gynhaliwyd gan yr heddlu cenedlaethol/Uned Darparu Gofal i Ddioddefwyr a Thystion (VWCDU) y CPS ym mis Gorffennaf 2009 y bu gwelliant mewn prosesau ond y gellid gwneud rhagor o hyd. Mae ein gwaith archwilio ffeiliau a'n harolygiad yn cadarnhau'r canfyddiadau hyn ac ystyriwyd materion ehangach sy'n effeithio ar brofiadau dioddefwyr a thystion yng Ngwent.

10.2 Dylai erlynwyr sydd ar ddyletswydd asesu anghenion dioddefwyr a thystion yn ystod y cam lle gwneir penderfyniad cyn-cyhuddo (PCD). Mae'r ffeiliau a archwiliwyd a'r gwaith arsylwi a wnaed mewn sesiynau cyhuddo yn datgelu nad yw anghenion dioddefwyr a thystion a materion atodol yn cael eu hystyried yn aml, neu'n sicr nad yw hynny'n cael ei gofnodi ar ddogfennaeth MG3. Canfu ein gwaith archwilio ffeiliau mai dim ond mewn dwy ran o dair o achosion y cafodd materion atodol eu hystyried; cadarnhawyd hyn hefyd gan adolygiad y VWCDU a nododd mai dim ond mewn ychydig yn llai na hanner y ddogfennaeth MG3 a archwiliwyd y llwyddodd Gwent i ystyried anghenion dioddefwyr a thystion.

10.3 Yn aml, ni chaiff ffurflenni argaeledd tystion (MG11) na ffurflenni asesu tystion (MG2) eu cwblhau'n llawn ac nid ydynt ar gael yn rheolaidd mewn ymgynghoriadau cyn-cyhuddo ychwaith. Dim ond 68.3% oedd wedi'u cwblhau'n llawn yn sampl adolygiad VWCDU a chadarnhawyd hyn gan ein gwaith archwilio ffeiliau. Caiff y diffyg rhagweithedd hwn o ran cadarnhau anghenion tystion ei waethygu gan y defnydd cyfyngedig a wneir o gynlluniau gweithredu da gan erlynwyr ar ddyletswydd.

10.4 Ceir oedi sylweddol wrth ofyn am gyngor cyhuddo neu gael cyngor cyhuddo sydd felly'n arwain at oedi wrth ddechrau achosion yn y llys; mae hyn yn golygu o bryd i'w gilydd fod achosion yn methu am na chânt eu dechrau o fewn terfynau amser. Mae hyn yn arwain at sefyllfa anfoddhaol iawn i ddioddefwyr ac mae angen i'r ardal ystyried y mater gyda'i phartneriaid yn yr heddlu. O dan amgylchiadau lle y ceir oedi ond bod achosion yn mynd rhagddynt, mae llawer ohonynt yn methu, gan nad yw tystion yn mynychu oherwydd hyd yr amser y bu'r achos yn mynd rhagddo. Cyfradd presenoldeb tystion mewn treialon yn 2008-09 oedd 85.2% o gymharu â'r ffigur cenedlaethol o 90.0%. Mae angen i'r ardal archwilio ei phrosesau ei hun er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau prydlon a chadarn wedi'u hategu gan brosesau datblygu a rheoli achosion effeithiol. Fel y saif pethau, nid yw dioddefwyr bob amser yn cael gwasanaeth da ac nid yw cyfiawnder yn cael ei weinyddu.

**Unedau gofal tystion**

10.5 Mae gan yr uned gofal tystion (WCU) staff o'r CPS a'r heddlu sy'n gweithio fel swyddogion gofal tystion (WCO). Fe'i rheolir gan reolwr gofal tystion yr heddlu ac fe'i lleolir yn swyddfa Cwmbrân. Bu rhai anawsterau ymarferol o ran trefniadau rheoli llinell staff; nid yw hyn yn wahanol i lawer o unedau'n genedlaethol lle mae'r telerau a'r amodau yn wahanol gan ddibynnu ar ba wasanaeth sy'n cyflogi'r WCO. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod yr uned wedi'i chyd-leoli o fewn y brif swyddfa o fudd gan ei bod yn ddigon agos i gael gafael ar wybodaeth am achosion os bydd angen.

10.6 Yn ystod y 18 mis diwethaf, adolygwyd llawer o systemau a phrosesau'r Uned Gofal Tystion a rhoddwyd newidiadau ar waith. Dangosodd ein gwaith archwilio ffeiliau fod yr uned yn cysylltu â dioddefwyr yn rheolaidd ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd. Defnyddir y system rheoli tystion (WMS) i greu rhestrau tasgau ac i gofnodi gwybodaeth yn ogystal â chadw cofnod o bob cyswllt â dioddefwyr a thystion. Tynnir sylw yn dda at achosion at ddibenion monitro.

10.7 Er bod y newidiadau a'r gwelliannau i brosesau a rolau'r WCU wedi arwain at well gwasanaeth, bu cydberthnasau rhwng yr uned a'r CPS weithiau'n anodd. Mae'r ffaith bod yr uned a'r CPS wedi dehongli eu priod rolau yn y broses mor gaeth wedi bod yn broblem. Ymddengys fod y ddwy ochr wedi dod yn anhyblyg gan wrthod ymgymryd â thasgau a fyddai o gymorth i dystion ac yn hyrwyddo ymagwedd bartneriaeth tuag at eu gofal, er nad ydynt yn rhan bendant o'u cylch gwaith.

10.8 Roedd tystiolaeth o ryngweithio da rhwng yr Uned Gofal Tystion a'r CPS mewn achosion yn y llysoedd ynadon. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd y broses hon yn dibynnu ar negeseuon e-bost a nodiadau atgoffa i fynd ar drywydd ymholiadau nas atebwyd. Roedd achosion lle y gellid bod wedi gwella'r gwasanaeth i'r dioddefwr pe ceid cyswllt uniongyrchol rhwng staff yr Uned Gofal Tystion a staff y CPS.

10.9 Nid yw'r llif gwybodaeth rhwng y CPS i'r Uned Gofal Tystion mewn achosion yn Llys y Goron yn dda ac mae angen ei wella. Mae rhestrau i helpu i ddarwahanu presenoldeb tystion mewn achosion mawr yn brin. Mae'n rhaid i Swyddogion Gofal Tystion benderfynu pwy y dylid eu rhybuddio, neu benderfynu rhybuddio pawb, a phenderfynu ar ba ddiwrnod y bydd angen iddynt fynychu, gan nad yw'r wybodaeth yn cael ei darparu gan y CPS. Mae hyn yn creu dryswch ac anghyfleustra i dystion os bydd yn rhaid newid eu rhybudd i fynychu'r llys yn agos at y treial, neu os bydd yn rhaid iddynt aros am gyfnodau hir yn y llys.

10.10 Dim ond mewn perthynas â thystion a gaiff eu galw i dreial y cynhelir asesiad anghenion llawn gan Swyddogion Gofal Tystion. Dim ond asesiad cryno a gynhelir mewn perthynas â'r rheini nas gelwir felly nid yw'r ardal yn cyflawni'r gofyniad Dim Tyst Dim Cyfiawnder (NWNJ) hwn.

10.11 Er mwyn ceisio bodloni'r terfynau amser gofynnol ar gyfer hysbysu dioddefwyr o ganlyniad eu hachos, mae'r Uned Gofal Tystion yn aml yn gorfod dibynnu ar CMS. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm am hyn yw bod CMS yn cael ei ddiweddaru'n gyflymach na LIBRA (system y llys) ac nad oedd y gwaith y cytunwyd arno gyda Gwasanaethau'r Llys wedi bod yn ddibynadwy. Gan fod yr arolygiad wedi canfod fod cyfran sylweddol o'r cofnodion terfynol ar CMS yn anghywir, mae'n debygol bod gwybodaeth anghywir wedi cael ei rhoi i ddioddefwyr.

10.12 Caiff perfformiad yr Uned Gofal Tystion ei fonitro gan y rheolwr gofal tystion sy'n hap-samplu nifer o achosion fesul Swyddog Gofal Tystion bob mis. Rhoddir adborth i unigolion ac mae hyn yn helpu i nodi problemau a mynd i'r afael â hwy er mwyn gwella perfformiad. Cyhoeddir gwybodaeth rheoli perfformiad bob mis ac fe'i trafodir hefyd yng nghyfarfod tîm yr Uned Gofal Tystion. Trafodir perfformiad yr ardal yng nghyfarfodydd rheoli perfformiad y tîm erlyn (PTMP) ac is-grŵp dioddefwyr a thystion y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol (LCJB).

10.13 Dengys ffigurau ar gyfer treialon chwâl a threialon aneffeithiol sy'n deillio o ganlyniad i faterion yn ymwneud â thystion fod Gwent wedi gwella yn ystod 2007-08 ond bu dirywiad bach yn 2008-09.

**Cyfathrebu'n uniongyrchol â dioddefwyr**

10.14 Mae cydymffurfiaeth o ran cyfathrebu'n uniongyrchol â dioddefwyr (DCV) wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf o ran nodi'r dioddefwyr ac amseroldeb y cyfathrebu, er y gellid gwella amseroldeb o hyd. Dengys ffigurau ar gyfer y chwarter treigl hyd at fis Mai 2009 fod llythyrau wedi'u hanfon at ddioddefwyr agored i niwed a dioddefwyr a oedd yn teimlo o dan fygythiad o fewn y terfyn amser o un diwrnod gwaith mewn 94.3% o achosion. Anfonwyd llythyrau at ddioddefwyr eraill o fewn y targed o bum diwrnod gwaith mewn 85.7% o achosion. Mae'r ardal bellach yn rhagori ar y targed dirprwyol ar gyfer nifer y llythyrau y dylid eu hanfon, ond rydym wedi mynegi ein pryderon ynghylch dilysrwydd y targed dirprwyol mewn adroddiad archwilio diweddar.

10.15 Ar y gorau, gellir disgrifio ansawdd a chynnwys llythyrau DCV fel amrywiol ac anghyson. Roedd rhai llythyrau yn wael iawn ac nid oeddent yn addas at y diben o ran naws a chynnwys. Roedd llythyrau templed wedi'u haddasu'n amhriodol a gwallau teipograffyddol blêr yn gyffredin. Roedd nifer o lythyrau a oedd wedi'u cynnwys mewn achosion a archwiliwyd gennym wedi'u hanfon at deuluoedd lle roedd y dioddefwr wedi marw. Roedd y rhain yn arbennig o wael, roeddent yn aneglur ac nid oeddent yn cynnwys yr empathi sydd ei angen mewn achosion sensitif o'r fath. Mae diffyg profion sicrhau ansawdd digonol yn gwaethygu'r problemau hyn. Mae angen unioni'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod cynnwys llythyrau yn gwella yn ogystal â'u hamseroldeb. Fodd bynnag, gwelsom rai llythyrau da iawn a oedd yn cynnwys y lefel briodol o wybodaeth ac a oedd wedi'u drafftio gan ddangos gofal a sylw gwirioneddol.

10.16 Roedd nifer o achosion yn ein gwaith archwilio ffeiliau lle nad oedd yr ardal wedi cydymffurfio â chanllawiau a chynnig cyfarfodydd. Mewn dau achos traffig y ffyrdd lle cafodd pobl eu lladd, ni chynigiwyd cyfarfodydd i'r teuluoedd yn unol â'r gwasanaeth estynedig y dylent ei dderbyn.

10.17 Anaml y cynhelir cyfweliadau â thystion cyn y treial a dim ond pedwar a gynhaliwyd yn ystod 2008-09. Nid yw'r heddlu yn mynd ati i gael datganiad personol gan y dioddefwr (VPS) yn rheolaidd ymhob achos perthnasol ac nid yw erlynwyr yn rhagweithiol wrth ofyn amdanynt. Amlygodd y gwaith archwilio ffeiliau mai dim ond mewn un allan o ddeg achos perthnasol yr oedd datganiad personol gan y dioddefwr ar gael.

10.18 O'r 13 o achosion perthnasol a gafodd eu dirwyn i ben, cysylltwyd â'r dioddefwr mewn chwech (46.2%) ohonynt er i'r cyfreithiwr fethu â chofnodi pa un a wnaed hyn ai peidio mewn dau ohonynt (15.4%).

**Mesurau arbennig**

10.19 Dylai erlynwyr ar ddyletswydd sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol yn ystod y cam cyhuddo i ategu unrhyw geisiadau am fesurau arbennig ar ddechrau'r achos.

10.20 Amlygodd ein gwaith archwilio ffeiliau nad yw'r angen am fesurau arbennig yn cael ei nodi cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn aml yn arwain at sefyllfa lle mae ceisiadau'n cael eu cyflwyno, ond yn rhy hwyr. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn â diffyg rhagweithedd wrth ystyried anghenion dioddefwyr a thystion adeg cyhuddo ac oedi wrth wneud gwaith paratoi dilynol. O'r gwaith archwilio ffeiliau, ymddengys y bydd y llys, o bryd i'w gilydd, yn gwrthod ceisiadau am eu bod yn hwyr. Fodd bynnag, ymddengys bod y penderfyniad i wrthod ceisiadau yn deillio o rwystredigaeth mewn perthynas â'r erlyniad ac weithiau caiff anghenion y tyst eu hystyried fel ffactor eilaidd. Os bydd mesurau arbennig wedi'u dyfarnu neu wedi'u gwrthod, mae'n bwysig hysbysu'r tyst o hynny, rhywbeth nad yw'n digwydd fel mater o drefn. Mae angen gwell cyfathrebu er mwyn hysbysu'r Uned Gofal Tystion o ganlyniad ceisiadau.

**Gofalu am ddioddefwyr a thystion yn y llys a'r driniaeth a gânt**

10.21 Yn gyffredinol roedd y Gwasanaeth Tystion yn gadarnhaol iawn ynghylch y ffordd roedd dioddefwyr a thystion yn cael eu trin yn y llys gan erlynwyr y CPS. Mae'r asiantaethau partner o'r farn bod y CPS yn cydymffurfio'n dda â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr ac Addewid yr Erlynwyr. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw asiantau'r CPS, yn arbennig yn Llys y Goron, yn cydymffurfio cystal ac nad ydynt mor barod â staff y CPS i wneud ymdrech gyda dioddefwyr a thystion. Gwelsom fod staff yn siarad â thystion mewn ffordd briodol a'u bod yn cael eu trin yn dda.

10.22 Er na welsom unrhyw achosion yn uniongyrchol, dywedwyd wrthym fwy nag unwaith ei bod yn gyffredin i achosion gael eu rhestru ar gyfer treial heb sicrhau bod y tystion ar gael a bod achosion yn aml yn cael eu trosglwyddo i lysoedd eraill waeth beth fo'u pellter, a hynny weithiau ar ôl i'r ymweliadau ymgyfarwyddo â'r llys gael eu cynnal. O fewn ein gwaith archwilio ffeiliau, roedd nifer o achosion lle na nodwyd yn y papurau pa un a oedd y tystion ar gael ai peidio. Roedd yr achosion hyn wedi'u rhestru ar gyfer treial yn y gwrandawiad cyntaf ac wedi'u dirwyn i ben gan nad oedd y tystion yn bresennol, heb fawr syndod.

10.23 Mae gwrthod ceisiadau i ohirio yn niweidiol i ddioddefwyr a thystion ni waeth pwy sydd 'ar fai' am y cais i ohirio. Er enghraifft, mewn un achos o drais yn y cartref, nid oedd gan yr erlynydd ffeil yn y llys, gwrthodwyd y cais i ohirio a gwrthododd y fainc yr achos am nad oedd erlyniad. Yn dilyn hynny, bu'n rhaid adfer yr achos gan achosi mwy o oedi i'r dioddefwr.

**Casgliad**

10.24 Er gwaethaf y ffaith bod rhai anawsterau fel y nodir yn yr adroddiad, roedd y tystion y siaradwyd â hwy yn ystod yr arolygiad hwn yn gyffredinol fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i gael gan yr heddlu, y CPS a'r Uned Gofal Tystion. Roeddent yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth drwy gydol y broses a bod unrhyw ymholiadau neu gwestiynau a oedd ganddynt wedi cael eu hateb.

10.25 Defnyddir yr arolwg cenedlaethol o foddhad dioddefwyr a thystion (WAVES) i fonitro boddhad. Mae'r LCJB wedi pennu targed o 79%. Ar hyn o bryd, mae'r ardal ar y trywydd cywir i gyflawni'r targed hwn os bydd y perfformiad yn dilyn y tuedd cyfredol ond mae ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 83%.

10.26 Roedd y Gwasanaeth Tystion a Chymorth i Ddioddefwyr o'r farn bod CPS Gwent yn gwneud gwaith cymharol dda. Prin yw'r adborth anffafriol a gânt gan ddioddefwyr a thystion am y ffordd y caiff y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr ei gymhwyso, gofal i dystion na materion sy'n gysylltiedig ag Addewid yr Erlynwyr.

10.27 Ni waeth faint y mae'r prosesau a'r systemau sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr a thystion wedi gwella na pha mor dda y caiff dioddefwyr eu trin yn y llys, mae'r achosion o oedi a safon wael y gwaith achos a'r broses o wneud penderfyniadau a amlinellir drwy gydol yr adroddiad hwn yn golygu nad yw llawer o ddioddefwyr yn cael gwasanaeth da gan y CPS, nac yn wir gan y system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol. Nid yw'r CPS a'r heddlu yn cydweithio'n dda fel tîm erlyn. Mae'r llysoedd yn ddealladwy yn cael eu digio gan fethiant y tîm erlyn i sicrhau bod achosion yn barod i ddechrau ar yr adeg briodol. Serch hynny, dioddefwyr troseddau yng Ngwent yw'r rhai sy'n dioddef mewn gwirionedd. Mae angen i'r ardal ymgysylltu â phartneriaid a gweithio gyda hwy i wella'r gwasanaeth cyffredinol a gynigir ganddi i ddioddefwyr fel mater o fyrder.

10.28 Aseswyd mai gradd gyffredinol yr agwedd hon yn seiliedig ar y fframwaith arolygu oedd gweddol. Mae hyn o ganlyniad i'r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud i brosesau o fewn yr Uned Gofal Tystion a lefelau uwch o gydymffurfiaeth â'r cynllun DCV. Fodd bynnag, fel yr amlinellir mewn rhannau eraill o'r adroddiad, mae angen gwella'r gwasanaeth cyffredinol a gynigir i ddioddefwyr yng Ngwent gan y system cyfiawnder troseddol yn sylweddol er mwyn iddo gyrraedd lefel ddigonol.

**ARGYMHELLIAD**

Dylai'r ardal weithio gyda phartneriaid i wella prosesau sy'n helpu dioddefwyr a thystion.

Dylai'r ardal sicrhau bod ansawdd llythyrau cyfathrebu uniongyrchol â dioddefwyr yn gwella a bod prosesau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith.

| 11 RHEOLI PERFFORMIAD ER MWYN GWELLA | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

**Atebolrwydd a dadansoddi data**

11.1 Mae swyddog perfformiad yr ardal yn cynhyrchu dau adroddiad cynhwysfawr iawn bob mis. Mae'r adroddiad rheoli perfformiad yn darparu sail ar gyfer adolygu perfformiad yn fewnol a defnyddir adroddiad perfformiad cyhuddo statudol y tîm erlyn gyda phartneriaid yn yr heddlu i drafod perfformiad. Mae'r ddau adroddiad yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o ystadegau perfformiad ac yn defnyddio graddau "coch", "ambr" a "gwyrdd" i amlygu perfformiad gwirioneddol yn erbyn targedau. Er bod yr adroddiadau yn gynhwysfawr, prin iawn yw'r dystiolaeth o waith dadansoddi a geir ynddynt.

11.2 Mae'r adroddiad perfformiad mewnol yn darparu sail ar gyfer trafodaethau gyda'r grŵp rheoli perfformiad. Bydd penaethiaid unedau a Rheolwr Busnes yr Ardal yn mynychu cyfarfod gyda'r uwch reolwr gyfreithiwr. Fodd bynnag, ymddengys nad yw perfformiad gwael yn cael ei herio gyda methiant i weithredu i ddod o hyd i atebion neu wella yn dilyn misoedd ar fisoedd o raddau coch.

11.3 Mae'r rhan fwyaf o staff yn ymwybodol o sut mae'r ardal yn perfformio, defnyddir hysbysfyrddau i'w hysbysu o berfformiad a rhoddir adborth mewn cyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, ymddengys fod diffyg dealltwriaeth gwirioneddol o'r hyn sy'n sail i ganlyniadau perfformiad yr ardal. Yn llawer rhy aml, roedd y staff yn teimlo mai pobl eraill oedd yn achosi'r problemau. Roedd diffyg atebolrwydd personol neu realaeth amlwg o ran yr hyn a allai fod yn achosi'r canlyniadau a phrin iawn oedd yr ymwybyddiaeth fod angen gwella. Mae'r CCP newydd wedi mynd ati'n gyflym i nodi rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar berfformiad yr ardal ac wedi dechrau ymdrin â rhai o'r achosion sylfaenol.

11.4 Er mwyn ymdrin â'r materion a amlygir drwy gydol yr adroddiad, mae'n hanfodol bod yr ardal yn rhoi cyfundrefn rheoli perfformiad ar waith sy'n seiliedig ar safonau wedi'u cyfleu'n glir. Mae cyfundrefn o'r fath ar waith ar gyfer prosesau gweinyddol a gellir ei defnyddio fel sylfaen gadarn. Fodd bynnag, mae canlyniadau ein gwaith archwilio ffeiliau yn dangos bod problemau difrifol o ran ansawdd y broses o wneud penderfyniadau ac ymdrin ag achosion. Mae angen i'r ardal bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad y gellir mesur gwelliant yn ei herbyn. Mae'r diffyg arweinyddiaeth ac anghysondeb o ran disgwyliadau a safonau rheolwyr wedi caniatáu i rai fynd drwy'r rhwyd ac ni heriwyd perfformwyr gwael; mae angen i hyn newid.

11.5 Adeg yr arolygiad, roedd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus wrthi'n datblygu safonau a fydd yn llywodraethu gwaith y CPS. Yng Ngwent, mae angen dull gweithredu cadarn er mwyn sicrhau bod y safonau a ddisgwylir yn cael eu deall a bod cyfundrefn rheoli perfformiad ar waith sy'n golygu bod gwaith yn cael ei gynnal yn broffesiynol a'i fod yn cyrraedd safon uchel.

**ARGYMHELLIAD**

Dylai'r ardal gyfleu'n glir y safonau proffesiynol sy'n ofynnol a datblygu cyfundrefn rheoli perfformiad gadarn i sicrhau y caiff gwaith ei gynnal yn broffesiynol a'i fod yn cyrraedd safon uchel.

**Gwaith monitro a sicrhau ansawdd**

11.6 Cynhelir profion sicrhau ansawdd gwaith achos (CQA) gan benaethiaid unedau. Dyma un dull y dylid ei ddefnyddio i asesu perfformiad cyfreithwyr. Prin iawn oedd yr ymwybyddiaeth ymhlith cyfreithwyr bod materion ac agweddau i'w gwella yn cael eu nodi gan yr asesiadau CQA. Roedd cyfreithwyr i weld yn ansicr a oeddent yn cael adborth o ganlyniad i ddadansoddiad CQA, ond gwnaethant nodi bod rheolwyr yn siarad gyda hwy weithiau am gamgymeriadau roeddent wedi'u gwneud. Ymddengys mai'r dewis ddull o roi adborth oedd mewn cyfarfodydd tîm. Roedd y diffyg adborth un i un uniongyrchol hwn yn aml iawn yn golygu bod y neges yn cael ei cholli a'i gwanhau. Mae rhai materion a godir mewn cyfarfodydd am berfformiad yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro; mae hyn yn amlygu'r ffaith nad yw negeseuon craidd yn cael eu clywed neu eu bod yn aml yn cael eu hanwybyddu. Yn ogystal, mae cyfarfodydd tîm yn aml yn canolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â'r llysoedd ynadon ac mae rhai o'r negeseuon pwysicach am waith Llys y Goron yn cael eu colli.

11.7 Mae rheolwyr gyfreithwyr hefyd yn hap-samplu gwaith achos ac yn llunio adroddiadau ar achosion anffafriol. Roedd ein gwaith archwilio ffeiliau yn cynnwys rhai o'r achosion anffafriol a ddadansoddwyd at ddiben cyflwyno adroddiadau. Roedd ein hasesiad o'r pwyntiau dysgu a'r materion i ymdrin â hwy yn llawer mwy helaeth na'r rheini a nodwyd gan yr ardal ac roedd gennym bryderon am yr asesiadau afrealistig a oedd yn cael eu gwneud. Mae'r diffyg realaeth a gymhwysir wrth ddadansoddi canlyniadau a pherfformiad yn golygu nad oes unrhyw ymwybyddiaeth wirioneddol ymhlith llawer o gyfreithwyr yr ardal am eu perfformiad eu hunain nac am unrhyw ddiffygion. Caiff hyn effaith uniongyrchol ar dargedau ac mae'n greiddiol i allu'r ardal i wella safonau.

---

**Agwedd ar gyfer gwella**

Mae angen i'r ardal sicrhau y caiff pwyntiau dysgu o adroddiadau achos anffafriol ac unrhyw system sicrhau ansawdd gwaith achosion eu bwydo yn ôl yn rheolaidd i gyfreithwyr unigol.

---

11.8 Caiff prosesau gweinyddol eu monitro'n effeithiol, er enghraifft, cynhelir proses hap-samplu o anfonebau, taliadau ffioedd a thrafodion ariannol eraill. Yn fwy diweddar, cynhaliwyd hap-sampl o gywirdeb cofnodion terfynol a'u gwirio.

11.9 Yn ogystal, cynhelir profion sicrhau ansawdd misol o CMS gan y rheolwyr busnes er mwyn sicrhau ansawdd y data a gofnodir, amseroldeb a'r broses tynnu sylw at achosion.

11.10 Roedd mwyafrif helaeth staff yr ardal yn cael arfarniad perfformiad. Mae amcanion y system arfarnu yn gyffredinol ar lefel tîm, ond roedd rhai amcanion personol a oedd wedi'u teilwra i'r unigolyn. Yn aml, nid oedd amcanion yn fesuradwy neu nid oeddent yn cynnwys terfynau amser. Roedd yn anodd gweld sut roedd y broses arfarnu yn cael ei defnyddio i wella perfformiad personol. Nid oedd llawer o'r rheolwyr wedi ystyried defnyddio amcanion personol fel ffordd o dargedu gweithgareddau gwella. Fel rhan o gyfundrefn rheoli perfformiad effeithiol, dylid defnyddio'r broses arfarnu i wella safonau ac ymdrin â rhai o'r gwendidau a nodwyd gennym.

**Rheoli perfformiad ar y cyd**

11.11 Tanseiliwyd ansawdd yr hyn a gyflawnir yn yr ardal gan safon wael gwaith llunio ffeiliau'r heddlu ers sawl blwyddyn. Amlygodd yr adroddiad arolygu diwethaf ein pryderon. Er mwyn gwella'r sefyllfa yn effeithiol, dylid creu partneriaeth gref rhwng yr heddlu a'r CPS sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch. Mae'r strwythur PTPM yn adnodd allweddol yn hyn o beth.

11.12 Fel yr amlinellwyd gennym mewn rhan arall, nid yw'r diwylliant partneriaeth yn yr ardal wedi llawn aeddfedu. Mae cyfarfodydd PTPM i ymdrin â pherfformiad gwael wedi methu. Er bod y cyfarfodydd hyn wedi'u hategu gan adroddiadau perfformiad manwl, nid ydynt yn dadansoddi nac yn nodi'r materion allweddol. Yn ogystal â'r ffaith na chytunir ar y data yn yr adroddiad, ceir tensiwn yn deillio o'r ffaith nad oes unrhyw ymddiriedaeth rhwng partneriaid. Dengys cofnodion fod trafodaethau yn canolbwyntio ar nodi'r problemau sy'n digwydd dro ar ôl tro ac ar fwrw bai yn hytrach na gweithio mewn partneriaeth i ddod o hyd i atebion a allai arwain at welliannau mewn perfformiad.

11.13 Mae nifer o uwch reolwyr a rheolwyr canol wedi cymryd rhan ar Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Gwent (GCJB). Bu ffocws y gweithgaredd ar yr is-grŵp rheoli perfformiad a materion yn ymwneud â dioddefwyr a thystion. Roedd y cadeirydd presennol o'r farn bod angen dychwelyd at hanfodion ac ad-drefnu'r Bwrdd a'i is-grwpiau mewn ffordd a fyddai'n canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau allweddol gyda'i gilydd. Roedd y Bwrdd wrthi o hyd yn datblygu ei strwythurau diwygiedig yn ystod yr arolygiad.

11.14 Er bod tystiolaeth ar draws yr ardal i ddangos bod staff ar y lefel weithredol yn cydweithio i gyflawni'r busnes o ddydd i ddydd, nid yw mor glir pa gamau a gymerwyd ar lefel partneriaeth i wella perfformiad ar y cyd. Yn Llys y Goron, mae cyfarfodydd y grŵp defnyddwyr yn ystyried perfformiad. Mae hyn yn rhoi cyfle i weithredu ond mae natur y cyfarfodydd yn ei gwneud hi'n anodd nodi sut y gallant wella perfformiad. Ystyriwyd bod cyfarfodydd datblygu achosion ar gyfer achosion y llysoedd ynadon yn aneffeithiol ac nid ydynt yn cael eu cynnal mwyach. Mae swyddogion datblygu achosion yn cyfathrebu ar lefel waith ond nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr ardal yn ystyried sut y gall wella ei pherfformiad drwy weithio gyda phartneriaid ar lefel strategol. Ymddengys fod partneriaid yn amharod i newid ac nad oes unrhyw awydd gwirioneddol i gydweithio er mwyn gwella effeithiolrwydd.

**ARGYMHELLIAD**

Dylai'r ardal weithio gyda phartneriaid a defnyddio cyfarfodydd perfformiad ar y cyd fel ffordd o wella safonau a gwella'r gwasanaeth a gynigir ganddi i'r cyhoedd.

| 12 RHEOLI ADNODDAU | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

**Gwerth am arian a rheolaeth gyllidebol**

12.1 Fel yr amlinellwyd ym mhennod 6, rhoddwyd pwyslais mawr ar greu uned eiriolaeth y goron. Mae'r pwyslais hwn wedi cael effaith ddifrifol ar nifer o agweddau ar berfformiad yr ymdriniwyd â hwy gennym mewn rhannau eraill o'r adroddiad. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar greu corff o eiriolwyr y goron hefyd yn ffactor craidd o ran achosi gorwariant sylweddol yng nghyllidebau'r ardal. Yn ystod 2008, amlinellodd Rheolwr Busnes yr Ardal (ABM) y pryderon hyn i'r CCP (sydd bellach wedi gadael) a chyflwynodd hefyd ei farn o ran beth y byddai'r strategaeth leol yn ei olygu o ran y gyllideb ar gyfer 2009-10. Yn y diwedd, gorwariwyd dros £138,000 ar gyllideb 2008-09. Fodd bynnag, gan fod Pencadlys y CPS wedi dyrannu cyllid i wneud iawn am y gorwariant hwn, cofnodir y ffigur terfynol ar gyfer y flwyddyn at ddibenion cyfrifyddu fel tanwariant o £1,042. Mae hon yn enghraifft berffaith o sut y gall system wrthnysig o reoli perfformiad greu delwedd ffug. Ar ôl derbyn y cymorth hwn, symudodd Gwent o radd negyddol (coch) i radd gadarnhaol (gwyrdd) o gymharu ag ardaloedd eraill y CPS.

12.2 Gellir priodoli llawer o'r gorwariant i gostau ychwanegol recriwtio eiriolwyr y goron ac ôl-lenwi swyddi â staff tymor penodol. Mae'r ffocws ar eiriolaeth y goron wedi parhau yn 2009-10 ac yn erbyn cyllideb o £3,351,708, mae Gwent eisoes (ym mis Awst 2009) yn rhagweld gorwariant o fwy na £200,000. Er mwyn lleihau'r gorwariant a ragwelir, mae'r ardal wedi terfynu contractau tymor penodol gan gynnwys tri chyfreithiwr dros dro. Yn ogystal, trosglwyddwyd un eiriolwr y goron o fewn y CPS i Dde Cymru er mwyn ceisio lleihau costau cyflogau. Gwaharddwyd goramser ac mae'r ardal yn canolbwyntio ar sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau am arian ar draws amrywiaeth llawn y gwasanaethau a ddarperir.

12.3 Yn dilyn ymddiswyddiad y CCP adeg yr arolygiad, gwnaed penodiad newydd. O ganlyniad i'r pryderon a godwyd yn flaenorol gan yr ABM a'n canfyddiadau cychwynnol, gwnaed newidiadau i'r ffordd y caiff y strategaeth eiriolaeth ei gweithredu'n lleol. Er na fydd hyn o reidrwydd yn arwain at arbedion cyflog uniongyrchol, dylai helpu'r ardal i wella ansawdd y gwasanaeth a rhyddhau adnoddau i ymgymryd ag ymrwymiadau eraill.

12.4 Ni chaiff y gyllideb ei datganoli i benaethiaid unedau, fe'i rheolir gan yr ABM a chaiff ei rheoli'n ganolog drwy'r Ysgrifenyddiaeth. Mae'r cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Caiff y sefyllfa gyllidebol ei chyfleu i'r rheolwyr ac i'r staff mewn cyfarfodydd tîm. Gan fod y rhagamcanion presennol yn rhagweld gorwariant uchel iawn, caiff pob penderfyniad staffio ei reoli gan yr ABM.

12.5 Caiff gwariant ar gyflogau ei adolygu bob mis a'i broffilio er mwyn ystyried newidiadau hysbys, fel codiadau cyflog a chynyddrannau. Mae hyn yn galluogi'r ardal i olrhain ei chyllideb cyflogau yn effeithiol a nodi anghysondebau. Mae trywydd papur llawn ar gael ar gyfer pob anfoneb a phennir dirprwyaethau cyllidebol clir. Ategir rheolaethau cyllidebol gan hap-brofion rheolaidd gan y rheolwyr.

12.6 Mae systemau cadarn ar waith i fonitro costau erlyn. Yn 2008-09, cafwyd gorwariant bach iawn o £13,360 (1.2%) yn erbyn y gyllideb costau erlyn. Mae systemau effeithiol ar waith i fynd ar drywydd anfonebau nas talwyd gan y siambrau ac adlewyrchir hyn yn y ffaith bod ffioedd graddedig yn cael eu talu'n brydlon. Gwent oedd unig ardal y CPS i lwyddo i dalu 100% o'i thaliadau'n brydlon o fewn un mis ym mis Chwefror 2009 a gwnaeth 99% o'i thaliadau o fewn un mis ym mis Mawrth 2009. Cyflawnodd gydymffurfiaeth o 100% â'r gofyniad i dalu o fewn pedwar mis o ddyddiad y gwrandawiad olaf ar gyfer chwarter olaf cyfan 2008-09 ac mae ei chydymffurfiaeth ar gyfer chwarter cyntaf 2009-10 yn parhau ar lefel o 100%. Mae systemau cadarn ar waith hefyd i fonitro a nodi achosion â chostau uchel iawn.

**Defnyddio staff**

12.7 Nid aseswyd y newid i strwythurau sy'n gysylltiedig â chreu unedau cyfun a chyflwyno'r model busnes gorau (OBM) yn ffurfiol. Rhwystrwyd strategaeth staffio'r ardal i raddau gan y ffocws ar roi blaenoriaeth lwyr i greu uned eiriolaeth y goron. Rhwymedigaethau'r ardal o ran codi tâl am wasanaethau a sicrhau y rhoddir yr OBM ar waith yn effeithiol, yn ogystal â'r angen i ddarparu gwasanaeth ar gyfer gwrandawiadau yn y llysoedd ynadon, sy'n sail i'w strategaeth defnyddio staff. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae hyn wedi arwain at symud staff i ganolbwyntio ar waith y llysoedd ynadon, a hynny ar draul gwaith paratoi achosion yn Llys y Goron.

12.8 Ymddengys mai mewn enw yn unig y mae'r strwythur cyfun presennol yn bodoli. Roedd rhaniad amlwg iawn rhwng gwaith y llysoedd ynadon a gwaith Llys y Goron wrth edrych ar systemau a phrosesau. Yn ystod cyfweliadau, nododd staff eu bod naill ai'n staff llysoedd ynadon neu'n staff Llys y Goron ac roedd teimlad bod gwaith y llysoedd ynadon bob amser yn cael blaenoriaeth ar draul gwaith Llys y Goron. Mae angen i'r ardal gynnal adolygiad o'i strwythur. Rhaid i'r adolygiad hwn ystyried pa flaenoriaeth y gall fforddio ei rhoi ar uned eiriolaeth y goron a'r cydbwysedd cyfreithwyr y bydd ei angen i gyflawni ei hymrwymiadau, er mwyn ceisio gwneud arbedion. Rhaid hefyd cynnwys y gostyngiad o dros 20% yn llwyth achosion llysoedd ynadon a 7% yn llwyth achosion Llys y Goron wrth ystyried anghenion staffio ac anghenion busnes a strwythur yr ardal ar gyfer y dyfodol.

12.9 Yn ogystal, nid yw'r strwythur rheoli presennol yn effeithiol. Mae'r rhesymeg sy'n sail i'r strwythur yn rhannol hanesyddol. Mae'r penderfyniad i symud i unedau cyfun a chreu uned eiriolaeth gyda'i rheolwr ei hun wedi cynhyrchu strwythur 'pendrwm' lle na chaiff cyfrifoldebau eu dyrannu'n glir. Rhaid i unrhyw adolygiad ystyried y strwythur rheoli sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau a nodir drwy gydol yr adroddiad hwn.

12.10 Fel rhan o'r ymgais i nodi arbedion cost, adolygodd yr ardal ei threfniadau cymorth gweinyddol. Roedd dau bwrpas i'r adolygiad hwn, sef asesu pa un a oedd y systemau cymorth yn addas at y diben a pha un a ellid gwneud arbedion neu welliannau. Asesodd yr ABM gyfres o argymhellion a gwnaed penderfyniadau i fabwysiadu'r newidiadau hynny a oedd yn fforddiadwy. Cynhyrchodd yr adolygiad gyfres glir o brosesau a strwythurau o ran gweinyddu ac mae'n ei gwneud yn bosibl pennu cyfrifoldebau ac atebolrwydd.

12.11 Mae'r defnydd a wneir o staff mewnol yn y llysoedd ynadon, sef 83.7%, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (85.5%) ac yn is na tharged Gwent ei hun, sef 90%; fodd bynnag, mae hyn wedi cynyddu o 77.7% yn 2007-08. Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd yn y defnydd o erlynwyr cyswllt o 17.0% i 19.6%, gan fethu targed yr ardal o 20% o drwch blewyn. Lluniwyd protocol rhestru'r llysoedd ynadon mewn ffordd sy'n galluogi'r ardal i ddefnyddio erlynwyr cyswllt cymaint â phosibl.

Mae'r defnydd o asiantau, sef 16.3% ar gyfer 2008-09, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 14.5%. Nododd yr ardal gan fod nifer o gyfreithwyr tymor penodol wedi'u colli a bod pwyslais wedi'i roi ar gyflawni gwaith Llys y Goron, yn ogystal â'r angen i ddarparu adnoddau i'r OBM a'r canolfannau cyhuddo, fod angen asiantau er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau. Mae'n hanfodol, fel rhan o'r adolygiad staffio a argymhellir uchod, bod yr ardal yn ardal asesu pa un a yw'n cael y budd mwyaf posibl o'r ffordd y caiff ei chyfreithwyr eu defnyddio ar hyn o bryd. Arsylwodd yr arolygwyr sesiynau cyhuddo lle nad oedd unrhyw apwyntiadau wyneb yn wyneb a sesiynau llys nad oedd yn cael eu llenwi a lle nad oedd llawer o achosion wedi'u dyrannu iddynt. Mae angen i gyfreithwyr gael eu defnyddio'n llawn er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl a bydd angen i'r ardal ystyried sut y gall gael gafael ar wybodaeth reoli i'w galluogi i wneud penderfyniadau effeithiol.

12.12 Caiff absenoldeb oherwydd salwch ei fonitro a'i gynnwys yn adroddiad rheoli perfformiad yr ardal. Yr absenoldeb cyfartalog ar adeg yr OPA oedd 6.4 diwrnod (hyd at Ragfyr 2006). Y cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn dreigl ddiwethaf hyd at fis Gorffennaf 2009 oedd 5.7 diwrnod. Mae Gwent yn gweithredu systemau monitro salwch yn unol â chanllawiau'r CPS ac mae wedi defnyddio'r cyfleusterau iechyd galwedigaethol i fynd i'r afael â rhai o'r achosion o salwch hirdymor. Roedd tystiolaeth bod yr ardal yn ymdrin â salwch byrdymor yn effeithiol.

**Gweithio hyblyg**

12.13 Mae gan yr ardal nifer o staff rhan amser y cytunwyd ar eu telerau a'u hamodau beth amser yn ôl. Mae'r cytundebau hanesyddol hyn yn cyflwyno her i'r ardal o ran cyflawni ei rhwymedigaethau presennol. Mae'r ardal wedi datblygu systemau clir i ymdrin â cheisiadau newydd i weithio'n hyblyg. Mae anghenion busnes yn cael blaenoriaeth a gwrthodwyd ceisiadau nad ydynt yn diwallu'r angen busnes. Mynegodd yr ardal rai pryderon nad yw arferion cyflogaeth presennol y CPS bob amser yn cefnogi rheolwyr wrth iddynt geisio cysoni anghenion busnes â gweithio hyblyg. Yn gyffredin ag ardaloedd eraill, dylai CPS Gwent adolygu ei drefniadau gweithio rhan amser hanesyddol gan anelu at ailnegodi er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gyson â'r anghenion busnes presennol.

### ARGYMHELLIAD

Dylai'r ardal adolygu ei strwythurau rheoli a'i strwythurau trefniannol presennol er mwyn sicrhau ei bod yn y sefyllfa orau i gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig.

| 13 ARWEINYDDIAETH, RHEOLAETH A GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Gweddol | **Gwael** | **Wedi gwaethygu** |

**Diben a chynllunio**

13.1 Nododd yr arolygiad blaenorol ym mis Mai 2007 fod angen i'r gwasanaeth weithredu'n gyflym fel mater o frys i benodi CCP parhaol. Gwnaed penodiad ym mis Awst 2007. Yn ystod y cyfweliadau, roedd yn amlwg bod staff o'r farn y byddai hyn yn ddechrau newydd ac y byddai ganddynt gymorth oddi uchod gyda phartneriaid a CCP a fyddai'n arwain drwy esiampl, yn amlinellu gweledigaeth ac yn pennu amcanion clir i'r ardal ddatblygu a gwella.

13.2 Byrhoedlog fu'r brwdfrydedd hwn. Roedd y CCP o'r farn, o ystyried hanes yr ardal a statws uwch reolwyr eraill, y dylai droedio'n ofalus a gadael iddynt barhau i fod yn gyfrifol am yr agweddau rheoli allweddol, gan gynnwys ansawdd gwaith achos. O ganlyniad, ni chafodd Gwent yr arweinyddiaeth yr oedd ei hangen arni i ymdrin â'r anawsterau parhaus a fodolai ers cryn amser, yn arbennig natur y gydberthynas â phartneriaid cyfiawnder troseddol, dirywiad mewn perfformiad ac arferion gwaith a phrosesau ymdrin ag achosion anghyson ac weithiau gwael. Wedi hynny, nid aed i'r afael â'r materion hyn yn foddhaol.

13.3 Roedd y diffyg gweledigaeth a'r ffaith nad oedd unrhyw gymorth clir ar gael wrth ymdrin â phartneriaid yn siomedig ac yn effeithio ar gymhelliant staff. Er i rai o aelodau'r tîm rheoli ymdrechu'n galed i lenwi'r bwlch gan weithio fel tîm i sicrhau bod yr ardal yn cyflawni ei busnes, cafodd y diffyg arweinyddiaeth, cymorth ac awdurdod o'r brig effaith ddifrifol yn fewnol ac yn allanol gyda phartneriaid.

13.4 Chwaraeodd yr ABM ran arweiniol wrth ddatblygu cynllun busnes yn amlinellu amcanion, cerrig milltir ac atebolrwydd dros gyflawni. Ategwyd y cynllun hwn hefyd gan gynllun gweithredu a ddefnyddiodd yr OPA diwethaf fel adnodd i nodi a rheoli'r agweddau ar berfformiad yr oedd angen eu gwella. Adolygodd rheolwyr yr ardal y cynllun busnes a chynllun gweithredu'r OPA bob chwarter. Gwnaed asesiad o weithgaredd a pherfformiad er mwyn gweld ble roedd yr ardal arni mewn perthynas â'i hamcanion a'i cherrig milltir. Yn aml iawn roedd dadansoddiad yr ardal o gynnydd yn erbyn y rhestr weithredu a'r cynllun busnes yn or-gadarnhaol. Yn ogystal, nid ymdriniwyd â nifer o faterion a oedd yn aros i'r CCP a rhai penaethiaid unedau weithredu mewn perthynas â hwy. Dylid canmol rhagweithedd yr ABM wrth geisio defnyddio'r OPA a'r cynllun busnes i ysgogi gweithgaredd a gwelliannau mewn perfformiad ac o dan wahanol amgylchiadau, dylai fod wedi gweithredu fel catalydd i ysgogi gwelliannau.

13.5 Roedd gan y diffyg arweinyddiaeth oblygiadau o ran gallu uwch reolwyr a rheolwyr canol eraill yn yr ardal. Gadawyd y rheolwyr canol mewn sefyllfa lle nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth (nododd rhai ohonynt nad oeddent wedi gweld y CCP yn unigol fwy na dwywaith ers ei benodi), lle nad oeddent yn gallu gwneud penderfyniadau gan nad oedd awdurdod ganddynt ac, ar adegau, yn llawn cywilydd ac yn amharod i gymryd risg debyg yn y dyfodol. Roedd y diffyg cefnogaeth a gweledigaeth hwn yn amlwg i bob aelod o staff yn yr ardal gan dreiddio i'r ethos cyffredinol.

13.6 Gwaethygwyd effaith y diffyg cyfeiriad o'r brig gan brofiad blaenorol y tîm rheoli. Dogfennir hanes blaenorol yr ardal mewn adroddiadau arolygu blaenorol. Yn gryno, mae wedi dioddef diffyg arweinyddiaeth bendant ers 2004. Roedd llawer o aelodau'r tîm rheoli yn eu swydd yn ystod y cyfnod hwn. Ymddengys fod rhywfaint o amharodrwydd wedi bod ymhlith aelodau dethol o'r tîm i ymdrin â rhai o'r problemau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod anodd hwn yn hanes rheoli Gwent. O ganlyniad i'r amharodrwydd hwn, ynghyd â diffyg effeithiolrwydd ymhlith uwch reolwyr a rheolwyr canol eraill, nid oedd unrhyw neges gyson o ran disgwyliadau am berfformiad, safonau gwaith ac ymddygiad, na sut i ymdrin â rhai o'r materion partneriaeth anos. Ymdrechodd nifer o reolwyr yn yr ardal i lenwi'r bwlch: dywedwyd yn aml wrth y tîm arolygu fod rhai wedi gwneud eu gorau i gadw ar y trywydd cywir ac wedi gweithio'n ddiflino i geisio gwella'r sefyllfa. Roedd partneriaid yn awyddus i bwysleisio i'r arolygwyr fod diffyg awdurdod ar rai lefelau yn golygu ei bod yn anodd gwneud cynnydd. Roedd awydd i ymdrechu ond hefyd ymdeimlad o rwystredigaeth nad oedd yn bosibl gwneud cynnydd oherwydd diffyg cefnogaeth a gweledigaeth amlwg.

13.7 Fel yr amlinellir ym mhennod 11, mae angen dirfawr i'r ardal roi cyfundrefn rheoli perfformiad ar waith; mae'r diffyg cyfeiriad wedi golygu y bu'n amhosibl pennu fframwaith sicrhau ansawdd effeithiol a chyson ar lefel cyfreithwyr. Roedd diffyg cysondeb a chadernid mewn adborth yn amlwg iawn i'r arolygwyr. Aed i'r afael â phenderfyniadau a chanlyniadau achos gwael mewn ffordd ad hoc. Roedd rheolwyr canol yn aml yn rhy brysur yn 'diffodd tân' i gynnal profion rheoli effeithiol. Lle y cymerwyd camau i ymdrin â materion, roedd hynny'n aml yn digio aelodau o staff gan nad oedd unrhyw hanes o gyfundrefn rheoli perfformiad effeithiol. Mae llawer o'r cyfreithwyr wedi bod yn eu swydd ers cyfnod hir a chan nad oedd disgwyliadau yn cael eu cyfleu'n glir ac yn gyson, mae safonau proffesiynol wedi gostwng ac ni roddir y gofal a'r sylw y maent yn eu haeddu i achosion. Mae negeseuon anghyson a diffyg disgwyliadau clir wedi rhoi cyfle i'r rheini nad oeddent am gael eu rheoli i ffynnu.

13.8 Mae angen i'r ardal symud i sefyllfa lle y mae ganddi dîm rheoli effeithiol a all arwain drwy esiampl. Mae'n hanfodol bod y Gwasanaeth yn rhoi cymorth canolog i'r ardal atgyfnerthu'r tîm rheoli. Mae angen i'r ardal sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'r hyn a ddisgwylir ganddynt a bod y rheini mewn swydd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol ac yn cael y gefnogaeth briodol i gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen.

**Gweithio mewn partneriaeth**

13.9 Amlygodd adroddiad arolygu 2007 y ffaith bod tensiynau yn datblygu rhwng partneriaid a bod diwylliant o fwrw bai yn dod i'r amlwg. Yn ystod yr arolygiad hwn, daeth yn amlwg iawn i'r arolygwyr nad oedd y sefyllfa wedi gwella ac mai prin iawn oedd yr ymddiriedaeth rhwng partneriaid neu o ran gallu'r CPS i gyflawni. Ar fwy nag un achlysur, cyflwynwyd tystiolaeth i'r arolygwyr o drywyddau archwilio i ddangos pwy oedd ar fai. Pan heriwyd yr ymagwedd hon gan nodi nad oedd yn arwydd o gydberthynas effeithiol o ymddiriedaeth, yn rhy aml o lawer, yr ymateb oedd bod angen i'r asiantaeth weithredu yn y fath fodd er mwyn diogelu ei sefyllfa.

13.10 Ni ellir bwrw'r bai i gyd am y problemau ar y CPS. Ond mewn sawl achos, ymddengys mai prin iawn oedd yr hunanymwybyddiaeth o fewn y CPS o'r angen i roi trefn ar ei fusnes ac o fewn yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gyffredinol o'r effaith roedd y camau a gymerwyd ganddynt yn ei chael ar bartneriaid cyfiawnder troseddol. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn yn dangos diffyg aeddfedrwydd o ran cydberthnasau partneriaeth sy'n ei gwneud hi'n anodd iawn dod o hyd i atebion ac ysgogi gwelliannau ar y cyd. Mae angen i'r ardal weithio gyda phartneriaid mewn ffordd agored ac onest, derbyn cyfrifoldeb dros ei methiannau ei hun a hefyd herio asiantaethau eraill mewn ffordd adeiladol.

13.11 Penodwyd CCP newydd yn ystod yr arolygiad. Roedd partneriaid cyfiawnder troseddol yn awyddus i bwysleisio i'r arolygwyr bod 'mwy o gynnydd wedi'i wneud yn y pythefnos diwethaf nag a wnaed yn y pum mlynedd diwethaf' (ers i'r CCP newydd ddechrau yn ei swydd).

**Rheoli newid**

13.12 Mae'r ardal wedi gwneud rhai newidiadau sylweddol - symud swyddfeydd, newid strwythurau ei thimau mewnol a gweithredu OBM a'r broses symlach. Er y cynlluniwyd ar gyfer pob newid ac y rhoddwyd pob newid ar waith, ni wireddwyd buddiannau'r newidiadau yn llawn am na lwyddwyd i ddatrys problemau sylfaenol, yn arbennig trefniadau gweithio gwael gyda'r heddlu. Er enghraifft, nid oedd y tîm gweithredu cenedlaethol wedi cymeradwyo'r broses symlach eto ac mae llawer i'w wneud cyn y gellir datgan ei bod yn effeithiol. Rydym yn cael ar ddeall iddi gael ei chymeradwyo ym mis Tachwedd 2009 a bydd arolygwyr yn ystyried ei heffeithiolrwydd fel rhan o'r trefniadau arolygu dilynol.

13.13 Roedd diffyg ymwybyddiaeth ar draws yr ardal am rai o oblygiadau newid. Mae ymgysylltu effeithiol â'r staff yn greiddiol i gyflwyno mentrau newid yn llwyddiannus; mae angen i staff ddeall beth y mae'n ei olygu o ran yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud a'r hyn y dylent ei ddisgwyl. Mae angen cysylltu'r broses ymgysylltu hon â diwylliant o reoli perfformiad sy'n rhoi arwydd clir o'r hyn a ddylai ddigwydd os na fodlonir disgwyliadau a pha lwybrau gweithredu y dylid eu dilyn. Nid oedd yr eglurder hwn i'w weld mewn perthynas â rhyngwyneb cyfrifiadurol EXISS CMS na'r broses symlach.

**Sgiliau a hyfforddiant staff**

13.14 Mae Gwent yn gweithio gydag ardaloedd eraill y CPS yng Nghymru i ddarparu hyfforddiant ledled y wlad. Nodir anghenion a blaenoriaethau hyfforddi mewn cynllun hyfforddi grŵp. Ceir cysylltiadau â blaenoriaethau a nodir anghenion a datblygiad personol yn unol ag amcanion hefyd. Caiff anghenion hyfforddi unigolion gefnogaeth lawn gan y rheolwyr. Yn unol ag adroddiadau blaenorol, mynegwyd pryderon am y diffyg hyfforddiant perthnasol i reolwyr ac aelodau o staff nad oeddent yn gyfreithwyr yn ogystal â'r mater o gael lle ar gyrsiau hyfforddiant, sy'n llenwi'n gyflym iawn.

13.15 Mae'r ardal hefyd wedi defnyddio modiwlau e-ddysgu'r Coleg Erlyn yn effeithiol gan sicrhau bod hyfforddiant gorfodol a'r agweddau hynny sy'n ategu swyddi presennol yn cael eu darparu.

13.16 Rhaid i Went ddefnyddio unrhyw gyfundrefn rheoli perfformiad newydd i nodi meysydd o wendid a thargedu hyfforddiant. Bydd creu diwylliant o reoli perfformiad yn galluogi rheolwyr i nodi agweddau sy'n achosi problemau ar lefel gyffredinol ac ar lefel unigolion.

**Cyfathrebu, moeseg, ymddygiad a gwerthoedd**

13.17 Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae angen sicrhau bod negeseuon mwy cyson yn cael eu cyfleu i'r staff. Yn gyntaf, mae angen i'r ardal ffurfioli'r disgwyliadau ar gyfer ei rheolwyr. Unwaith y bydd hyn wedi digwydd, rhaid iddi weithio i gyflwyno neges gorfforaethol, gyson i bob aelod o staff o ran safonau a disgwyliadau. Drwy gydol yr arolygiad, roedd yn amlwg iawn bod y staff ar raddau gweinyddol yn deall eu rolau a'u diben yn glir a bod disgwyliadau clir yr oeddent yn cael eu rheoli yn eu herbyn. Nid oedd hyn yr un mor amlwg ar raddau cyfreithwyr.

13.18 Cynhelir cyfarfodydd tîm llawn yn rheolaidd wedi'u hategu gan gyfarfodydd ar wahân i'r tîm gweinyddol.

13.19 Mae'r tensiynau yn yr ardal wedi golygu y bu'n rhaid i'r ABM atgoffa staff am urddas yn y gwaith a pharch tuag at eraill. Mae enghreifftiau o'r staff yn beirniadu partneriaid yn agored, weithiau yn y llys, gan danseilio hyder yn y system. Mae'r diwylliant o fwrw bai yn amlwg ac roedd cryn dipyn o dystiolaeth i ategu canfyddiadau partneriaid bod tensiynau gwirioneddol rhwng yr heddlu a'r CPS. Mae angen i'r ardal ddatblygu strategaeth gyfathrebu fewnol er mwyn rheoli teimladau o rwystredigaeth a thensiwn. Dylid sicrhau bod cyfle yn y cyfarfodydd tîm llawn a chyfarfodydd rheolaidd y tîm gweinyddol i gyfleu negeseuon allweddol.

13.20 Cyflwynwyd un gŵyn ffurfiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gellid bod wedi osgoi'r gŵyn hon pe bai safonau a disgwyliadau clir ar waith. Yn ogystal, rydym yn pryderu ynghylch yr oedi wrth ymdrin â'r mater a lefel y gefnogaeth a roddwyd gan y rheolwyr o ganlyniad i'r gŵyn.

### ARGYMHELLIAD

Dylai'r ardal bennu gweledigaeth glir i CPS Gwent a gaiff ei chyfleu'n effeithiol i'r staff a'i phartneriaid.

Dylai'r ardal ddatblygu cyfres glir o safonau ymddygiad y dylid eu rhoi ar waith yn gyson.

| 14 HYDER Y GYMUNED | OPA 2007 | AB 2009 | Cyfeiriad teithio |
|---|---|---|---|
| | Da | **Gweddol** | **Wedi gwaethygu**[9] |

**Ymgysylltu â'r gymuned**

14.1 Mae'r ardal wedi datblygu cynllun gweithredu ymgysylltu â'r gymuned sy'n cynnwys pob aelod o staff sydd ag amcan personol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ymgysylltu. Mae cofnodion yn y cofnod ymgysylltu â'r gymuned yn dangos bod yr ardal wedi gwneud cryn dipyn o waith ac wedi codi proffil y CPS yn lleol. Bu ffocws penodol ar godi proffil ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig drwy fynychu digwyddiadau allweddol, yn ogystal â sicrhau bod proffil y CPS i'w weld yn amlwg mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd.

14.2 Mae staff yn mynd i ddigwyddiadau cymunedol sy'n adlewyrchu eu meysydd arbenigedd. Mae arweinydd trais yn erbyn merched yr ardal yn mynychu grwpiau sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â thrais a thrais yn y cartref; mae'r arweinydd troseddau casineb yn mynychu cyfarfodydd gyda grwpiau perthnasol sy'n ymdrin â materion anabledd; ac mae'r arweinydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn mynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth Lleihau Trosedd ac Anhrefn. Ar ôl mynychu digwyddiadau, cwblheir adroddiad a rhoddir adborth misol i dîm rheoli'r ardal. Fodd bynnag, nid ymddengys bod unrhyw asesiad effeithiol wedi'i gynnal o werth y gwaith ymgysylltu a'r effaith a gaiff, os o gwbl, ar waith achos.

14.3 Mae Gwent yn ardal beilot i'r rhaglen erlynwyr cymunedol. Mae'r broses weithredu yn mynd rhagddi ond megis dechrau y mae'r gwaith ac ni chynhaliwyd unrhyw asesiad ffurfiol o'r effaith. Ymddengys fod adborth cynnar yn dangos gwell ymwybyddiaeth o bryderon cymunedol mewn ardal benodol yng Ngwent a pharatowyd pecyn gwybodaeth gyda chynllun o'r ardaloedd amlwg lle ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r erlynwyr ar ddyletswydd ei ystyried wrth gyhuddo unigolion o'r lleoliad penodol hwnnw o droseddau.

14.4 Ymddengys fod y gydberthynas â'r cyfryngau yn ddigonol gyda sawl stori newyddion dda yn cael ei chyhoeddi yn y wasg leol am waith y panel craffu ar droseddau casineb ac achosion llwyddiannus lle y llwyddwyd i atal ac atafaelu elw troseddau. Mae'r ardal yn ystyried sut i wella ymwybyddiaeth leol drwy'r cyfryngau ac mae'n awyddus i fod yn llawer mwy rhagweithiol yn hyn o beth.

14.5 Mae hyder y gymuned yn yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Ngwent yn waeth na'r cyfartaledd cenedlaethol. Dangosodd y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2008 lefel hyder y cyhoedd o 34.8% o gymharu â 44.3% yn genedlaethol. Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gwent yn ystyried hwn fel mater o flaenoriaeth. Mae'r Bwrdd yn awyddus i wella hyder drwy gyflawni ei fusnes yn effeithlon ac yn effeithiol. Ymddengys fod y dull hwn yn ddull gweithredu cadarn ac mae llawer o'r pryderon a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn darparu cyfleoedd i wella, ar yr amod y rhoddir atebion ar waith.

9 Mae'r sgorau yn adlewyrchu'r perfformiad mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth a hyder y gymuned; fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn roedd yn briodol cynnwys cydberthnasau â phartneriaid yn y bennod arweinyddiaeth lle ceir cryn dipyn o orgyffwrdd.

# ATODIAD A: DATA O WAITH ARCHWILIO FFEILIAU CPS GWENT A CHYMARIAETHAU Â PHERFFORMIAD CENEDLAETHOL

## Pennod 3: Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo

*Ansawdd dogfennaeth MG3*

| | Ardderchog | Da | Gweddol | Gwael | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 1.2% (1) | 34.1% (28) | 43.9% (36) | 20.7% (17) | 100% (82) |

*Gwireddu buddiannau*

| | Targed cenedlaethol 2008-09 | Perfformiad cenedlaethol 2008-09 | Perfformiad yr Ardal 2008-09 | Perfformiad yr Ardal hyd at fis Mehefin 2009 |
|---|---|---|---|---|
| *Achosion yn y llysoedd ynadon* | | | | |
| Cyfradd dirwyn i ben | 13% | 13.1% | 17.6% | 17.3% |
| Cyfradd pledio'n euog | 70% | 74.4% | 70.1% | 70.5% |
| Cyfradd athreulio | 23% | 19.2% | 24.6% | 24.1% |
| *Achosion yn Llys y Goron* | | | | |
| Cyfradd dirwyn i ben | 11% | 11.7% | 16.3% | 16.8% |
| Cyfradd pledio'n euog | 70% | 72.9% | 68.5% | 68.9% |
| Cyfradd athreulio | 23% | 19.4% | 24.4% | 24.4% |

## Pennod 4: Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn y llysoedd ynadon

*Canlyniadau achosion yn y llysoedd ynadon*

| | Perfformiad yr ardal OPA 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2008-09 | Perfformiad yr ardal 2008-09 | Perfformiad yr Ardal 12 mis hyd at fis Mehefin 2009 |
|---|---|---|---|---|
| Dirwyn i ben a rhwymo | 10.9% | 8.7% | 10.1% | 9.9% |
| Dim achos i'w ateb | 0.2% | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| Gwrthodwyd ar ôl treial | 1.4% | 2.0% | 2.0% | 2.1% |
| Traddodebau a ryddhawyd | 0.3% | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| Gwarantau | 2.2% | 1.9% | 0.9% | 0.7% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 85.1% | 87.3% | 86.7% | 87.0% |

*Archwilio ffeiliau*

Archwiliwyd 43 o ffeiliau achos llysoedd ynadon o'r ardal a nodir ein canfyddiadau yn y tabl isod.

| Gwaith achos yn y llysoedd ynadon a'r llysoedd ieuenctid | Perfformiad yr Ardal |
|---|---|
| Achosion a aeth i dreial neu lle cafwyd ple euog ar y lefel gywir o gyhuddiad | 97.2% |
| Cafodd yr achos ei ddirwyn i ben yn amserol | 82.4% |
| Penderfyniadau i ddirwyn i ben yn cydymffurfio â cham tystiolaethol prawf y Cod | 86.7% |
| Penderfyniadau i ddirwyn i ben yn cydymffurfio â cham budd y cyhoedd prawf y Cod | 100% |
| Penderfyniadau i gynnal treial yn cydymffurfio â'r prawf tystiolaethol | 97.1% |
| Penderfyniadau i gynnal treial yn cydymffurfio â phrawf budd y cyhoedd | 93.3% |
| Achosion lle y cynhaliwyd adolygiad o dreial diannod wedi'i gofnodi'n briodol | 79.1% |
| Achosion lle roedd pob agwedd ar y gwaith o baratoi'r achos yn amserol | 65.4% |
| Achosion lle cwblhawyd pob cyfarwyddyd rhwng y gwrandawiad cyntaf a'r treial yn amserol | 50.0% |
| Ceisiadau a wnaed ac a roddwyd ar waith o fewn terfynau amser | 47.4% |
| Canlyniadau anffafriol y gellid bod wedi'u hosgoi drwy baratoi'r achos yn well | 15.8% |

*Treialon chwâl ac aneffeithiol*

| | Perfformiad yr ardal OPA 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2008-09 | Perfformiad yr ardal 2008-09 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 41.1% | 43.4% | 35.6% |
| Cyfradd treialon chwâl | 35.1% | 38.0% | 40.9% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 23.7% | 18.6% | 23.5% |
| Cyfradd treialon a ddirymwyd | 19.3% | 21.5% | 29.9% |

**Pennod 5: Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn Llys y Goron**

*Canlyniadau achosion yn Llys y Goron*

| | **Perfformiad yr ardal OPA 2007** | **Perfformiad cenedlaethol 2008-09** | **Perfformiad yr Ardal 2008-09** | **Perfformiad yr Ardal 12 mis hyd at fis Mehefin 2009** |
|---|---|---|---|---|
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr (dirwyn i ben) | 12.7% | 11.7% | 15.8% | 16.4% |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 0.9% | 1.1% | 1.2% | 1.1% |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 7.6% | 6.3% | 5.8% | 5.4% |
| Gwarantau | 0.7% | 0.1% | 1.0% | 1.2% |
| Cyfradd gollfarnu gyffredinol | 78.2% | 80.8% | 76.2% | 76.0% |

*Archwilio ffeiliau*

Archwiliwyd 39 o ffeiliau achos Llys y Goron o'r ardal a nodir ein canfyddiadau yn y tabl isod.

| **Gwaith achos Llys y Goron** | **Perfformiad yr Ardal** |
|---|---|
| Penderfyniadau i barhau adeg traddodi neu gyflwyno papurau yn unol â cham tystiolaethol prawf y Cod | 89.2% |
| Penderfyniadau i barhau adeg traddodi neu gyflwyno papurau yn unol â cham budd y cyhoedd prawf y Cod | 100% |
| Ditiadau a oedd yn briodol ac nad oedd angen eu diwygio | 89.2% |
| Achosion lle y cymerodd yr erlynydd gamau i ddatblygu'r achos yn PCMH | 79.5% |
| Achosion lle y cydymffurfiwyd yn brydlon â chyfarwyddiadau PCMH | 56.8% |
| Ceisiadau a wnaed ac a roddwyd ar waith o fewn terfynau amser | 55.2% |
| Camau gweithredu a gwblhawyd yn brydlon a chydymffurfiaeth brydlon â chyfarwyddiadau rhwng PCMH a dyddiad y treial | 45.7% |
| Achosion lle na chafwyd parhad o ran erlynydd | 91.4% |
| Camau gweithredu a roddwyd ar waith gan y lefel briodol o erlynydd | 72.2% |
| Achosion lle na chafwyd parhad o ran erlynydd | 50% (1 allan o 2 achos) |
| Canlyniadau anffafriol y gellid bod wedi'u hosgoi drwy baratoi'r achos yn well | 22.2% (2 allan o 9 achos) |

*Treialon chwâl ac aneffeithiol*

| | Perfformiad yr ardal OPA 2007 | Perfformiad cenedlaethol 2008-09 | Perfformiad yr ardal 2008-09 |
|---|---|---|---|
| Cyfradd treialon effeithiol | 58.3% | 47.3% | 49.6% |
| Cyfradd treialon chwâl | 31.5% | 41.4% | 40.8% |
| Cyfradd treialon aneffeithiol | 10.2% | 11.3% | 9.6% |

**Pennod 6: Erlyn achosion yn y llysoedd**

*Sylwadau am eiriolaeth*
Gwelsom eiriolwyr mewn gwahanol lysoedd yn erlyn achosion a ymladdwyd ac achosion nas ymladdwyd. Nodir ein canfyddiadau isod.

*Safonau eiriolaeth*

| | Lefel | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Eiriolwyr/ erly-nwyr cyswllt CPS yn y llysoedd ynadon | Cwnsleriaid/ asiantau cyfreithwyr yn y llysoedd ynadon | Eiriolwyr y Goron ac eiriolwyr eraill y CPS yn Llys y Goron | Cwnsleriaid yn Llys y Goron |
| Aseswyd eu bod uwchlaw'r gofynion cyffredin | 1 | - | - | - | - |
| | 2 | - | - | - | 1 |
| Yn erbyn safonau eiriolaeth cenedlaethol y CPS | 3+ | 1 | 1 | - | - |
| | 3 | 2 | 1 | 2 | 2 |
| | 3- | 2 | 1 | - | - |
| A'r rheini yr aseswyd eu bod yn llai na chymwys | 4 | - | - | - | - |
| | 5 | - | - | - | - |

Asesiad:
1 = Eithriadol; 2 = Yn dda iawn, yn uwch na'r cyfartaledd mewn sawl ffordd; 3+ = Yn uwch na'r cyfartaledd mewn sawl ffordd
3 = Yn gymwys ym mhob ffordd; 3- = Yn is na'r cyfartaledd mewn ambell ffordd, heb ymdeimlad o bresenoldeb neu frwdfrydedd
4 = Yn llai na chymwys mewn sawl ffordd; 5 = Yn wael iawn, yn gwbl annerbyniol

*Gwrandawiadau yn y llysoedd ynadon fesul achos*

| | **Ardal 2008-09** | **Chwarter 1af yr ardal yn 2009-10** | **Cenedlaethol 2008-09** | **Chwarter 1af 2009-10 yn genedlaethol** | **Targed cenedlaethol** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer gyfartalog y gwrandawiadau fesul ple euog | 2.2 | 2.0 | 2.2 | 2.1 | 2.1 |
| Nifer gyfartalog y gwrandawiadau fesul achos a ymleddir | 3.8 | 3.3 | 4.4 | 4.2 | 4.0 |

*Arnodiadau ar ffeiliau*

| | **Ardderchog** | **Da** | **Gweddol** | **Gwael** |
|---|---|---|---|---|
| Arnodiadau ar ffeiliau llysoedd ynadon | - | 51.9% (27) | 44.2% (23) | 3.8% (2) |
| Arnodiadau ar ffeiliau Llys y Goron | - | 12.8% (5) | 59.0% (23) | 28.2% (11) |
| Cofnodion CMS y llysoedd ynadon | - | 44.2% (23) | 55.8% (29) | - |
| Cofnodion CMS Llys y Goron | 2.6% (1) | 28.2% (11) | 61.5% (24) | 7.7% (3) |

## Pennod 7: Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb

*Canlyniadau achosion sensitif*

| **Canlyniadau aflwyddiannus** | **Targed cenedlaethol** | **Perfformiad cenedlaethol 2008-09** | **Perfformiad yr ardal 2008-09** | **Perfformiad yr ardal yn ystod chwarter 1af 2009-10** |
|---|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn merched | 29% | 28.1% | 31.2% | 36.4% |
| Trais | 41% | 42.3% | 41.3% | 47.4% |
| Trais yn y cartref | 28% | 27.8% | 31.0% | 35.9% |
| Troseddau rhywiol | 28% | 24.9% | 28.0% | 24.7% |
| Troseddau casineb: troseddau hiliol, crefyddol, homoffobig ac anabledd wedi'u cyfuno | 18% | 18.0% | 18.9% | 19.0% |

**Pennod 8: Datgelu deunydd nas defnyddiwyd**

Ym mis Mai 2008, cyhoeddodd HMCPSI y ddogfen 'Disclosure: a thematic review of the duties of disclosure of unused material undertaken by the CPS'. Isod ceir cymhariaeth o berfformiad yr ardal a chanfyddiadau'r adolygiad hwnnw.

| | **Canfyddiadau cyffredinol yn adolygiad thematig 2008** | **Perfformiad yr Ardal yn yr arolygiad hwn** |
|---|---|---|
| Datgelu cychwynnol (neu sylfaenol) yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn y llysoedd ynadon | 55.0% | 87.1% |
| Datgelu parhaus (neu eilaidd) yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn y llysoedd ynadon | 81.8% | 77.8% |
| Datgelu cychwynnol (neu sylfaenol) yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn Llys y Goron | 57.5% | 91.9% |
| Datgelu parhaus (neu eilaidd) yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn Llys y Goron | 69.7% | 88.2% |
| Datgelu deunydd sensitif yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn y llysoedd ynadon | 26.7% | 58.3% |
| Datgelu deunydd sensitif yr ymdriniwyd ag ef yn briodol mewn achosion yn Llys y Goron | 54.5% | 86.2% |

# ATODIAD B: FFRAMWAITH AROLYGU'R ARDAL

### Safonau a meini prawf

**1 Cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo**

***Safon:*** *Mae cyngor a phenderfyniadau cyn-cyhuddo o ansawdd uchel ac yn cyfrannu at well canlyniadau gwaith achos, a chânt eu darparu'n effeithlon ac mewn ffordd sy'n gydnaws ag amgylchiadau'r achos.*

**Maen Prawf 1A:** Mae ansawdd y broses o wneud penderfyniadau yn cyfrannu at wella canlyniadau gwaith achos.

**Maen Prawf 1B:** Mae'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo yn effeithiol ac yn effeithlon.

**2 Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn y llysoedd ynadon**

***Safon:*** *Caiff achosion yn y llysoedd ynadon eu hadolygu, eu paratoi a'u rheoli hyd at safonau uchel er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau yn effeithiol, a bod cyfran y canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu.*

**Maen Prawf 2A:** Mae'r broses o wneud penderfyniadau o ansawdd uchel ac ymdrinnir ag achosion yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod blaengaredd yr erlyniad yn cael ei gynnal drwy gydol yr achos.

**Maen Prawf 2B:** Caiff achosion eu paratoi a'u datblygu'n effeithiol.

**3 Gwneud penderfyniadau, paratoi a datblygu mewn achosion yn Llys y Goron**

**Safon:** *Caiff achosion yn Llys y Goron eu hadolygu, eu paratoi a'u rheoli hyd at safonau uchel er mwyn sicrhau bod gwrandawiadau yn effeithiol, a bod cyfran y canlyniadau llwyddiannus yn cynyddu.*

**Maen Prawf 3A:** Mae'r broses o wneud penderfyniadau o ansawdd uchel ac ymdrinnir ag achosion yn rhagweithiol er mwyn sicrhau bod blaengaredd yr erlyniad yn cael ei gynnal drwy gydol yr achos.

**Maen Prawf 3B**: Caiff achosion eu paratoi a'u datblygu'n effeithiol.

**4 Erlyn achosion yn y llysoedd**

***Safon:*** *Mae eiriolwyr yr erlyniad wedi'u paratoi ac yn rhagweithiol wrth erlyn achosion yn deg, yn drwyadl ac yn gadarn ac maent yn sicrhau bod achosion yn datblygu ymhob gwrandawiad.*

**Maen Prawf 4A:** Mae eiriolwyr yn chwarae rhan weithredol yn y llys i sicrhau bod achosion yn datblygu a bod gwrandawiadau yn effeithiol a bod yr eiriolaeth a'r ffordd y cyflwynir yr achos o safon uchel.

## 5 Troseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb

***Safon:*** *Mae'r ardal yn gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel ac yn ymdrin â throseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb yn effeithiol.*

**Maen Prawf 5A:** Mae'r ardal yn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion sy'n gysylltiedig â throseddau treisgar a rhywiol difrifol a throseddau casineb hyd at safon uchel.

## 6 Datgelu deunydd nas defnyddiwyd

***Safon:*** *Mae'r ardal yn cydymffurfio â dyletswyddau'r erlyniad o ran datgelu deunydd nas defnyddiwyd ac ymdrinnir â datgelu yn fanwl gywir.*

**Maen Prawf 6A:** Cydymffurfir â dyletswyddau datgelu'r erlyniad.

## 7 Terfynau amser cadwraeth

***Safon:*** *Ym mhob achos, glynir wrth derfynau amser cadwraeth.*

**Maen Prawf 7A:** Mae'r ardal yn sicrhau yr ymdrinnir â phob achos â therfyn amser cadwraeth yn briodol ac y glynir wrth derfynau amser.

## 8 Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion

***Safon:*** *Mae'r ardal yn ystyried anghenion dioddefwyr a thystion drwy gydol y broses erlyn, a rhoddir cymorth priodol ar yr adeg gywir.*

**Maen Prawf 8A:** Mae'r ardal yn sicrhau y caiff anghenion dioddefwyr a thystion eu hystyried a'u diwallu'n amserol ac yn effeithiol ac mae'r gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion yn gwella.

## 9 Rheoli perfformiad er mwyn gwella

***Safon:*** *Mae'r ardal yn mynd ati'n systematig i fonitro a dadansoddi perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno, ac mae'n defnyddio gwybodaeth am berfformiad i hyrwyddo gwelliannau parhaus a llywio penderfyniadau yn y dyfodol.*

**Maen Prawf 9A:** Mae rheolwyr yn deall perfformiad ac yn atebol amdano.

**Maen Prawf 9B:** Ceir dull gweithredu effeithiol a chymesur ar gyfer rheoli perfformiad yn lleol ar lefel unigolion, tîm ac ardal.

**Maen Prawf 9C:** Mae'r ardal yn ymrwymedig i reoli perfformiad ar y cyd â phartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol.

## 10 Rheoli adnoddau

***Safon:*** *Mae'r ardal yn dyrannu ac yn rheoli adnoddau er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol a rhoi gwerth am arian.*

**Maen Prawf 10A:** Mae'r ardal yn ceisio sicrhau gwerth am arian, ac mae'n gweithredu o fewn ei chyllideb.

**Maen Prawf 10B:** Caiff pob aelod o staff yr ardal ei ddefnyddio'n effeithlon.

## 11 Arweinyddiaeth, rheolaeth a gweithio mewn partneriaeth

***Safon:*** *Mae uwch reolwyr yn ymgysylltu â staff y CPS a phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol ac yn eu hysbrydoli er mwyn cyflawni amcanion yr ardal ac amcanion cenedlaethol, ac ysgogi gwelliannau mewn perfformiad a newidiadau.*

**Maen Prawf 11A:** Mae gan y tîm rheoli ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen ei gyflawni er mwyn gwireddu blaenoriaethau'r CPS a'r System Cyfiawnder Troseddol, yn seiliedig ar waith cynllunio a rheoli newid effeithiol.

**Maen Prawf 11B:** Mae'r tîm rheoli yn cyfathrebu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad yr ardal yn dda.

**Maen Prawf 11C:** Mae uwch reolwyr yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer moeseg, gwerthoedd a nodau'r ardal a'r CPS, ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth.


## 12 Hyder y gymuned

*Safon: Mae'r CPS yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn effeithiol gyda'r asiantaethau y mae'n cydweithio â hwy a'r cymunedau a wasanaethir ganddo.*

**Maen Prawf 12A:** Mae'r ardal yn ymrwymedig i ymgysylltu â phartneriaid a gwella lefelau gwasanaeth ar y cyd.

**Maen Prawf 12B:** Mae'r ardal yn gweithio mewn ffordd ragweithiol i ennyn hyder y gymuned.

# ATODIAD C: SIART O'R SEFYDLIAD



# ATODIAD D: DATA PERFFORMIAD GWAITH ACHOS

*Llwyth achosion a chanlyniadau ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben 31 March 2009*

| | Nifer Gwent | Canran | Nifer yn Genedlaethol* | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **1 Y llysoedd ynadon – mathau o achosion** | | | | |
| Penderfyniad cyn-cyhuddo | 6,163 | 37.1 | 532,464 | 33.9 |
| Cyngor | 0 | 0 | 198 | 0.0 |
| Diannod | 6,272 | 37.7 | 602,195 | 38.3 |
| Neillffordd a ditiol | 4,177 | 25.1 | 432,340 | 27.5 |
| Gweithrediadau eraill | 3 | 0.1 | 3,812 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **16,615** | **100** | **1,571,009** | **100** |
| **2 Y llysoedd ynadon – achosion wedi'u cwblhau** | | | | |
| Dirwyn i ben ac achosion o rwymo | 960 | 10.1 | 80,661 | 8.7 |
| Gwarantau | 88 | 0.9 | 15,060 | 1.6 |
| Gwrthodwyd a dim achos i'w ateb | 17 | 0.2 | 1,707 | 0.2 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 188 | 2.0 | 18,682 | 2.0 |
| Rhyddhawyd | 19 | 0.2 | 1,984 | 0.2 |
| **Cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus** | **1,272** | **13.3** | **118,094** | **12.7** |
| Collfarnau | 8,261 | 86.7 | 810,605 | 87.3 |
| **Cyfanswm** | **9,533** | **100** | **928,699** | **100** |
| Traddodwyd i sefyll prawf yn Llys y Goron | 916 | | | |
| **3 Y llysoedd ynadon – canlyniadau achosion** | | | | |
| Pleon euog | 6,965 | 82.3 | 636,887 | 76.7 |
| Prawf mewn absenoldeb | 1,042 | 12.3 | 140,328 | 16.9 |
| Collfarnau ar ôl treial | 254 | 3.0 | 33,390 | 4.0 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 188 | 2.2 | 18,682 | 2.2 |
| Rhyddfarnau: dim achos i'w ateb | 17 | 0.2 | 1,707 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **8,466** | **100** | **830,994** | **100** |
| **4 Llys y Goron – mathau o achosion** | | | | |
| Ditiol yn unig | 481 | 37.9 | 40,498 | 29.1 |
| Neillffordd: dewis yr amddiffyniad | 14 | 1.1 | 7,614 | 5.5 |
| Neillffordd: cyfarwyddyd yr ynadon | 493 | 38.8 | 55,315 | 39.7 |
| Diannod: apeliadau; traddodi i ddedfryd | 281 | 22.2 | 35,922 | 25.8 |
| **Cyfanswm** | **1,269** | **100** | **139,349** | **100** |
| **5 Llys y Goron – achosion wedi'u cwblhau** | | | | |
| Rhyddfarnau ac achosion o rwymo dan orchymyn barnwr | 156 | 15.8 | 12,061 | 11.7 |
| Gwarantau | 10 | 1.0 | 1,121 | 1.1 |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 12 | 1.2 | 989 | 1.0 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 57 | 5.8 | 5,693 | 5.5 |
| **Cyfanswm y canlyniadau aflwyddiannus** | **235** | **23.8** | **19,864** | **19.2** |
| Collfarnau | 753 | 76.2 | 83,552 | 80.8 |
| **Cyfanswm** | **988** | **100** | **103,416** | **100** |
| **6 Llys y Goron – canlyniadau achosion** | | | | |
| Pleon euog | 685 | 83.3 | 75,661 | 83.8 |
| Collfarnau ar ôl treial | 68 | 8.3 | 7,891 | 8.7 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 57 | 6.9 | 5,693 | 6.3 |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 12 | 1.5 | 989 | 1.1 |
| **Cyfanswm** | **822** | **100** | **90,234** | **100** |

* Y 42 o ardaloedd a CPS Direct.

# ATODIAD E: ADNODDAU A LLWYTH ACHOSION

*Llwyth achos yr ardal/staffio CPS Gwent*

| | **Ebrill 2009** | **Ebrill 2007** |
|---|---|---|
| Staff mewn swydd | 74.95 | 79.8 |
| Cyfreithwyr mewn swydd (ac eithrio Prif Erlynydd y Goron) | 28.8 | 31.2 |
| Penderfyniadau/cyngor cyn-cyhuddo fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 214.0 | 207 |
| Erlynwyr cyswllt mewn swydd | 4 | 4 |
| Achosion yn y llysoedd ynadon fesul cyfreithiwr ac erlynydd cyswllt (ac eithrio CCP) | 318.6 | 402 |
| Treialon a ymleddir yn y llysoedd ynadon fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 15.9 | 23.6 |
| Achosion o draddodi i sefyll prawf ac achosion a anfonwyd fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 31.8 | 31.7 |
| Treialon a ymleddir yn Llys y Goron fesul cyfreithiwr (ac eithrio CCP) | 4.8 | 6.6 |
| Gweithwyr achos lefel B1, B2 a B3 mewn swydd (ac eithrio erlynwyr cyswllt) | 12.6 | 12.6 |
| Achosion o draddodi i sefyll prawf ac achosion a anfonwyd fesul gweithiwr achos lefel B | 72.6 | 78.6 |
| Treialon a ymleddir yn Llys y Goron fesul gweithiwr achos lefel B | 10.9 | 16.4 |
| Staff lefel A1 ac A2 | 29.15 | 32 |
| Achosion fesul aelod o staff lefel A | 344.7 | 645 |
| Costau rhedeg (heb eu neilltuo) | £3,547,835 | £3,519,796 |

NODER: Mae data llwyth achosion yn nodi ffigur blynyddol ar gyfer pob aelod perthnasol o staff. Caiff achosion yn Llys y Goron eu cyfrif o fewn cyfanswm yr achosion yn y llysoedd ynadon. Lle y cynghorir y dylid dechrau achos, caiff yr achos hwnnw ei gynnwys hefyd fel achos diannod/neillffordd/ditiol yn unig yn yr ystadegau yn ymwneud â'r llysoedd ynadon neu Lys y Goron fel y bo'n briodol.

# ATODIAD F: CYFANSWM NIFER Y FFEILIAU A ARCHWILIWYD AR GYFER CPS GWENT

| | **Nifer y ffeiliau a archwiliwyd** |
|---|---|
| **Achosion yn y llysoedd ynadon** | **52** |
| *Yn ddarostyngedig i PCD* | 43 |
| Pleon euog | 11 |
| Collfarnau ar ôl treial (gan gynnwys 3 achos ieuenctid) | 5 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial (gan gynnwys 2 achos ieuenctid) | 7 |
| Achosion a gafodd eu dirwyn i ben | 13 |
| Dim achos i'w ateb | 2 |
| Traddodebau a ryddhawyd | 5 |
| *Dim PCD* | 9 |
| Collfarnau ar ôl treial | 2 |
| Ple euog | 3 |
| Dirwyn i ben | 4 |
| **Achosion yn Llys y Goron** | **39** |
| Pleon euog | 11 |
| Rhyddfarnau dan orchymyn barnwr | 9 |
| Rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr | 4 |
| Collfarnau ar ôl treial | 8 |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 7 |
| **Cyfanswm** | **91** |

# ATODIAD G: CYNRYCHIOLWYR LLEOL O SEFYDLIADAU AC ASIANTAETHAU CYFIAWNDER TROSEDDOL A FU O GYMORTH GYDA'N HAROLYGIAD

**Llys y Goron**
Ei Anrhydedd y Barnwr Cooke CF, Cofiadur Anrhydeddus Caerdydd
Ei Anrhydedd y Barnwr Morgan

**Llysoedd ynadon**
Mr A Davies, Cyfarwyddwr Ardal Gwasanaeth Llysoedd EM
Mr E Harding, Clerc i'r Ynadon
Ms L Hodges, Swyddog Datblygu Achosion
Mrs M Powell, Cadeirydd y Llys Ieuenctid, Casnewydd
Mr G Davies, Cadeirydd y Fainc Gwent

**Yr Heddlu**
Mr M Giannasi, Prif Gwnstabl
Prif Uwcharolygydd R Wise
Ditectif Brif Arolygydd M Sutton
Mr D Williams, Adran Cyfiawnder Troseddol
Mr G Powell, Swyddog Adolygu Tystiolaeth

**Cwnsleriaid**
Mr M Kelly
Mr M Mather-Lees

**Y Gwasanaeth Tystion**
Ms M Davies, Rheolwr Ardal Cymorth i Ddioddefwyr
Dioddefwyr a thystion yn y llys

**Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn Lleol**
Mr D Nash, Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Sir Fynwy
Mr D Jeremiah, Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Tor-faen
Uwcharolygydd P Keen, TPartneriaethau a Phlismona yn y Gymdogaeth Tor-faen
Mr S Davison, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Casnewydd

**Y Gwasanaeth Prawf**
Mrs J Coates, Prif Swyddog Prawf

**Timau troseddau ieuenctid**
Miss P Morgan

**Aelodau Seneddol**
Mr D Davies AS
Ms R Butler AC
Mr M German OBE AC

Gwahoddwyd Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd ag etholaethau yng Ngwent i gyfrannu.

# ATODIAD H: DIBEN A GWERTHOEDD HMCPSI

**Diben**

Diben HMCPSI yw gwella ansawdd cyfiawnder drwy broses arolygu ac asesu annibynnol sy'n gwella effeithiolrwydd gwasanaethau erlyn, ac yn rhoi sicrwydd i Weinidogion, y llywodraeth a'r cyhoedd. Er mwyn cyflawni hyn, rydym am fod yn sefydliad sy'n:

- cyrraedd y safonau uchaf posibl;
- ennyn balchder;
- ennyn parch;
- gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau ac asiantaethau eraill ym maes cyfiawnder troseddol ond heb beryglu ei annibyniaeth gadarn;
- gwerthfawrogi pob aelod o'i staff;
- ceisio cyflwyno gwelliannau parhaus.

**Cenhadaeth**

Mae HMCPSI yn ceisio sicrhau rhagoriaeth ym mhob agwedd ar ei gweithgareddau ac yn benodol roi prosesau arolygu a gwerthuso cyson a phroffesiynol ar waith i gwsmeriaid a rhanddeiliaid, ynghyd â chyngor a chyfarwyddyd, y caiff pob un ohonynt eu mesur yn erbyn safonau ansawdd cydnabyddedig a lefelau perfformiad diffiniedig.

**Gwerthoedd**

Rydym yn ceisio cadw at ein gwerthoedd, fel y'u diffinnir isod, ym mhopeth a wnawn:

| | |
|---|---|
| **cysondeb** | Mabwysiadu'r un egwyddorion a gweithdrefnau craidd ar gyfer pob arolygiad, a chymhwyso'r un safonau a meini prawf i'r dystiolaeth a gasglwn. |
| **trylwyredd** | Sicrhau bod ein penderfyniadau a'n canfyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth yr ymchwiliwydiddi'n drwyadl ac sydd wedi'i chadarnhau, gyda thrywydd archwilio priodol. |
| **uniondeb** | Dangos uniondeb ym mhopeth a wnawn drwy gymhwyso ein gwerthoedd eraill. |
| **proffesiynoldeb** | Dangos y safonau uchaf o ran cymhwysedd proffesiynol, cwrteisi ac ystyriaeth ym mhob agwedd ar ein hymddygiad. |
| **gwrthrychedd** | Cynnal pob arolygiad gyda meddwl agored. Ni fyddwn yn caniatáu i farn bersonol ddylanwadu ar ein canfyddiadau. Byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar faterion fel y maent. |

Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu'r canlynol:

Rydym yn dangos uniondeb, gwrthrychedd a phroffesiynoldeb ar bob adeg ac ym mhob agwedd ar ein gwaith ac mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar wybodaeth yr ymchwiliwyd iddi'n drwyadl, sydd wedi'i chadarnhau a'i gwerthuso yn unol â safonau a meini prawf cyson.

# ATODIAD I: RHESTR TERMAU

**Achos anffafriol**
*NCTA*, *JOA*, *JDA* (gweler diffiniadau ar wahân) neu un lle y mae'r ynadon yn penderfynu nad oes digon o dystiolaeth i draddodi achos *neillfffordd* i Lys y Goron.

**Achosion penodedig**
Mân droseddau y mae'r heddlu a'r llysoedd ynadon yn ymdrin â hwy a lle nad oes angen i'r CPS eu hadolygu na'u herlyn, oni fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog (adran 3 (2) (A) Deddf Erlyn Troseddau 1985).

**Adolygiad cyn treial**
Gwrandawiad yn y llys ynadon y bwriedir iddo ddiffinio'r materion ar gyfer treial ac ymdrin ag unrhyw faterion cyn treial eraill.

**Adolygu,** *treial cychwynnol, treial parhaus, treial diannod ac ati*
Y broses lle y mae un o erlynwyr y goron yn penderfynu bod achos a gafwyd gan yr heddlu yn bodloni ac yn parhau i fodloni'r prawf cyfreithiol ar gyfer erlyn yn y *Cod*. Un o swyddogaethau pwysicaf y CPS.

**Adran 9 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1967**
Gweithdrefn ar gyfer cyhoeddi datganiadau tystion fel y gellir darllen y dystiolaeth i'r llys, yn hytrach na bod y tyst yn bresennol.

**Adran 51 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998**
Gweithdrefn ar gyfer rhoi achosion *ditiol yn unig* ar y trywydd cyflym i Lys y Goron, sydd bellach yn ymdrin ag achosion o'r fath o gam cynnar iawn - anfonir y diffynnydd i Lys y Goron gan yr ynadon.

**Agweddau ar gyfer gwella**
Gwendid mawr sy'n berthnasol i agwedd bwysig ar berfformiad (sydd weithiau'n cynnwys y camau sydd eu hangen i ymdrin â hyn).

**Arfer da**
Agwedd ar berfformiad y mae'r Arolygiaeth nid yn unig yn cynnig sylwadau ffafriol arni, ond lle y mae o'r farn ei bod yn adlewyrchu ffordd o drin gwaith a ddatblygwyd gan ardal a allai, o'i haddasu'n briodol i ddiwallu anghenion lleol, gael ei chymeradwyo fel arfer cenedlaethol.

**Argymhelliad**
Fel arfer wedi'i anelu at unigolyn neu gorff ac yn nodi'r camau sydd eu hangen i ymdrin â gwendid sylweddol sy'n berthnasol i agwedd bwysig ar berfformiad (hy *agwedd ar gyfer gwella*) y dylid rhoi'r flaenoriaeth uchaf iddo, ym marn yr Arolygiaeth.

**Asesiad cyffredinol o berfformiad (OPA)**
Asesiad a gynhelir ar lefel ardal gan yr Arolygiaeth sy'n graddio perfformiad cyffredinol. Rhoddir sgôr i bob agwedd ar berfformiad a gwneir asesiad cyffredinol. Cynhaliwyd yr asesiadau hyn yn 2005 a 2007.

**Asiant**
Cyfreithiwr neu fargyfreithiwr na chyflogir yn uniongyrchol gan y CPS a gyfarwyddir ganddo, fel arfer fesul sesiwn, i gynrychioli'r erlyniad yn y llysoedd ynadon.

**Briffiau a gaiff eu dychwelyd**
Brîff a gaiff ei ddychwelyd (gweler *cyfarwyddiadau i'r cwnsler*) yw brîff a gaiff ei ddychwelyd gan fargyfreithiwr i'w gyfreithiwr cyfarwyddo (y CPS) pan fydd yn darganfod na all ymgymryd â'r gwaith. Gall hyn ddigwydd yn agos iawn at ddyddiad y treial.

**Bwrdd cyfiawnder troseddol lleol**
Prif Swyddogion yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y llysoedd a'r CPS, llywodraethwr carchar lleol a rheolwr y tîm troseddau ieuenctid ym mhob ardal cyfiawnder troseddol sy'n atebol i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol am gyflawni targedau'r *Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA)*.

**Bwrdd strategol yr ardal (ASB)**
Uwch reolwyr ardal, yn rhai cyfreithiol ac yn rhai nad ydynt yn gyfreithiol.

**Cam budd y cyhoedd**
Yr ail gam o dan brawf y *Cod* - a yw erlyn y diffynnydd hwn ar y cyhuddiad hwn er budd y cyhoedd?

**Cam tystiolaethol**
Y cam cychwynnol o dan brawf y *Cod* - a oes digon o dystiolaeth i sicrhau tebygolrwydd realistig y ceir collfarn?

**Canllawiau'r Cyfarwyddwr ar y Broses Symlach (DGSP)**
Darpariaethau y cytunwyd arnynt rhwng y CPS a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) mewn perthynas â symleiddio rhai o ffeiliau achos penodol yr erlyniad, lle y caiff swm cyfyngedig o wybodaeth a thystiolaeth ei gynnwys i ddechrau pan fydd disgwyl i'r diffynnydd bledio'n euog.

**Canolfan gweithrediadau grŵp (GOC)**
Uned o fewn y grŵp (cyfuniad o nifer o ardaloedd y CPS) sy'n gyfrifol am ymdrin ag agweddau penodol ar y busnes ar ran ardaloedd, er enghraifft, rheoli a monitro perfformiad, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Cod Erlynwyr y Goron (y Cod)**
Y ddogfen gyhoeddus sy'n nodi'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau erlyn. Mae gan erlynwyr y goron bŵer y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i benderfynu ar yr achosion a ddirprwyir, ond mae'n rhaid iddynt arfer y pŵer hwnnw yn unol â'r Cod a'i brawf dau gam - y cam tystiolaethol a'r cam budd y cyhoedd. Dim ond, yn gyntaf, os oes digon o dystiolaeth er mwyn sicrhau tebygolrwydd realistig y ceir collfarn ac, yn ail, os oes angen yr erlyniad er budd y cyhoedd y dylai achosion fynd rhagddynt (gweler hefyd *Prawf trothwy*).

**Compass CMS**
System TG ar gyfer olrhain a rheoli achosion a ddefnyddir gan y CPS. Compass yw'r system gynhwysfawr newydd a ddefnyddir ym mhob ardal.

**CPS Direct**
Cynllun yw hwn i ategu'r cyngor a roddir mewn ardaloedd i'r heddlu a'r prosesau gwneud penderfyniadau o ran cyhuddo o dan y *cynllun cyhuddo*. Mae cyfreithwyr ar gael ar un rhif ffôn cenedlaethol y tu allan i oriau swyddfa arferol er mwyn sicrhau y gellir cael cyngor ar unrhyw adeg. Mae ar gael i bob ardal.

**Cryfderau**
Gwaith a wneir yn briodol yn unol â safonau proffesiynol priodol hy gwaith sy'n gyson dda.

**Cyfarwyddiadau i'r cwnsler**
Y papurau a gaiff eu rhoi i'r cwnsler sy'n nodi hanes achos a sut y dylid ymdrin ag ef yn y llys, ynghyd ag adroddiadau achos. Cyfeirir atynt weithiau fel y brîff i'r cwnsler.

**Cyfathrebu'n uniongyrchol â dioddefwyr (DCV)**
Mae'r CPS yn ysgrifennu'n uniongyrchol at ddioddefwr trosedd os caiff achos ei ollwng neu os caiff y cyhuddiadau eu gostwng o ran difrifoldeb. Mewn rhai achosion, caiff cyfarfod ei gynnig i egluro hyn.

**Cyfiawnder Troseddol: Syml, Cyflym, Diannod (CJSSS)**
Menter sy'n cyflwyno ffyrdd mwy effeithlon o weithio ym mhob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol, ynghyd â'r farnwriaeth, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion a gyflwynir i'r llysoedd ynadon yn gyflymach. Yn arbennig, mae'n anelu at leihau nifer y gwrandawiadau mewn achos a'r cyfnod rhwng cyhuddo a chwblhau'r achos.

**Cynllun cyhuddo**
Datblygodd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 argymhellion yr Arglwydd Ustus Auld yn ei Adolygiad o'r Llysoedd Troseddol, i sicrhau mai'r CPS fydd yn gwneud y penderfyniad i gyhuddo troseddwyr yn yr achosion mwy difrifol. Rhoddwyd trefniadau cyhuddo 'cysgodol' ar waith mewn ardaloedd a chafodd y cynllun statudol ei gyflwyno'n raddol ar draws ardaloedd â blaenoriaeth ac wedyn ym mhob un o'r 42 o ardaloedd, gyda'r olaf ym mis Ebrill 2006.

**Dangosyddion perfformiad**
Ystadegau mewnol a gesglir gan y CPS sy'n dangos faint o waith a pha fath o waith sy'n mynd rhagddo ac yn cael ei brosesu a chanlyniadau'r gwaith hwnnw. Maent hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd dyfarniadau mewn achosion.

**Datgelu,** *cychwynnol a pharhaus*
Mae gan yr erlyniad ddyletswydd i ddatgelu i'r amddiffyniad ddeunydd a gasglwyd yn ystod ymchwiliad i drosedd, na fwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth yn erbyn y diffynnydd, ond a allai fod yn berthnasol i fater yn yr achos. Rhoddir datgeliad cychwynnol lle y gallai eitem danseilio achos yr erlyniad neu helpu'r amddiffyniad. Yn y llysoedd ynadon, gall yr amddiffyniad gyflwyno datganiad yr amddiffyniad ac mae'n rhaid gwneud hyn yn Llys y Goron. Mae gan yr erlyniad ddyletswydd ddatgelu barhaus yng ngoleuni hyn a datblygiadau yn y treial. (Mae dyletswyddau datgelu sylfaenol ac eilaidd yn gymwys i achosion yr ymchwiliwyd iddynt cyn 4 Ebrill 2005.)

**Deddf Elw Troseddau 2002 (POCA)**
Yn cynnwys darpariaethau fforffedu ac atafaelu a throseddau gwyngalchu arian, sy'n hwyluso'r broses o adennill asedau gan droseddwyr.

**Deunydd sensitif**
Unrhyw ddeunydd perthnasol yn un o ffeiliau ymchwilio'r heddlu nad yw'n rhan o'r achos yn erbyn y diffynnydd, ac efallai na fyddai ei *ddatgelu* er budd y cyhoedd.

**Dim achos i'w ateb (NCTA)**
Lle y mae ynadon yn gwrthod achos ar ddiwedd tystiolaeth yr erlyniad am nad ydynt o'r farn bod yr erlyniad wedi cyflwyno achos i'r diffynnydd ei ateb.

**Dim Tyst Dim Cyfiawnder (NWNJ)**
Mae hwn yn brosiect i wella gofal tystion: i roi cymorth iddynt yn ogystal â'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt o adeg cychwyn digwyddiad hyd at ddiwedd erlyniad troseddol. Mae'n bartneriaeth rhwng y CPS a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ac mae hefyd yn cynnwys Cymorth i Ddioddefwyr a'r Gwasanaeth Tystion. Cyflwynwyd unedau gofal tystion wedi'u staffio ar y cyd i bob ardal erbyn mis Rhagfyr 2005.

**Dirwyn i ben**
Lle caiff achos ei ollwng gan y CPS yn y llysoedd ynadon, boed drwy hysbysiad ysgrifenedig (o dan adran 23 Deddf Erlyn Troseddau 1985), camau i'w dynnu'n ôl neu gyflwyno cynnig o ddim tystiolaeth yn y llys.

**Eiriolwr y goron**
Cyfreithiwr a gyflogir gan y CPS sydd â hawl gwrandawiad yn Llys y Goron.

**Erlynydd cyswllt**
Uwch *weithiwr achos* (lefel B2) sydd wedi'i hyfforddi i gyflwyno achosion syml lle y bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, neu eu profi lle nad yw'r diffynnydd yn bresennol yn y llys ynadon. Ehangwyd y rôl hon a bydd yn cynnwys treialon ar gyfer troseddau lle na ellir carcharu'r diffynnydd.

**Fframwaith rheoli achosion troseddol**
Yn rhoi canllaw cyson i ymarferwyr ar eu rolau a'u cyfrifoldebau hwy a'u partneriaid, ynghyd â chanllawiau gweithredol ar reoli achosion.

**Gweithiwr achos**
Aelod o staff y CPS sy'n ymdrin â'r ffordd y cynhelir achos yr erlyniad o ddydd i ddydd neu sy'n rheoli hynny o dan oruchwyliaeth un o erlynwyr y goron ac, yn Llys y Goron, sy'n mynd i'r llys i helpu'r eiriolwr.

**Lleihau'r bwlch cyfiawnder (NJG)**
Mae hwn yn un o dargedau *PSA* y llywodraeth o ran cyfiawnder troseddol i gynyddu nifer y troseddau y caiff troseddwyr eu dwyn o flaen eu gwell amdanynt; sef troseddau sy'n arwain at gollfarn, rhybuddiad neu a ystyrir pan ddedfrydir troseddwr am fater arall, hysbysiad cosb benodedig, neu rybudd ffurfiol am fod â chyffuriau yn ei feddiant. Y bwlch cyfiawnder yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at y gwahaniaeth rhwng y troseddau hyn a chyfanswm nifer y troseddau a gofnodir.

**MG6C, MG6D ac ati**
Ffurflenni a gwblheir gan yr heddlu yn ymwneud â deunydd nas defnyddiwyd. MG yw'r Llawlyfr Cyfarwyddyd cenedlaethol a ddefnyddir gan yr heddlu a'r CPS.

**Monitro perfformiad ar y cyd (JPM)**
System reoli sy'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am agweddau ar weithgarwch a gyflawnir gan yr heddlu a'r CPS, gyda'r nod o wella perfformiad. Fe'i defnyddir yn amlach at ddibenion cyffredinol yn ymwneud ag agweddau ehangach ar berfformiad yn cynnwys dwy neu fwy o asiantaethau cyfiawnder troseddol.

**Pecyn paratoi achosion Llys y Goron**
Pecyn prosesu geiriau sy'n darparu templed ar gyfer cyfarwyddiadau safonol mewn brîff i gwnsler. Mae cyfleuster testun rhydd yn y pecyn er mwyn galluogi staff y CPS i roi cyngor i gwnsleriaid am agweddau penodol ar achos unigol. Dylid defnyddio *Compass CMS* erbyn hyn.

**Perfformiad yn erbyn targedau**
Mesurau o berfformiad yn erbyn targedau a bennir yn genedlaethol ac yn lleol i ategu amcanion y CPS.

**Prawf trothwy**
Mae *Cod Erlynwyr y Goron* yn darparu, lle nad yw'n briodol rhyddhau diffynnydd ar fechnïaeth ar ôl ei gyhuddo, ond nad yw'r dystiolaeth i gymhwyso prawf llawn y Cod ar gael eto, y dylid cymhwyso'r prawf trothwy. Er mwyn bodloni'r prawf, mae'n rhaid bod o leiaf amheuaeth resymol bod yr un a ddrwgdybir wedi cyflawni trosedd, a'i fod er budd y cyhoedd i gyhuddo'r un a ddrwgdybir. Mae'n rhaid ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys tebygolrwydd a natur tystiolaeth bellach a geir.

**Prif erlynydd y goron (CCP)**
Un o'r 42 o brif swyddogion sy'n arwain y CPS lleol ym mhob ardal, yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr. Mae'n annibynnol i ryw raddau ond yn atebol i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus am berfformiad yr ardal.

**PROGRESS**
System TG a ddefnyddir gan y llysoedd, y CPS a'r amddiffyniad i gyflawni swyddogaethau datblygu achosion.

**Rhaglen rheoli treialon effeithiol (ETMP)**
Nod y fenter hon, lle mae pob asiantaeth cyfiawnder troseddol yn cydweithio, yw lleihau nifer y treialon aneffeithiol drwy wella'r gwaith o baratoi a datblygu achosion o'r cam cyhuddo i ddiwedd achos.

**Rheoli perfformiad tîm yr erlyniad (PTPM)**
Dadansoddiad ar y cyd o berfformiad gan y CPS a'r heddlu yn lleol - fe'i defnyddir i ystyried canlyniadau prosesau cyhuddo a phrosesau eraill ar y cyd.

**Rheolwr busnes yr ardal (ABM)**
Yr uwch reolwr busnes sy'n gyfrifol am gyllid, personél, cynllunio busnes a materion gweithredol eraill.

**Rhyddfarn dan gyfarwyddyd barnwr (JDA)**
Pan fydd y barnwr yn cyfarwyddo rheithgor i ddyfarnu diffynnydd yn ddieuog ar ôl i'r treial ddechrau.

**Rhyddfarn dan orchymyn barnwr (JOA)**
Pan fydd y barnwr yn gwrthod achos am nad yw'r erlyniad yn cynnig tystiolaeth cyn ffurfio rheithgor.

**Safonau cyhuddo**
Safonau y cytunir arnynt gyda'r heddlu sy'n rhoi canllawiau ar sut i ddewis y cyhuddiad priodol, yn seiliedig ar ffeithiau'r achos. Cyhoeddwyd safonau cyhuddo mewn perthynas â:

- throseddau yn erbyn y person;
- troseddau gyrru;
- troseddau trefn gyhoeddus.

**Safonau gwasanaeth y Bar/CPS**
Safonau y cytunwyd arnynt ar y cyd sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir o ran perfformiad gan y Bar a'r CPS yn y ffordd y byddant yn ymdrin â'i gilydd.

Mae *Safon 1* (Awst 1994) yn ei gwneud yn ofynnol i'r CPS roi brîff i'r cwnsler o fewn 14 diwrnod o'r traddodiad mewn achosion ffi safonol ac o fewn 21 diwrnod mewn achosion sy'n cynnwys treialon

o dridiau neu fwy a phleon euog ar gyfer troseddau difrifol.

Mae *Safon 2* (Awst 1994) yn nodi y bydd y cwnsler, ar ôl darllen ac ystyried y papurau, yn rhoi cyngor ysgrifenedig, lle y bo'r angen, ar unrhyw fater lle y mae angen cyngor.

Mae *Safon 3* (Hydref 1996) yn ymwneud â briffiau a gaiff eu dychwelyd ac mae wedi'i chynllunio i leihau nifer y briffiau a ddychwelir ac unrhyw effaith anffafriol a allai ddigwydd o ganlyniad i ddychwelyd brîff.

Mae *Safon 4* (Hydref 1996) yn ymdrin â chwnsleriaid yn hawlio ffioedd yn amserol ar ddiwedd achos, a'r broses o dalu'r ffioedd hynny'n amserol.

**Sesiwn Llys**
Ceir dwy sesiwn bob dydd yn y llysoedd ynadon, un yn y bore ac un yn y prynhawn.

**Sicrhau ansawdd gwaith achosion (CQA)**
System o brofion rheoli a gynhelir yn ardaloedd y CPS er mwyn asesu ansawdd gwaith achos; dylai pob ardal gynnal o leiaf un prawf fesul cyfreithiwr fesul mis. Bwriedir i'r cynllun sicrhau y caiff gwahanol agweddau ar waith achos eu hasesu.

**Staff lefel A, B, C, D, E**
Graddau'r CPS yn is na'r uwch wasanaeth sifil, o A (staff gweinyddol) i E (uwch gyfreithwyr neu weinyddwyr).

**Targedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA)**
Targedau a bennwyd gan y llywodraeth ar gyfer y system cyfiawnder troseddol yn ymwneud ag ymdrin â throseddau difrifol a gwella hyder y cyhoedd yn y system.

**Terfynau amser cadwraeth (CTLs)**
Y terfyn amser statudol ar gyfer cadw diffynnydd yn y ddalfa yn aros am dreial. Gall y llys ymestyn y terfyn o dan amgylchiadau penodol.

**Traddodi**
Gweithdrefn lle y caiff diffynnydd mewn achos *neillffordd* ei symud o'r llys ynadon i Lys y Goron i sefyll prawf, fel arfer ar ôl i'r erlyniad gyflwyno tystiolaeth i'r amddiffyniad, ond o bryd i'w gilydd ar ôl i'r ynadon ystyried y dystiolaeth.

**Treial aneffeithiol**
Achos a restrir ar gyfer treial a ymleddir na all fynd rhagddo pan fwriadwyd iddo ddechrau, am amrywiaeth o resymau posibl, ac a gaiff ei ohirio tan ddyddiad diweddarach.

**Treial chwâl**
Achos a restrir ar gyfer achos a ymleddir nad yw'n mynd rhagddo, naill ai am fod y diffynnydd yn newid ei ble i euog, neu'n pledio i gyhuddiad amgen, neu nad yw'r erlyniad yn cynnig unrhyw dystiolaeth.

**Troseddau ditiol yn unig**
Troseddau y gellir rhoi rhywun ar brawf amdanynt yn Llys y Goron yn unig, e.e. llofruddiad, trais, ysbeilio.

**Troseddau neillffordd**
Y troseddau hynny y gellir eu rhoi ar brawf yn y llysoedd ynadon neu yn Llys y Goron ee lladrad, ymosodiad yn arwain at wir niwed corfforol.

**Troseddau diannod**
Y troseddau hynny y gellir rhoi rhywun ar brawf amdanynt yn y llysoedd ynadon yn unig, ee y troseddau moduro mwyaf difrifol, ymosod cyffredin ac ati.

**Troseddwr ifanc cyson (PYO)**
Person ifanc a ddedfrydwyd o leiaf deirgwaith yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Uned cyfiawnder troseddol (CJU)**
Uned weithredol y CPS sy'n ymdrin â'r gwaith o baratoi a chyflwyno erlyniadau yn y llysoedd ynadon. Argymhellodd adroddiad Glidewell y dylai staff yr heddlu a'r CPS fod yn yr un lleoliad ac y dylent gydweithio'n agos er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau safonau uwch o ran cyfathrebu a pharatoi achosion. (Mewn rhai ardaloedd, cyfeirir at uned cymorth gweinyddol yr heddlu fel CJU.)

**Uned dreialon (TU)**
Uned weithredol y CPS sy'n paratoi achosion ar gyfer Llys y Goron.

**Unedau gofal tystion (WCU)**
Unedau sy'n gyfrifol am reoli gofal dioddefwyr a thystion yr erlyniad o adeg cyhuddo'r diffynnydd hyd at ddiwedd yr achos. Cânt eu staffio gan swyddogion gofal tystion a gweithwyr cymorth eraill sy'n gyfrifol am hysbysu tystion o unrhyw ddatblygiadau wrth i'r achos fynd rhagddo. Yn aml mae unedau yn cynnwys cyfuniad o staff yr heddlu a'r CPS (unedau ar y cyd).

**Uned gwaith achos cymhleth (CCU)**
Uned grŵp (cyfuniad o ardaloedd y CPS) sy'n ymdrin ag achosion arbenigol a chymhleth; fel arfer caiff yr achosion a gyfeirir at yr uned eu diffinio gan natur y drosedd ac fe'u llywodraethir yn bennaf gan brotocol cyfeirio.

**Y model busnes gorau (OBM)**
System o brosesau sydd ar waith yn y CPS i sicrhau bod achosion yn y llysoedd ynadon yn cael sylw ac yn cael eu datblygu mewn ffordd systemataidd.

# ATODIAD J: YMATEB YR ARDAL I ADRODDIAD HMCPSI AR CPS GWENT

1. Mae CPS Gwent yn cydnabod maint yr heriau sy'n deillio o'r adroddiad ar arolygiad HMCPSI ym mis Medi 2009. Rydym yn derbyn ei argymhellion a byddwn yn ymdrin â'r nifer sylweddol o feysydd lle y mae'n rhaid gwella perfformiad. Cyflawnir hyn mewn ffordd gynhwysfawr wrth i'r Ardal ailarchwilio pob agwedd ar ei busnes, gyda chefnogaeth lawn Pencadlys y CPS a Grŵp Cymru'r CPS.

**Ein Dull Gweithredu**

2. Bydd ein dull gweithredu ar gyfer y dyfodol yn ystyried dwy thema allweddol. Yn gyntaf, rhaid i ni gyflawni'n gyson yn erbyn cyfres o safonau ansawdd craidd sy'n nodi ansawdd y gwasanaeth y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w ddisgwyl gan y rheini sy'n erlyn ar eu rhan. Yn ail, mewn cyfnod lle mae heriau i gyllid gwasanaethau cyhoeddus yn arbennig o ddifrifol, rhaid i ni weithio'n fwy effeithlon, gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau presennol i gynhyrchu'r canlyniadau mwyaf effeithiol.

**Arweinyddiaeth**

3. Mae'r adroddiad wedi tynnu sylw at ddiffyg arweinyddiaeth effeithiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyfarwyddwr wedi penodi Prif Erlynydd y Goron newydd yn gyflym ac ar sail barhaol. Ar y cyd â thîm rheoli'r ardal, bydd ffocws ar roi cyfeiriad i'r staff, cyflawni canlyniadau a datblygu gallu'r ardal i ymdrin â heriau nawr ac yn y dyfodol. Mae'r ymateb hwn yn dynodi dechrau proses o nodi disgwyliadau eglur.

**Ein Gweledigaeth**

4 Mae'n bwysig ein bod yn nodi'r hyn rydym am ei gyflawni o fewn ein cyd-destun lleol. Mae ein gweledigaeth fel a ganlyn

> *"Gan weithio gyda'n cydweithwyr yn yr heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol lleol eraill, byddwn yn cael ein parchu yn ein cymuned leol a thrwy'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol ehangach yng Ngwent, yn cael ein cydnabod am ein proffesiynoldeb, ein hymroddiad, a rhagoriaeth y gwasanaeth a ddarperir gennym i'n cymunedau."*

**Cysylltiadau gyda'r Heddlu a Phartneriaid Cyfiawnder Troseddol eraill**

5. Mae ein hymddygiad yn effeithio ar allu asiantaethau eraill o fewn y system cyfiawnder troseddol i gyflawni eu cyfrifoldebau hwy. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at anawsterau'r gorffennol. Byddwn yn dysgu o'r rhain ond rydym eisoes yn canolbwyntio ar y dyfodol gyda chymorth gan ein partneriaid a'n pencadlys adrannol.

6. Bydd cydberthynas agos ac effeithiol gyda Heddlu Gwent yn greiddiol i'n llwyddiant yn y dyfodol, gan adeiladu ar ethos y Tîm Erlyn, a chydnabod pwysigrwydd ein sefydliadau wrth gynhyrchu gwasanaeth cyfiawnder troseddol effeithiol yng Ngwent. Rydym wedi cytuno ar gynllun ar y cyd i ymdrin â llawer o'r materion allweddol a godwyd yn yr adroddiad. Byddwn hefyd yn cymryd rhan lawn yng ngwaith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gwent.

**Rheoli'r ardal**

7. Mae angen i ni gynyddu ein hadnoddau a'n gallu rheoli er mwyn gallu cyflawni newidiadau llwyddiannus yn CPS Gwent. Gyda chymorth ein cydweithwyr yng Ngrŵp Cymru'r CPS a chymorth adnoddau dynol arbenigol gan y CPS ehangach, byddwn yn creu'r tîm gorau i wella perfformiad. Rydym eisoes wedi gwneud newidiadau i'n tîm rheoli a byddwn yn sicrhau bod pob un o'n rheolwyr yn destun prosesau datblygiad proffesiynol parhaus penodol. Rhaid sicrhau eglurder o ran dull gweithredu a disgwyliadau, gan rymuso rheolwyr i berchenogi eu gwaith gyda'u timau - gan reoli talent, presenoldeb, hyrwyddo lles ac ymdrin â pherfformiad gwael.

**Ein strwythur**

8. Ar hyn o bryd, mae gennym ddau dîm, wedi'u rhannu mewn enw ar sail gwaith achos daearyddol. O ystyried strwythur newydd yr heddlu lleol, mae hyn yn gymharol amherthnasol ac mae'r gwaith a wneir gan y timau yn croesi swyddogaethau ac nid yw'n berthnasol i unrhyw ran o Went. Mae strwythur newydd ein tîm yn seiliedig ar ymdrech i rannu ein prif swyddogaethau gwaith achos yn gliriach gyda staff yn cael eu dyrannu i dimau'r Llysoedd Ynadon a Llys y Goron. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl rheoli gwaith achos yn well, creu llinellau atebolrwydd cliriach, datblygu staff a rhoi cyfle i wella prosesau. Bydd y strwythur newydd yn weithredol o fis Chwefror 2010.

**Gwneud penderfyniadau**

9. Yn unol ag egwyddorion "Modernising Charging", byddwn yn sicrhau gwasanaeth ar alw ar gyfer y troseddau mwyaf cyffredin ac yn sicrhau bod cyngor arbenigol ar gael mewn perthynas â gwaith achos difrifol ac, yn arbennig, ar gyfer achosion sy'n ymwneud â thrais. Darperir gwasanaeth cyhuddo a chyngor yn erbyn meini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer cynnwys ffeiliau ac o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt.

10. Mae'r adroddiad yn amlygu'r angen am welliannau gwirioneddol o ran ansawdd a chysondeb y broses o wneud penderfyniadau yn ystod pob cam o'r broses ac ar gyfer pob math o waith achos, ond yn holl bwysig mewn perthynas â phenderfyniadau cyhuddo ac adolygiadau ffeiliau. Er y gall gwell lefel o reoli perfformiad, gan gynnwys gwell prosesau sicrhau ansawdd a mwy o arfarnu unigol, ymdrin â hyn, ac y gwnaiff hynny, bydd angen proses atgoffa gynhwysfawr mewn perthynas â'r materion allweddol. Felly byddwn yn cynnal cyfres o weithdai ymarferol ar gyfer pob un o'n herlynwyr, gan nodi'r dull gweithredu gofynnol ar gyfer erlyn rhagweithiol er mwyn sicrhau cysondeb a sicrhau y cyflawnir ein safonau ansawdd craidd.

11. Byddwn yn cynyddu lefel ein harbenigedd ym meysydd allweddol Trais yn erbyn Merched (yn arbennig, achosion Trais a Thrais yn y Cartref), troseddau difrifol a marwolaethau ar y ffordd. Byddwn yn cyflawni hyn drwy well protocolau, trefniadau newydd ar gyfer goruchwylio strategol, a hyfforddiant strwythuredig.

**Gwella prosesau**

12. Ein maes blaenoriaeth fydd ein gwaith achos mwyaf difrifol yn Llys y Goron. Mae'r achosion hyn yn cael cryn effaith ar hyder y cyhoedd; mae angen adnoddau sylweddol a set sgiliau gynhwysfawr ar eu cyfer. Ochr yn ochr â'r broses ailstrwythuro tîm y cyfeirir ati uchod, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o'r ffordd rydym yn rheoli gwaith achos Llys y Goron er mwyn sicrhau bod pob proses fewnol yn defnyddio ein staff yn effeithlon ac yn bodloni egwyddorion ansawdd, amseroldeb a pherchenogaeth. Mae hyn yn cynnwys creu Uned Datblygu Achosion estynedig. Bydd y prosesau newydd yn dod yn gwbl weithredol yn ystod mis Chwefror 2010.

13. Yn ystod chwarter cyntaf 2010, cynhelir archwiliad cynhwysfawr o brosesau'r Llys Ynadon yng nghyd-destun yr "adolygiad LEAN" a noddir gan yr LCJB. Prif Erlynydd y Goron yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y prosiect traws-asiantaeth hwn sy'n anelu at gyflawni arbedion effeithlonrwydd a darparu gwasanaeth mwy cydgysylltiedig drwy gael gwared ar waith diangen wedi'i ddyblygu, pennu tasgau mewn ffordd fwy penodedig, a chydweithio mwy effeithiol gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu achosion. Yn gyffredinol, bydd hyn unwaith eto yn ysgogi gwelliant o ran ansawdd, amseroldeb a pherchenogaeth achosion.

14. Mae gwneud mwy gyda llai o adnoddau yn heriol pan fo'r gofynion o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gynnydd. Byddwn yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ystyried y dechnoleg newydd a fydd ar gael i ni a'r posibiliadau o ran gweithio'n gynyddol o fewn amgylchedd digidol, yn fewnol a chyda'n partneriaid. Gan gydnabod bod angen cadw cofnodion cywir, ac er mwyn gwireddu buddiannau technoleg nawr ac yn y dyfodol, byddwn yn cynnal archwiliad o hyfforddiant o ran sgiliau TG a'r defnydd o CMS erbyn mis Mawrth 2010 a byddwn yn darparu hyfforddiant sgiliau newydd fel y bo'n briodol wedi hynny.

**Ein Staff**

15. Er ein bod yn derbyn graddau'r materion a nodwyd yn yr adroddiad, mae gan ein staff gryn brofiad, ymroddiad sylweddol a photensial helaeth. Nhw yw ein hadnodd allweddol. Rhaid iddynt allu cyflawni'r canlyniadau gorau yn ein gwaith achos, nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn cyflawni hynny drwy ddatblygu eu sgiliau, cynyddu arbenigedd, mabwysiadu dull gweithredu mwy hyblyg o ran defnyddio staff, a dull cyson o reoli perfformiad.

16. Mae rheoli perfformiad staff yn hanfodol er mwyn i ni ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ystod cyfnod o newidiadau. Mae'n ein galluogi i lunio cysylltiadau rhwng yr hyn y mae angen i ni ei gyflawni fel Ardal a'r unigolyn. Mae'n darparu fframwaith i annog unigolion i ddatblygu eu galluoedd ac yn ysgogi gwelliannau er mwyn ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Bydd gan staff amcanion sy'n seiliedig ar y materion a nodwyd yn yr adroddiad ac yn yr ymateb hwn. Byddant yn fesuradwy ac wedi'u cynllunio i sicrhau y gellir cyflawni'r safonau a ddisgwylir gennym. Caiff y broses arfarnu staff ei hategu gan system sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad gwaith achos estynedig. Bydd hyn yn gwbl weithredol erbyn mis Ebrill 2010.

17. Mae buddiannau sylweddol yn gysylltiedig â defnyddio profiad ein staff i erlyn ein hachosion lle byddant yn meddu ar y cymwysterau priodol i wneud hynny a bydd ein strategaeth eiriolaeth yn adlewyrchu hynny. Cafwyd sylwadau ffafriol am agweddau ar ein heiriolaeth yn yr adroddiad. Byddwn yn sicrhau y caiff arbenigedd pob un o'n Heiriolwyr y Goron ei ddatblygu'n llawn drwy brosesau datblygiad personol penodedig a rhaglen strwythuredig o asesiadau eiriolaeth er mwyn gallu eu defnyddio cymaint â phosibl, yn unol â'u sgiliau a'u profiad. Byddwn yn gynyddol yn lleihau ein dibyniaeth ar eiriolwyr allanol yn y Llys Ynadon lle y mae gennym dîm o gyfreithwyr profiadol a gwerthfawr a chorff o erlynwyr cyswllt uchel eu parch. Bydd sicrhau y defnyddir ein holl erlynwyr yn briodol hefyd yn gwella ein heffeithlonrwydd.

18. Mae ein blaenoriaethau hyfforddiant mwyaf uniongyrchol, yr ymdrinnir â hwy drwy raglen strwythuredig drwy gydol 2010, fel a ganlyn:-

- Gwneud penderfyniadau
- Dioddefwyr a Thystion
- Trais yn y cartref

- Datgelu
- Terfynau Amser Cadwraeth
- PoCA

19. Byddwn yn dangos ac yn cefnogi'r gwerthoedd a'r ymddygiad a ddisgwylir gan wasanaeth erlyn cyhoeddus. Mae'r ffordd y mae erlynwyr yn cyflawni eu pwerau a'u dyletswyddau yn cael effaith uniongyrchol ar fuddiannau pobl eraill, nid yn unig unigolion yn y system - boed yn ddioddefwyr, yn dystion neu'n ddiffynyddion - ond hefyd ein cymuned ehangach. Bydd safonau ymddygiad yn cael eu pwysleisio'n gyson ac yn rheolaidd mewn sesiynau briffio tîm ac mewn arfarniadau unigol er mwyn sicrhau bod amgylchedd ein swyddfa yn adlewyrchu polisi'r CPS ar urddas yn y gwaith yn glir.

**Dioddefwyr a Thystion**

20. Mae Dioddefwyr a Thystion wrth wraidd popeth a wnawn. Gan adeiladu ar rai o ganfyddiadau cadarnhaol yr adroddiad, byddwn yn canolbwyntio ar nodi anghenion dioddefwyr cyn gynted â phosibl a thrwy gydol oes yr achos, gan fabwysiadu ymagwedd fwy cyson a rhagweithiol tuag at fesurau arbennig a Datganiadau Personol Dioddefwyr, a gwella ansawdd ein cyswllt ysgrifenedig a phersonol.

21. Rhoddir y newid angenrheidiol ar waith drwy hyfforddiant ar y cyd, adolygiad o brosesau a gwell sicrwydd ansawdd. Byddwn yn ystyried ffyrdd o sicrhau llif gwybodaeth cliriach a llawnach rhwng y CPS, yr heddlu a'n Huned Gofal Tystion ar y cyd. Byddwn yn archwilio unrhyw faterion a fydd heb eu datrys ar ddiwedd adolygiad LEAN sy'n ystyried y prosesau perthnasol.

**Rheoli Perfformiad**

22. Rydym yn cydnabod y neges glir sy'n deillio o'r adroddiad, sef na fu prosesau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad unigolion a gwaith achos. O ganlyniad, ni lwyddwyd i wella, i ddysgu'n gyffredinol nac i ddatblygu staff. Mae angen i ni ganolbwyntio ar welliant gweladwy yn hytrach na chasglu a dadansoddi data. Byddwn yn dysgu o ganlyniadau ein holl waith achos, gan gydnabod budd adborth gan ein partneriaid a'r farnwriaeth.

23. Yng nghyd-destun ein gwaith gyda'r heddlu fel y Tîm Erlyn, rydym yn ymrwymedig i reoli perfformiad ein gwaith achos ar lefel unigol, ar lefel uned ac ar lefel ardal. Byddwn yn cyflwyno dull gweithredu cyson o ran sicrhau ansawdd drwy gyflwyno mesurau y gellir eu hadnabod ar gerrig milltir allweddol yn yr achos - penderfyniad cyhuddo, adolygu'r ffeil (cychwynnol a threial) a chanlyniadau achos anffafriol. Caiff y wybodaeth honno ei rhannu a rhoddir y gwersi ar waith ar lefel unigol. Caiff gwybodaeth am berfformiad ei dadansoddi er mwyn nodi meysydd o bryder uniongyrchol a thueddiadau systemig a chaiff ei hadolygu yng nghyd-destun sesiynau briffio tîm a strwythur PTPM diwygiedig, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn effeithiol â materion o fewn terfynau amser y cytunir arnynt.

24. Er mwyn sicrhau bod gennym ffocws clir ac uniongyrchol ar newid perfformiad, rydym wedi nodi targedau allweddol ar gyfer gwella, ar y cyd gyda'n cydweithwyr yn yr heddlu, gan roi pwyslais arbennig ar achosion sy'n cynnwys Trais yn erbyn Merched.-

- Cymhareb cyhuddo: dim camau pellach (NFA)
- Cyfraddau Pleon Euog yn y Llysoedd Ynadon a Llys y Goron
- Cyfradd dirwyn i ben mewn achosion lle bo'r CPS yn dwyn cyhuddiadau
- Lleihad yn nifer y treialon chwâl/aneffeithiol

**Ymgysylltu â'r Gymuned**


25. Er bod CPS Gwent yn cynnal cryn dipyn o waith ymgysylltu â'r gymuned, fel y cydnabyddir yn yr adroddiad, gellid ei ddatblygu ymhellach. Yn gyffredinol, rydym yn anelu at gynyddu ein cyswllt â'r gymuned er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o faterion sy'n peri pryder ac er mwyn sicrhau bod sail fwy cynhwysfawr i'n penderfyniadau. Defnyddir gwaith ardderchog y Panel Craffu ar Droseddau Casineb mewn ffordd fwy strwythuredig i'n helpu i ysgogi gwelliannau ym maes troseddau casineb yn gyffredinol a gallai fod o gymorth, yn arbennig, wrth nodi cyfleoedd ar gyfer gwella ym maes troseddau cam-drin yn y cartref. Byddwn hefyd yn sicrhau y caiff adborth gan ein cymunedau ar achosion penodol ei ystyried yn llawn er mwyn gallu dysgu unrhyw wersi a'u rhoi ar waith mewn gwaith achos yn y dyfodol.

**Tîm Rheoli CPS Gwent**
**Ionawr 2010**

**Os gofynnwch i ni, gallwn ddarparu crynodeb neu fersiwn cyflawn o'r llyfryn hwn mewn Braille, print bras neu mewn ieithoedd eraill.**

**I gael gwybodaeth neu i gael mwy o gopïau o'r llyfryn hwn, cysylltwch â'n Tîm Cyhoeddiadau ar 020 7210 1197, neu ewch i'n gwefan: www.hmcpsi.gov.uk**

Rhif Cyhoeddiad HMCPSI CP001:1016



Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
Swyddfa Llundain:
26 – 28 Old Queen Street
London SW1H 9HP
Ffôn: 020 7210 1197
Ffacs: 020 7210 1186

Swyddfa Caerefrog:
United House, Piccadilly
York, North Yorkshire, YO1 9PQ
Ffôn: 01904 54 5490
Ffacs: 01904 54 5492

Gwefan:
www.hmcpsi.gov.uk

ⓗ Hawlfraint y Goron 2010